



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2011
Tuesday, 14 June 2011**

**Cynnwys
Contents**

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
33	Cwestiwn Brys: Cau Canolfan Alwadau Lloyds Banking Group ym Mhen-y-bont ar Ogwr Urgent Question: Closure of Lloyds Banking Group Call Centre in Bridgend
39	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
45	Datganiad am Flaenoriaethau Deddfwriaethol Statement on Legislative Priorities
70	Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth Supplementary Legislative Consent Motion: Localism Bill
73	Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg Supplementary Legislative Consent Motion: Education Bill
75	Comisiwn Bevan The Bevan Commission
99	Cyfnod Pleidleisio Voting Time
104	Dadl Fer: Gadewch i Blant fod yn Blant Short Debate: Let Children Be Children

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

The Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Iechyd a Lles y Genedl

Health and Wellbeing of the Nation

I. Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies): *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella iechyd a lles y genedl. OAQ(4)0028(FM)*

I. The Leader of the Opposition (Paul Davies): *What is the Welsh Government doing to improve the health and wellbeing of the nation? OAQ(4)0028(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Yr ydym yn dangos ein hymrwymiad drwy ein haddewid yn ein maniffesto i ofal iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Yr ydym yn parhau i fynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd, fel ysmegu a gordewdra.

The First Minister (Carwyn Jones): Our commitment is demonstrated in our manifesto commitment to twenty-first century healthcare. We continue to tackle public health priorities, such as smoking and obesity.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb hynny. Deallaf fod cynllun gweithredu ar gyfer iechyd yr henoed wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru yn 2005 er mwyn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgarwch corfforol i oedolion hŷn. Cafodd ei gynllunio i gynorthwyo unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles, ac i hyrwyddo mynediad gwell i raglenni sgrinio, er enghraifft. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynllun gweithredu, mae'n ymddangos o hyd bod gwahaniaethau oedran o ran mynediad i rai gwasanaethau sgrinio. A all y Prif Weinidog a'i Lywodraeth ddiweddarau'r cynllun gweithredu hwn, o gofio bod y rhan fwyaf o'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun presennol wedi cael ei monitro hyd at 2007 yn unig?

Paul Davies: I am grateful for that response. I understand that an action plan for healthcare for the elderly was drawn up by the Welsh Government in 2005 in order to provide a strategic direction for physical activity for older people. It was developed to enable individuals to take more responsibility for their own health and wellbeing and to promote better access to screening programmes, for example. However, despite the action plan, it appears that there is age discrimination in terms of access to some screening services. Can the First Minister and his Government update that action plan, bearing in mind that most of the action points contained within the current plan were monitored only until 2007?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn edrych ar anghydraddoldebau iechyd drwy ein cynllun gweithredu strategol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd, sef 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'. Ar ben hynny, wrth gwrs, yr ydym yn sicrhau bod pobl yn gallu cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt mewn lle sydd yn ddigon lleol iddynt, er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r gwasanaeth iechyd yn parhau i wella.

The First Minister: We look at health inequalities through our strategic action plan to reduce health inequalities, namely 'Fairer Health Outcomes for All'. In addition to that, of course, we ensure that people can receive the treatment that they require in their own locality in order to ensure that the outcomes of the health service continue to improve.

Keith Davies: Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y bydd yn gweithio'n galed i wella gwasanaethau iechyd i bobl Cymru. Mae trafferthion un o'm hetholwyr, Mrs Enid Higham, wedi tanlinellu'r angen i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wella ei wasanaethau cataract. Ar ôl cael triniaeth ar un llygad 11 mlynedd yn ôl, cafodd ei throï lawr am driniaeth ar y llygad arall oherwydd polisi'r bwrdd iechyd sy'n cyfyngu triniaeth i un llygad yn unig. Hefyd, mae nifer o'm hetholwyr o Lanelli yn gorfod teithio i Lanaman er mwyn gweld y llawfeddyg. Mae'n sicr bod teithio o Lanelli i Lanaman yn anodd i rywun sydd â phroblemau gweld. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod lle i wella'r ddarpariaeth o rai triniaethau yn y gwasanaeth iechyd, gan gynnwys darpariaeth llawdriniaeth cataract gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda?

Y Prif Weinidog: Os ysgrifennwch ataf gyda manylion yr unigolyn, ysgrifennaf yn ôl gydag ateb manylach.

Elin Jones: Yn sgîl sefyllfa bryderus Southern Cross ar hyn o bryd, a gytunwch na ddylai cynghorau sir fod yn ystyried preifateiddio unrhyw gartref gofal i'r henoed, a bod perchnogaeth gyhoeddus yn rhoi sicrydd hirdymor i'r henoed?

Y Prif Weinidog: Ni ddylai unrhyw awurdod lleol edrych i breifateiddio unrhyw gartref preswyl.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

2. Lindsay Whittle: *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch dyfodol swyddfa'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yma yng Nghymru. OAQ(4)0037(FM)*

The First Minister: We will be submitting a response, but our officials are working with the EHRC at the moment to provide advice on what steps we should take in terms of the proposed changes. We are also preparing a consultation event with stakeholders later this month, which will inform our response to the consultation.

Keith Davies: The First Minister has said that he will work hard to improve health services for the people of Wales. The difficulties of one of my constituents, Mrs Enid Higham, have highlighted the need for the Hywel Dda Local Health Board to improve its cataract services. Having received treatment on one eye 11 years ago, she was refused treatment for the other eye because of the health board's policy of limiting treatment to only one eye. A number of my constituents from Llanelli also have to travel to Glanamman in order to see a surgeon. There is no doubt that travelling from Llanelli to Glanamman is difficult for someone whose vision is impaired. Does the First Minister agree that there is room for improvement with regard to some treatments provided by the health service, including cataract operations undertaken by Hywel Dda Local Health Board?

The First Minister: If you write to me regarding the situation of that individual, I will give you a more detailed response.

Elin Jones: Given the concerning situation of Southern Cross at present, do you agree that county councils should not consider privatising any care homes for the elderly and that public ownership provides long-term assurance to our older people?

The First Minister: No local authority should look to privatise any residential home.

Equality and Human Rights Commission

2. Lindsay Whittle: *What discussions has the Welsh Government had on the future of the Equality and Human Rights Commission office here in Wales? OAQ(4)0037(FM)*

Y Prif Weinidog: Byddwn yn cyflwyno ymateb, ond mae ein swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar hyn o bryd i roi cyngor ar ba gamau y dylem eu cymryd o ran y newidiadau arfaethedig. Rydym hefyd yn paratoi digwyddiad ymgynghori â rhanddeiliaid yn ddiweddarach y mis hwn, a fydd yn llywio ein hymateb i'r ymgynghoriad.

Lindsay Whittle: Will you consider making representations to the Home Secretary and inviting Trevor Phillips and Mark Hammond, the chair and chief executive of the commission, here to seek commitments about resourcing in Wales? Would you be happy to invite them here to meet not only you, but representatives of all four parties? It is vital that we ensure that the commission in Wales is viable and that it will continue with its important work of enforcing the new, specific equality duties and will further promote the distinctive equalities agenda that we have in Wales. Plaid Cymru would be happy to meet the chair and the chief executive of the commission, and I am sure that the Labour Party would be equally happy to do so. I invite the Conservatives and the Liberal Democrats to do so as well.

The Presiding Officer: Order. This is a question, not an invitation.

The First Minister: The Leader of the House, in her role as the Minister with responsibility for equality, will be looking to meet them to make the point that we need to ensure a strong presence for the EHRC in Wales. If a meeting can be organised with other parties, I am sure that that can be done separately.

Mohammad Asghar: I hope that the ongoing consultation into the future of the EHRC will help to ensure that the commission is structured as an effective equalities regulator and national human rights institution, that it does not duplicate work, and that it uses public money as wisely as possible. In the consultation document, the UK Government highlights the importance of the commission retaining a strong presence in Wales and working closely with the Welsh Government. Given that we face some unique challenges in Wales that are linked to equality, will you join me in welcoming the statement, First Minister?

The First Minister: I hope that we will not

Lindsay Whittle: A wnewch chi ystyried gwneud sylwadau i'r Ysgrifennydd Cartref a gwahodd Trevor Phillips a Mark Hammond, cadeirydd a phrif weithredwr y comisiwn, yma i geisio ymrwymiadau ynghylch adnoddau yng Nghymru? A fydddech yn hapus i'w gwahodd yma i gwrdd nid â chi yn unig, ond â chynrychiolwyr o bob un o'r pedair plaid? Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod y comisiwn yng Nghymru yn hyfyw ac y bydd yn parhau â'i waith pwysig o orfodi'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol, newydd ac y bydd yn hyrwyddo ymhellach yr agenda cydraddoldeb unigryw sydd gennym yng Nghymru. Byddai Plaid Cymru yn hapus i gwrdd â chadeirydd a phrif weithredwr y comisiwn, ac rwyf yn siŵr y byddai'r Blaid Lafur yr un mor hapus i wneud hynny. Gwahoddaf y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i wneud hynny hefyd.

Y Llywydd: Trefn. Cwestiwn yw hwn, nid gwahoddiad.

Y Prif Weinidog: Mae Arweinydd y Tŷ, yn ei rôl fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, yn gobeithio cwrdd â nhw er mwyn gwneud y pwynt bod angen i ni sicrhau presenoldeb cryf i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Os gellir trefnu cyfarfod gyda phartïon eraill, rwyf yn siŵr y gellir gwneud hynny ar wahân.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn gobeithio y bydd yr ymgynghoriad parhaus i ddyfodol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn helpu i sicrhau bod y comisiwn wedi'i strwythuro fel rheolydd cydraddoldeb a sefydliad hawliau dynol cenedlaethol effeithiol, nad yw'n dyblygu gwaith, a'i fod yn defnyddio arian cyhoeddus mor ddoeth ag y bo modd. Yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth y DU yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw hi fod y comisiwn yn cadw presenoldeb cryf yng Nghymru ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. O gofio ein bod yn wynebu rhai heriau unigryw sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb yng Nghymru, a ymunwch â mi i groesawu'r datganiad, Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn gobeithio na

see a diminution in EHRC activities in Wales. If the UK Government has said that, we welcome that, and will seek to ensure that the EHRC's function in Wales remains as strong as ever.

fyddwn yn gweld lleihad yng ngweithgareddau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Os yw Llywodraeth y DU wedi dweud hynny, rydym yn croesawu hynny, a byddwn yn ceisio sicrhau bod swyddogaeth y comisiwn yng Nghymru yn parhau mor gryf ag erioed.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

The Presiding Officer: During questions to the First Minister, the convention in the Assembly has been for party leaders to ask supplementary questions to tabled questions and when doing so, they have been allowed to ask more open questions to the First Minister. As of this week, I wish to establish a dedicated time for leaders' questions, where the party leaders may ask questions without notice to the First Minister. I do not intend to call other Members to ask supplementary questions to their questions. I will therefore now call the party leaders to question the First Minister.

Y Llywydd: Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, y confensiwn yn y Cynulliad yw bod arweinwyr y pleidiau yn gofyn cwestiynau atodol i gwestiynau a gyflwynwyd ac wrth wneud hynny, maent wedi cael caniatâd i ofyn cwestiynau mwy agored i'r Prif Weinidog. O'r wythnos hon ymlaen, rwy'n dymuno pennu amser penodol ar gyfer cwestiynau'r arweinwyr, lle gall arweinwyr y pleidiau ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog. Nid wyf yn bwriadu galw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiynau atodol i'w cwestiynau. Felly, byddaf yn awr yn galw ar arweinwyr y pleidiau i holi'r Prif Weinidog.

Paul Davies: The economic renewal programme was one of the flagship policies of the First Minister's previous Government. How much money has been allocated to businesses throughout Wales since its launch last July?

Paul Davies: Roedd y rhaglen adnewyddu economaidd yn un o bolisiâu blaenllaw Llywodraeth flaenorol y Prif Weinidog. Faint o arian sydd wedi cael ei ddyrannu i fusnesau ledled Cymru ers ei lansio fis Gorffennaf diwethaf?

The First Minister: Given the fact that it takes some time for a programme to be rolled forward, you will not be surprised when I tell you that, at the moment, the amount of money that has been allocated is low. Inevitably, it takes a number of years for the programme to move forward and for money to be allocated under it.

Y Prif Weinidog: O gofio'r ffaith ei bod yn cymryd peth amser i gyflwyno rhaglen, ni fyddwch yn synnu pan ddywedaf wrthyf fod y swm o arian sydd wedi cael ei ddyrannu, ar hyn o bryd, yn isel. Yn anochel, mae'n cymryd nifer o flynyddoedd i'r rhaglen symud ymlaen a dosbarthu arian o ganlyniad iddi.

Paul Davies: Let me help you out, First Minister. I have the information here: a total of £47,136 was allocated to businesses between July 2010 and May 2011. Do you think that that is enough to help small businesses?

Paul Davies: Gadewch i mi eich helpu, Brif Weinidog. Mae gennyf y wybodaeth yma: dyrannwyd cyfanswm o £47,136 i fusnesau rhwng mis Gorffennaf 2010 a mis Mai 2011. A ydych yn credu bod hynny'n ddigon i helpu busnesau bach?

The First Minister: No, but inevitably these programmes ramp up as time goes on. I fully expect there to be more than sufficient funds available for small businesses during the course of the programme.

Y Prif Weinidog: Nac ydw, ond yn anochel mae'r rhaglenni hyn yn datblygu gyda threigl amser. Yr wyf yn llawn ddisgwyl y bydd mwy na digon o arian ar gael i fusnesau bach yn ystod cwrs y rhaglen.

Paul Davies: Following on from that, we want to know whether the Government will continue with the economic renewal programme. Will you commit to continuing with the economic renewal programme?

The First Minister: Yes.

Paul Davies: I am glad that we have had an answer at long last. Following on from that, will you commit to setting up enterprise zones? If so, what discussions have you had with the UK Government on setting up enterprise zones throughout Wales?

The First Minister: We are looking at enterprise zones with great interest. We understand that the consequential for Wales will be around the £5 million mark. We do not know for certain because we do not yet know what the full package means. It is not a huge amount of money. We should be very careful about what any future enterprise zones might look like, given the fact that they have had very mixed success in years gone by. Nevertheless, it is right to say that the Minister and I are looking in particular at the principle of clustered enterprise zones in different parts of Wales.

Ieuan Wyn Jones: Dywedasoch, Brif Weinidog, ar 25 Mai y byddech yn ysgrifennu at George Osborne i ofyn am gyfarfod; a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn inni, os gwelwch yn dda?

Y Prif Weinidog: Mae'r cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis nesaf.

Ieuan Wyn Jones: Diolch yn fawr am hynny. Os byddwch yn cofio, yn ôl ar 25 Mai, dywedasoch y byddai dau beth ar yr agenda gennyh i'w trafod â George Osborne. Un ohonynt oedd sicrhau'r llawr Barnett, sef rhan gyntaf adroddiad Gerry Holtham, a'r ail yw pwerau benthyg. A fyddech bellach yn ailystyried yr agenda hwnnw yn sgîl yr hyn sydd newydd ddigwydd yn yr Alban?

Y Prif Weinidog: Nid wyf am ddilyn yr Alban ond, wedi dweud hynny, mae'n

Paul Davies: Yn dilyn ymlaen o hynny, rydym am wybod a fydd y Llywodraeth yn parhau â'r rhaglen adnewyddu'r economi. A wnewch chi ymrwymo i barhau â'r rhaglen adnewyddu'r economi?

Y Prif Weinidog: Gwnaf.

Paul Davies: Yr wyf yn falch ein bod wedi cael ateb o'r diwedd. Yn dilyn ymlaen o hynny, a wnewch chi ymrwymo i sefydlu parthau menter? Os felly, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar sefydlu parthau menter ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn edrych ar barthau menter gyda llawer o ddiddordeb. Rydym yn deall y bydd yr arian canlyniadol ar gyfer Cymru oddeutu £5 miliwn. Nid ydym yn gwybod i sicrwydd oherwydd nid ydym yn gwybod eto beth mae'r pecyn llawn yn ei olygu. Nid yw'n swm enfawr o arian. Dylem fod yn ofalus iawn ynghylch sut y gallai unrhyw barthau menter posibl edrych, o gofio'r ffaith mai llwyddiant cymysg iawn a gawsant mewn blynyddoedd a fu. Serch hynny, mae'n iawn i ddweud bod y Gweinidog a minnau yn edrych yn benodol ar yr egwyddor o glystyru parthau menter mewn gwahanol rannau o Gymru.

Ieuan Wyn Jones: First Minister, you said on 25 May that you would write to George Osborne to ask for a meeting; would you please give us the latest information on that?

The First Minister: The meeting has been scheduled for the beginning of next month.

Ieuan Wyn Jones: Thank you very much for that. If you remember, back on 25 May, you said that there would be two items on the agenda for your meeting with George Osborne. One of those was to secure the Barnett floor, namely the first part of Gerry Holtham's report, and the second was borrowing powers. Would you now reconsider that agenda in light of recent events in Scotland?

The First Minister: I do not wish to follow Scotland, but, having said that, it is extremely

bwysig dros ben fod gennym becyn sydd o les i bobl Cymru. Mae'n hynod bwysig ein bod yn cael pwerau benthyg; mae hynny'n hollol amlwg. Byddaf yn gwneud datganiad yn y Cynulliad yr wythnos nesaf er mwyn amlinellu safbwynt y Llywodraeth a hefyd i ddweud wrth y Cynulliad beth fydd safbwynt y Llywodraeth pan fyddaf yn siarad â George Osborne, David Cameron a Nick Clegg.

Ieuan Wyn Jones: Mae'n bwysig eich bod yn rhannu'r agenda hwnnw gyda ni cyn gynted â phosibl, yn enwedig os mai'r agenda a osodwyd gennych ar 25 Mai ydyw; byddai'r agenda hwnnw'n sicr o danbrizio Cymru o gymharu â'r Alban. Hoffwn eich atgoffa o'r cyhoeddiad a wnaethpwyd ddoe fod yr Alban yn mynd i dderbyn, yn ychwanegol at yr hyn a gyhoeddwyd eisoes, pwerau ariannol gwerth £12 biliwn, blaendal sylweddol i alluogi'r gwaith ar bont Forth i ddechrau, a hawl ddeddfwriaethol i newid y ffordd y mae'n benthyg drwy'r hyn a elwir yn *bond issuance*, sef rhywbeth yr oedd eich plaid chi'n ddilornus ohono yn ystod yr etholiad. Gan eich bod wedi dweud eich bod am sefyll o blaid Cymru, beth yn ychwanegol y byddwch chi'n gofyn i George Osborne, o ystyried fod gennych ffordd bell i fynd er mwyn cymharu â'r Alban?

Y Prif Weinidog: O ran benthyg, yr ydym eisiau'r un pwerau â Gogledd Iwerddon a'r Alban, a hynny ar yr un lefel hefyd. Nid oes raid cael rhyw fath o *bond issue*; mae eisoes yn bosibl, fel y gwna Gogledd Iwerddon, i fenthyg arian heb gael pwerau trethu a heb fenthyg arian ar y farchnad. Yr hyn sy'n bwysig, beth bynnag fo'r mecanwaith, yw bod gan Gymru'r modd i fenthyg arian er mwyn gallu cyllido prosiectau mawr yn y dyfodol, yn enwedig wrth gofio fod cyfalaf yn mynd i fod yn brin iawn dros y blynyddoedd i ddod.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): We have seen the publication of a number of reports over the past 12 months that have been less than flattering about the state of the education system in Wales. The head of the association of school and college lecturers has today identified a lack of investment in the future leadership of schools and the importance of the continuing professional development of

important that we have a package that benefits the people of Wales. It is vital that we have borrowing powers; that is completely clear. I will make a statement in the Assembly next week in order to outline the Government's position and also to inform the Assembly of what the Government's stance will be when I speak to George Osborne, David Cameron and Nick Clegg.

Ieuan Wyn Jones: It is important that you share that agenda with us as soon as possible, especially if it is the same agenda that you outlined on 25 May; that agenda would sell Wales short as compared to what is happening in Scotland. May I remind you of the announcement that was made yesterday, that, in addition to what has already been announced, Scotland will receive fiscal powers worth £12 billion, payments to enable the work on the Forth bridge to commence, and the legislative right to change the way that Scotland borrows through what is being called bond issuance, namely something that your party was very disparaging about during the election campaign. As you have said that you will stand up for Wales, what else will you ask of George Osborne, considering that you have a long way to go compared with Scotland?

The First Minister: With regard to borrowing powers, we want the same powers as Northern Ireland and Scotland, and on the same level. It is not necessary to have some sort of bond issue; it is already possible, as Northern Ireland does, to borrow money without having taxation powers and without borrowing money on the markets. What is important, whatever the mechanism, is that Wales has the means to borrow money in order to fund major projects in the future, especially as capital funding will become scarce over the coming years.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Yr ydym wedi gweld cyhoeddi nifer o adroddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf sydd wedi bod yn llai na ffafriol am gyflwr y system addysg yng Nghymru. Mae pennaeth cymdeithas y darlithwyr ysgol a choleg wedi nodi heddiw diffyg buddsoddiad yn arweinyddiaeth ysgolion i'r dyfodol a phwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus ein

our teachers. He said:

‘in Wales I don’t think we have invested enough in continuing professional development...We’ve got some very good school leaders but a lot of them are approaching retirement’.

Do you accept his criticism and analysis of the situation in Wales? What new policies will your Government set out to ensure that we develop the next generation of teachers and school leaders?

The First Minister: I think that you mean the Association of School and College Leaders rather than the association of school and college lecturers, but I accept the point that you make. It is right to say that there are some very good leaders in schools and colleges in Wales. It is also right to say that there are others in positions of leadership who are not as good. It is important that good systems of qualifications and of continuing professional development are in place. I believe that we have those systems in place and that we will see many more schools in the future benefiting from heads and principals with enhanced leadership skills.

Kirsty Williams: I am surprised to hear you say that, First Minister, because the recent Estyn inspection of the Welsh education system made some specific and direct criticisms of the current way in which we train our headteachers and handle continuing professional development in our schools. I am not aware that the Minister has been able to introduce some significant changes to that since the publication of that report.

The gentleman who I previously quoted, who has considerable experience in leading schools in Wales, also gives specific examples of how he believed we could improve the situation. He makes direct comparisons with England about the importance being placed there on business managers, which allows headteachers to focus on school leadership, on the curriculum and on teaching and learning. Will you promote the use of business managers in

hathrawon. Dywedodd:

yng Nghymru, nid wyf yn credu ein bod wedi buddsoddi digon mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Mae gennym rai arweinwyr ysgol da iawn ond mae llawer ohonynt yn agosáu at oed ymddeol.

A ydych yn derbyn ei feirniadaeth a'i ddadansoddiad o'r sefyllfa yng Nghymru? Pa bolisiau newydd y bydd eich Llywodraeth yn nodi i sicrhau ein bod yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o athrawon ac arweinwyr ysgol?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn meddwl eich bod yn golygu'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn hytrach na chymdeithas y darlithwyr ysgol a choleg, ond yr wyf yn derbyn y pwynt a wnewch. Mae'n gywir dweud bod rhai arweinwyr da iawn mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru. Mae hefyd yn gywir dweud bod pobl eraill mewn swyddi o arweiniad nad ydynt mor dda. Mae'n bwysig bod systemau da o gymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus yn eu lle. Rwyf yn credu bod y systemau hynny yn eu lle gennym ac y byddwn yn gweld llawer mwy o ysgolion yn y dyfodol yn elwa oddi wrth benaethiaid sydd â gwell sgiliau arwain.

Kirsty Williams: Rwyf yn synnu eich clywed yn dweud hynny, Brif Weinidog, gan fod arolwg diweddar Estyn o system addysg Cymru wedi nodi rhai beirniadaethau penodol ac uniongyrchol o'r ffordd yr ydym yn hyfforddi ein penaethiaid ac yn trin datblygiad proffesiynol parhaus yn ein hysgolion ar hyn o bryd. Nid wyf yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi llwyddo i gyflwyno rhai newidiadau arwyddocaol i hynny ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw.

Mae'r gŵr a ddyfynnwyd gennyf yn gynharach, sydd â phrofiad sylweddol yn arwain ysgolion yng Nghymru, hefyd yn rhoi enghreifftiau penodol o sut yr oedd yn credu y gallem wella'r sefyllfa. Mae'n gwneud cymariaethau uniongyrchol â Lloegr ynglŷn â'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi yno ar reolwyr busnes, sy'n caniatáu i benaethiaid ganolbwyntio ar arweinyddiaeth yr ysgol, ar y cwricwlwm ac ar addysgu a dysgu. A fyddwch yn hyrwyddo'r defnydd o reolwyr

Welsh schools?

busnes yn ysgolion Cymru?

1.45 p.m.

The First Minister: Schools are not businesses and I do not think that a business manager is the right person to run a school. That is unfair on the many headteachers up and down Wales who are committed to education and are good at managing schools. It is true that they need the right level of support and qualifications, but I have seen many schools in Wales where the headteacher is an effective manager. The key thing for us is to ensure that the good practice that we see in so many schools around Wales is replicated in all of them, and that remains a challenge.

Kirsty Williams: Once again I am rather surprised by your analysis of the situation. You do not want to take the advice of the unions—and that is your choice—and you question the role of business managers in schools, yet your own inspectorate, Estyn, has identified that a good school business manager can free up at least 20 per cent of the time of a headteacher, allowing that professional to concentrate on curriculum development, leadership and the promotion of learning and excellence within that school. This afternoon we are going to have your legislative statement. Do you not agree that it is time for the Government to bring forward a teaching standards Bill to put in place new, streamlined structures for the training and development of our teachers, to drive up standards and challenge the profession so that it can deliver for all of our children?

The First Minister: One of the suggestions that will be brought forward in my statement is indeed an education Bill. I will make that clear in the statement.

Kirsty Williams: I am grateful for that answer, First Minister, but I bring you back to the point that your own inspectors believe that the employment of business managers would be a good idea. I therefore ask you to reflect on the comments that you made earlier. The Minister for Education and Skills is again due to make a keynote speech to an external audience that we are told will set out how he and your Government will drive up

Y Prif Weinidog: Nid yw ysgolion yn fusnesau ac nid wyf yn credu mai rheolwr busnes yw'r person cywir i redeg ysgol. Mae hynny yn annheg ar y penaethiaid niferus ar hyd a lled Cymru sydd wedi ymrwymo i addysg ac sy'n dda am reoli ysgolion. Mae'n wir eu bod nhw angen y lefel gywir o gefnogaeth a chymwysterau, ond yr wyf wedi gweld llawer o ysgolion yng Nghymru lle mae'r pennaeth yn rheolwr effeithiol. Y peth allweddol i ni yw sicrhau bod yr arfer da a welwn mewn cynifer o ysgolion ledled Cymru yn cael ei ailadrodd ym mhob un ohonynt, ac mae hynny'n parhau i fod yn her.

Kirsty Williams: Unwaith eto, yr wyf yn synnu braidd at eich dadansoddiad o'r sefyllfa. Nid ydych am gymryd cyngor yr undebau—a dyna eich dewis chi—ac rydych yn cwestiynu rôl rheolwyr busnes mewn ysgolion, ond eto mae eich arolygiaeth chi eich hun, Estyn, wedi nodi y gall rheolwr busnes ysgol da ryddhau o leiaf 20 y cant o amser y pennaeth, gan ganiatáu y person proffesiynol hwnnw i ganolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm, arwain a hyrwyddo dysgu a rhagoriaeth o fewn yr ysgol honno. Y prynhawn yma rydym yn mynd i glywed eich datganiad deddfwriaethol. Onid ydych yn cytuno ei bod yn bryd i'r Llywodraeth gyflwyno Bil safonau dysgu er mwyn sefydlu strwythurau newydd, symlach ar gyfer hyfforddi a datblygu ein hathrawon, i godi safonau a herio'r proffesiwn fel y gall hi gyflawni ar gyfer ein plant ni oll?

Y Prif Weinidog: Yn wir, un o'r awgrymiadau a gaiff ei gyflwyno yn fy natganiad yw Bil addysg. Byddaf yn gwneud hynny'n glir yn y datganiad.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ddiolchgar am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog, ond rwyf yn dod â chi yn ôl at y pwynt bod eich arolygwyr eich hun yn credu y byddai cyflogi rheolwyr busnes yn syniad da. Felly, gofynnaf i chi i fyfyrion ar y sylwadau a wnaethoch yn gynharach. Mae disgwyl eto i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau draddodi araith gyweirnod gerbron cynulleidfa allanol a fydd, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthym, yn

standards and respond to the failings reflected in the Programme for International Student Assessment report. Will you ensure that, in future, any new policy initiatives are announced in person in this Chamber?

The First Minister: Policy initiatives are announced to Assembly Members, but there will inevitably be occasions when policies will be discussed with stakeholders in the professions. Today we will hear about the proposed legislative programme and next week there will be a statement on the Government's fiscal policy.

Trydaneiddio'r Rheilffordd

3. Mike Hedges: *A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw wybodaeth bellach am drydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe. OAQ(4)0030(FM)*

The First Minister: We know that the UK Government has published its business case for electrification and it does not go as far as Swansea. It is said that it would cost some £60 million to electrify as far as Swansea. Having noticed the Secretary of State's opposition to a high-speed line going through her constituency, I can assure her that we would be more than happy to take some of the money that would be set aside for that line to pay for the electrification to Swansea.

Mike Hedges: I thank the First Minister for his response. I will follow up by saying that, for areas like Swansea and his own constituency, Bridgend, an electrified line is important for economic regeneration. Those who are making investments around Britain will be looking at areas with motorways, fast broadband and electrified rail lines, and if we do not have that down in the west, then we will be at a significant disadvantage. Would the First Minister not agree that electrification would be more helpful for the economic regeneration of Swansea and other parts of west Wales than enterprise zones or greater fiscal powers?

gwthio i godi safonau ac ymateb i'r diffygion a adlewyrchir yn adroddiad y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrrwyr. A wnewch chi sicrhau, yn y dyfodol, y bydd unrhyw fentrau polisi newydd yn cael eu cyhoeddi yn bersonol yn y Siambr hon?

Y Prif Weinidog: Caiff cynlluniau polisi eu cyhoeddi i Aelodau'r Cynulliad, ond mae'n anochel y bydd achlysuron pan fydd polisiau'n cael eu trafod gyda rhanddeiliaid yn y proffesiynau. Heddiw, byddwn yn clywed am y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig a'r wythnos nesaf bydd datganiad am bolisi ariannol y Llywodraeth.

Railway Electrification

3. Mike Hedges: *Has the First Minister received any further information regarding the electrification of the main railway line from Cardiff to Swansea. OAQ(4)0030(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gwybod bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ei achos busnes ar gyfer trydaneiddio, ac nid yw'n mynd mor bell ag Abertawe. Dywedir y byddai'n costio tua £60 miliwn i drydaneiddio cyn belled ag Abertawe. Wedi sylwi ar wrthwynebiad yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno llinell cyflymder uchel drwy ei hetholaeth, gallaf ei sicrhau hi y byddem yn fwy na pharod i gymryd peth o'r arian a fyddai'n cael ei neilltuo ar gyfer y llinell honno i dalu am drydaneiddio i Abertawe.

Mike Hedges: Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ymateb. Hoffwn ychwanegu drwy ddweud fod rheilffordd wedi'i thrydaneiddio, i ardaloedd fel Abertawe a'i etholaeth ei hun, Pen-y-bont ar Ogwr, yn bwysig ar gyfer adfywio economaidd. Bydd y rhai sy'n gwneud buddsoddiadau o amgylch Prydain yn edrych ar ardaloedd sydd â thraffyrdd, band eang cyflym a rheilffyrdd wedi'u trydaneiddio, ac os nad oes gennym y rheini yn y gorllewin, yna byddwn o dan anfantais sylweddol. Oni fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai trydaneiddio yn fwy defnyddiol ar gyfer adfywiad economaidd Abertawe a rhannau eraill o orllewin Cymru na pharthau menter neu bwerau ariannol pellach?

The First Minister: The sad reality is that many businesses will see that the line is being electrified as far as Cardiff and take it that the message of the UK Government is that the main line ends at Cardiff, and anywhere west of Cardiff should not be invested in. That is the sad message that the UK Government may be sending. In a sane world, of course, the second Severn crossing would have been built with a railway deck underneath it, but it was beyond the capacity of the Government of the day to realise that.

Byron Davies: First Minister, I think that we both agree that improving the business case for the continuation of the electrification project from London to Swansea is key to the economic revival of our part of the world. I was extremely pleased to be present in Swansea's Brangwyn Hall in April of this year, when the Prime Minister, David Cameron, confirmed that the UK Government would go out of its way to improve the business case. I am sure that all Members from South Wales West would like to know what action you have taken since forming your Government to assist with improving the business case. Have you had any meetings or correspondence specifically on that subject? Although I do not want to prejudge your answer to this important question, I fear that the evidence speaks louder than words. I am afraid that the evidence of any work on the business plan is stark, and indeed—

The Presiding Officer: Order. Will you come to the question, please?

Byron Davies: First Minister, when your party governed, at the UK level and in Wales, not one inch of track was electrified in Wales. Will you commit to improving that record and to working alongside the UK Government to provide electrification to Swansea, and refrain from party-political point scoring?

The First Minister: We have a very good record of opening railway lines: the Vale of Glamorgan line is one example and the Ebbw valley line is another. Therefore, I will not take criticism from the party opposite about a commitment to railways. We have made the

Y Prif Weinidog: Y gwir trist yw y bydd llawer o fusnesau yn gweld bod y llinell yn cael ei thrydaneiddio cyn belled â Chaerdydd ac yn credu mai neges Llywodraeth y DU yw bod y brif lein yn dod i ben yng Nghaerdydd, ac na ddylid buddsoddi yn unrhyw le i'r gorllewin o Gaerdydd. Mae'n bosibl mai dyna'r neges drist y mae Llywodraeth y DU yn ei chyfleu. Mewn byd call, wrth gwrs, byddai ail groesfan Hafren wedi cael ei hadeiladu â dec rheilffordd oddi tani, ond yr oedd hynny y tu hwnt i allu Llywodraeth y dydd i sylweddoli hynny.

Byron Davies: Brif Weinidog, rwyf yn meddwl ein bod ni'n dau yn cytuno bod gwella'r achos busnes ar gyfer parhad y prosiect trydaneiddio o Lundain i Abertawe yn allweddol i adfywiad economaidd ein rhan ni o'r byd. Roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol yn Neuadd Brangwyn yn Abertawe ym mis Ebrill eleni, pan gadarnhaodd y Prif Weinidog, David Cameron, y byddai Llywodraeth y DU yn mynd allan o'i ffordd i wella'r achos busnes. Rwyf yn siŵr y byddai pob Aelod o Orllewin De Cymru am wybod pa gamau rydych wedi'u cymryd ers ffurfio eich Llywodraeth i gynorthwyo gyda gwella'r achos busnes. A ydych chi wedi cael unrhyw gyfarfodydd neu ohebiaeth ar y pwnc hwnnw'n benodol? Er nad wyf am ragfarnu eich ateb i'r cwestiwn pwysig hwn, ofnaf fod y dystiolaeth yn werth mwy na geiriau. Ofnaf fod y dystiolaeth o unrhyw waith ar y cynllun busnes yn llwm, ac yn wir—

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ofyn eich cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Byron Davies: Brif Weinidog, pan oedd eich plaid yn llywodraethu, ar lefel y DU ac yng Nghymru, ni chafodd yr un fodfedd o drac ei thrydaneiddio yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo i wella'r record honno ac i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i gyflwyno trydaneiddio i Abertawe, ac ymatal rhag sgorio pwyntiau pleidiol-wleidyddol?

Y Prif Weinidog: Mae gennym record dda iawn o agor rheilffyrdd: mae llinell Bro Morgannwg yn un enghraifft a rheilffordd Cwm Ebwy yn un arall. Felly, nid wyf yn derbyn beirniadaeth gan y blaid gyferbyn am ymrwymiad i reilffyrdd. Yr ydym wedi

point many times to the Secretary of State and others, in correspondence and in meetings, that we want to see electrification to Swansea. However, responsibility for the railways is not devolved and it is for the United Kingdom Government to produce the business case for electrification. We will do all that we can to assist the UK Government in providing a positive business case for electrification.

Julie James: Thank you for that, First Minister. I am sure that you will agree that Swansea is still riding on the crest of a wave after the football team's splendid promotion to the FA Premier League—I could not let my colleague, the Member for Swansea East, be the only person to mention that in the Chamber. I am sure that we all recognise that, as in the case of the Ryder Cup weekend in Newport last year, week in week out, for the next 12 months at least, Swansea will be the window through which the rest of the world will see Wales. I hope that we can all work together strategically to maximise this wonderful opportunity for Swansea and for the whole of Wales. We cannot allow Wales's second city to fail under the glare of the international spotlight. First Minister, do you agree that Labour, in the Assembly and elsewhere, fully supports the full electrification of the Great Western line? Do you agree that we need to press the Conservatives and Liberal Democrats, in Wales and in the UK Government, to get fully behind the electrification of the railway line between Cardiff and Swansea? It is important for Swansea and west Wales that we are seen internationally to be open for business and that it is seen that Wales does not end at Cardiff.

The First Minister: That is right. It is important that we realise that the south Wales main line, as it is described, ends at Swansea. That does not mean that the lines further west are not important, because clearly they are. It has never been the case that the main line has been seen as ending at Cardiff, until now. That impression is unfortunate because businesses will think that Cardiff is the end of the line and that, beyond Cardiff, there are problematic conditions for economic growth.

gwneud y pwynt lawer gwaith i'r Ysgrifennydd Gwladol ac eraill, mewn gohebiaeth ac mewn cyfarfodydd, ein bod am weld trydaneiddio i Abertawe. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifoldeb am y rheilffyrdd wedi'i ddatganoli a mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw cynhyrchu'r achos busnes dros drydaneiddio. Byddwn yn gwneud popeth a allwn i gynorthwyo Llywodraeth y DU o ran darparu achos busnes cadarnhaol dros drydaneiddio.

Julie James: Diolch i chi am hynny, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod Abertawe yn dal i nofio ar frig y don ar ôl dyrchafiad gwych y tîm pêl-droed i Uwch-gynghrair Lloegr—ni allwn adael fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, fod yr unig berson i sôn am hynny yn y Siambr. Rwyf yn siŵr ein bod ni gyd yn cydnabod, fel yn achos penwythnos Cwpan Ryder yng Nghasnewydd y llynedd, mai Abertawe, o wythnos i wythnos, am y deuddeng mis nesaf o leiaf, fydd y ffenestr i alluogi gweddill y byd i weld Cymru. Yr wyf yn gobeithio y gallwn ni gyd weithio gyda'n gilydd yn strategol i wneud y gorau o'r cyfle gwych hwn i Abertawe a Chymru gyfan. Ni allwn ganiatáu i ail ddinas Cymru fethu yng ngwydd yr holl sylw rhyngwladol. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod Llafur, yn y Cynulliad ac mewn manau eraill, yn llwyr gefnogi trydaneiddio y llinell Great Western yn llawn? A ydych chi'n cytuno bod angen inni bwysu ar y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yng Nghymru ac yn Llywodraeth y DU, i roi eu cefnogaeth lawn i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe? Mae'n bwysig i Abertawe a gorllewin Cymru ein bod yn cael ein gweld ar lefel ryngwladol fel lle sydd ar agor i fusnes a'i fod yn glir nad yw Cymru yn dod i ben yng Nghaerdydd.

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n gywir. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli bod prif linell y de, fel y'i disgrifir, yn dod i ben yn Abertawe. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r llinellau sydd ymhellach i'r gorllewin yn bwysig, oherwydd yn amlwg maent yn bwysig. Nid yw erioed wedi bod yn wir bod y brif linell wedi cael ei gweld yn dod i ben yng Nghaerdydd, hyd yn hyn. Mae'r argraff honno yn un anffodus oherwydd y bydd busnesau yn meddwl mai Caerdydd yw

That is the wrong message to send to the world of investment.

Bethan Jenkins: Nid oes unrhyw beth ym mhenderfyniad Llywodraeth San Steffan ar drydaneiddio sy'n adlewyrchu ei pholisi o gyflwyno trawstoriad mwy eang o dwf a datblygiad economaidd ledled y Deyrnas Unedig. Pe bai'n poeni o gwbl am gyflwr economi Cymru, byddai'n ymwybodol fod Abertawe yn wynebu mwy o berygl yng nghyd-destun colli swyddi na llawer o leoedd eraill. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai'r hyn sydd yn gwneud y sefyllfa'n waeth fyth yw'r ffaith bod y gost fesul milltir o ymestyn y trydaneiddio yn y dyfodol o Gaerdydd i Abertawe bellach yn ei osod y tu hwnt i gyrraedd pecyn buddsoddi posibl? A yw'r Prif Weinidog wedi cyfleu'r pwynt hwnnw i'r Llywodraeth yn San Steffan, ynghyd â phwyntiau eraill yn ymwneud â thrydaneiddio? A yw wedi eu cyfleu'n uniongyrchol i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y mater hwn?

Y Prif Weinidog: Gwnaethpwyd y pwyntiau hynny nid yn unig gan y Llywodraeth hon ond gan y Llywodraeth ddiwethaf hefyd. Nid oes gwahaniaeth rhwng safbwynt Gweinidogion y Llywodraeth ddiwethaf a safbwynt Gweinidogion y Llywodraeth hon. Yr ydym yn dal i bwysu i sicrhau bod y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio i'r gorllewin o Gaerdydd.

Peter Black: First Minister, I was disappointed to hear the Member for Swansea East rule out an enterprise zone for Swansea because it is important that that forms part of the package, together with electrification. When this issue was last raised in the Chamber, we were unanimous in saying that the Assembly Government and the Assembly had to stand up for Swansea and the electrification of the main line, and be proactive in standing up for Wales and in making the case to the UK Government. What is your Government doing to actively lobby and work with experts such as Professor Stuart Cole to put the case together and to present it to UK Government Ministers to make it clear that we need the electrification to Swansea and that it should

diwedd y llinell a bod amodau problemus ar gyfer twf economaidd y tu hwnt i Gaerdydd. Dyna'r neges anghywir i'w chyfleu i'r byd buddsoddi.

Bethan Jenkins: There is nothing in the Westminster Government's decision on electrification that represents its policy of introducing a wider cross-section of growth and economic development across the United Kingdom. If it were at all concerned about the condition of the Welsh economy, it would be aware that Swansea faces greater risks in terms of job losses than many other places. Does the First Minister agree that what makes the situation even worse is the fact that the cost per mile of continuing to extend the electrification from Cardiff to Swansea at a future date now puts it beyond the reach of a possible investment package? Has the First Minister made that point to the Government in Westminster, along with the other points on electrification? Has he conveyed them directly to the Minister with responsibility for this matter?

The First Minister: Those points have been made not only by this Government, but by the previous Government as well. There is no difference between the opinion of Ministers in the last Government and the opinion of Ministers in this Government. We are still pressing to ensure that the line is electrified to the west of Cardiff.

Peter Black: Brif Weinidog, yr wyf yn siomedig i glywed yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe yn diystyrru sefydlu parth fenter ar gyfer Abertawe oherwydd y mae'n bwysig fod hwnnw'n rhan o'r pecyn, ynghyd â thrydaneiddio. Pan godwyd y mater hwn ddiwethaf yn y Siambr, roeddem yn unfrydol wrth ddweud bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad sefyll o blaid Abertawe a thrydaneiddio'r brif linell, a bod yn rhagweithiol wrth sefyll o blaid Cymru ac wrth wneud yr achos i Lywodraeth y DU. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i lobio a gweithio gydag arbenigwyr fel yr Athro Stuart Cole i roi'r achos ynghyd a'i gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth y DU i'w gwneud yn glir bod angen trydaneiddio i Abertawe ac na ddylai ddod i ben yng

not stop at Cardiff?

The First Minister: On enterprise zones, that is a matter for us. The consequential will come to the Welsh Government and it is for us to decide what any future enterprise zones might look like. We still await further information from the UK Government, particularly with regard to capital allowances. That situation is not yet clear and once we get that information we will be able to proceed.

Mike Hedges: May I raise a point of order?

The Presiding Officer: No, I am sorry, but you may not.

Cyfradd Twf Economaidd

4. Julie Morgan: *Beth yw'r asesiad diweddaraf sydd ar gael i'r Prif Weinidog ynghylch cyfradd twf economaidd tebygol Cymru yn 2011. OAQ(4)0022(FM)*

The First Minister: No official forecast is made for economic growth in Wales. However, we know that Welsh economic indicators generally track those of the wider UK quite closely and that UK prospects remain highly uncertain.

Julie Morgan: I thank the First Minister for his response. Does the First Minister agree that the manufacturing-led recovery that was going strong in the second half of 2010 seems to have run out of steam in the first half of 2011? What can he do, along with the Westminster Government, to try to restore the health and vigour of the recovery?

The First Minister: The key to recovery is to ensure that our people have the right skills to provide the basis of that recovery in the future. That means ensuring that our schools, colleges and universities are working together with industry and Government to ensure that we have a skills base in Wales that is not only attractive to overseas investors, but to those who wish to set up their own businesses in Wales. There are various initiatives designed to do that, particularly EADS Foundation Wales, which I had the pleasure of helping to launch last

Nghaerdydd?

Y Prif Weinidog: O ran parthau menter, mae rheini'n fater i ni. Bydd y swm canlyniadol yn dod i Lywodraeth Cymru, a ni fydd yn gorfod penderfynu ar ffurf unrhyw barthau menter yn y dyfodol. Rydym yn dal i aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas â lwfansau cyfalaf. Nid yw'r sefyllfa hon yn glir eto ac unwaith y cawn y wybodaeth honno byddwn yn gallu bwrw ymlaen.

Mike Hedges: A gaf godi pwynt o drefn?

Y Llywydd: Na, mae'n ddrwg gennyf, ond ni ellwch godi pwynt o drefn.

Economic Growth Rate

4. Julie Morgan: *What is the latest assessment available to the First Minister of the likely economic growth rate in Wales in 2011. OAQ(4)0022(FM)*

Y Prif Weinidog: Ni wneir rhagolwg swyddogol o dwf economaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, gwyddom fod dangosyddion economaidd Cymru yn gyffredinol yn olrhain rhai o'r DU ehangach yn eithaf agos a bod rhagolygon y DU yn parhau'n ansicr iawn.

Julie Morgan: Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ymateb. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn ymddangos bod yr adferiad oedd yn cael ei arwain gan y sector gweithgynhyrchu ac yn gryf yn ystod ail hanner 2010 wedi rhedeg allan o stêm yn ystod hanner cyntaf 2011? Beth all ef, ynghyd â Llywodraeth San Steffan, ei wneud, i geisio adfer iechyd ac egni yr adferiad?

Y Prif Weinidog: Mae sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau iawn i ddarparu sylfaen i'r adferiad hwnnw yn y dyfodol yn allweddol. Mae hynny'n golygu sicrhau bod ein hysgolion, colegau a phrifysgolion yn cydweithio gyda diwydiant a'r Llywodraeth i sicrhau bod gennym sylfaen sgiliau yng Nghymru nad sydd yn ddeniadol i fuddsoddwyr tramor yn unig, ond i'r rhai sy'n dymuno sefydlu eu busnesau eu hunain yng Nghymru. Mae amryw o fentrau a gynlluniwyd i wneud hynny yn bodoli, yn enwedig Sefydliad EADS Cymru, y cefais y

night.

Alun Ffred Jones: Gyda'r rhagolygon ar gyfer twf yn yr economi yn gwaethygu, mae'n bwysig cynnal gwariant ar gynlluniau cyfalaf. Yr ydych wedi cyfeirio at y gostyngiad o 40 y cant yn y gwariant cyfalaf y byddwn yn ei weld yn y blynyddoedd nesaf. A fydddech yn fodlon ystyried cydweithio â llywodraeth leol, sydd â'r hawl i fenthycu yn barod, i ehangu'r hawl hwnnw a'i ymestyn er mwyn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu? Mae'r hyn yr ydych yn ei geisio, sef hawl i'r Llywodraeth fenthycu, yn debyg o ddod i law ymhellach i lawr y lein. Mae'r hawl hwnnw gan lywodraeth leol eisoes ac o gydweithio gyda'r Llywodraeth ganolog, mae'n bosibl y byddai hynny'n rhoi hwb i'r economi.

Y Prif Weinidog: Buaswn o blaid gwneud hynny ac yr ydym yn ystyried hynny ar hyn o bryd. Gan nad oes gennym bwerau benthyca, mae'n bwysig ein bod yn gallu gweithio gyda sefydliadau llywodraeth leol er mwyn iddynt allu defnyddio eu pwerau a gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer eu hardaloedd hwy. Fodd bynnag, yr ateb gorau fyddai sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ei phwerau benthyca ei hun.

David Rees: First Minister, do you agree that economic growth in Wales would be supported by maintaining and developing our manufacturing sector, including our heavy industries like Tata Steel? In the last UK budget, the Chancellor introduced a carbon tax that could lead to the loss of such industries. Will you continue to raise the issue with relevant UK Ministers and continue to ask your Cabinet colleagues who are responsible for these areas to investigate ways in which we can support such industries to mitigate the impact of the Conservative and Liberal Democrat carbon tax, especially those companies like Tata that are proactive in saving energy and re-using waste products?

The First Minister: You have raised a serious issue. We place a high importance on addressing the challenges of climate change, but on this occasion we believe that the

pleaser o helpu i'w lansio neithiwr.

Alun Ffred Jones: With the forecasts for economic growth worsening, it is important to sustain expenditure on capital schemes. You have referred to the reduction of 40 per cent in capital expenditure that we will see in the next few years. Would you be willing to consider co-operating with local government, which already has the right to borrow money, to enhance that right and expand it in order to boost the construction industry? You are seeking borrowing powers for the Government and it is likely that it will be much later down the line when those powers will be granted. Local government already has that power and it is possible that co-operation with central Government could boost the economy.

The First Minister: I would be in favour of doing that and we are considering that at the moment. As we do not have borrowing powers, it is important that we can work with local government bodies so that they can use their powers and collaborate with each other in order to ensure the best possible outcome for their areas. However, the best solution would be to ensure that the Welsh Government had its own borrowing powers.

David Rees: Brif Weinidog, a ydych yn cytuno y byddai twf economaidd yng Nghymru yn cael ei gefnogi gan gynnal a datblygu ein sector gweithgynhyrchu, gan gynnwys ein diwydiannau trwm fel Tata Steel? Yng nghyllideb ddiwethaf y DU, cyflwynodd y Canghellor dreth carbon a allai arwain at golli diwydiannau o'r fath. A wnewch chi barhau i godi'r mater gyda Gweinidogion perthnasol y DU a pharhau i ofyn i'ch cydweithwyr yn y Cabinet sy'n gyfrifol am y meysydd hyn i ymchwilio i ffyrdd y gallwn gynorthwyo diwydiannau o'r fath i liniaru effaith treth carbon y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn enwedig y cwmnïau hynny fel Tata sy'n rhagweithiol o ran arbed ynni ac ailldefnyddio cynhyrchion gwastraff?

Y Prif Weinidog: Rydych wedi codi mater difrifol. Rydym yn rhoi pwys mawr ar fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd, ond ar yr achlysur hwn rydym yn credu bod

potential impact on industry, especially energy-intensive industries such as steel production, needs to be considered seriously. I have raised these concerns with the Secretary of State for Business, Innovation and Skills.

William Powell: First Minister, you may have had your attention drawn to research released by Manpower today that emphasises the importance of small businesses in job creation and in leading us out of recession. Job creation is essential, especially as recent figures show that 77,000 people in Wales have been claiming out-of-work benefits for over 10 years. With that in mind, what is your Government going to do to further assist small businesses with turning opportunities into real jobs and to stimulate economic growth?

The First Minister: The economic renewal programme is clear in terms of the help that it offers businesses. It is important that we focus on helping businesses in the first year or two of their lives, at a time when those businesses are at their most vulnerable. The policies in the economic renewal programme are aimed squarely at small businesses, as well as those businesses that are of greater size.

2.00 p.m.

Julie James: I am sure that the First Minister will agree with me that Swansea is a proud university city by the sea, set against one of the most beautiful bays in the world. Unfortunately, economic growth in our city centre is suffering, because the tired Liberal-Democrat-led council, bereft of ideas, has run out of steam while running the city down. I can assure you, First Minister, that team Labour in Swansea is putting pressure on the council—with some success, I might add—to address the issues that businesses in our city centre face.

The Presiding Officer: Order. Can we have a question, please?

angen ystyried o ddifrif yr effaith bosibl ar ddiwydiant, yn arbennig diwydiannau ynniddwys megis cynhyrchu dur. Rwyf wedi codi'r pryderon hyn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

William Powell: Brif Weinidog, efallai y tynnwyd eich sylw at waith ymchwil a ryddhawyd gan Manpower heddiw sy'n pwysleisio pwysigrwydd busnesau bach yn creu swyddi ac yn ein codi o'r dirwasgiad. Mae creu swyddi yn hanfodol, yn enwedig gan fod ffigurau diweddar yn dangos bod 77,000 o bobl yng Nghymru wedi bod yn hawlio budd-daliadau diweithdra am dros 10 mlynedd. Gyda hyn mewn golwg, beth mae eich Llywodraeth yn mynd i wneud er mwyn cynorthwyo busnesau bach gyda throï cyfleoedd yn swyddi go iawn ac ysgogi twf economaidd?

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen adnewyddu economaidd yn glir o ran y cymorth a gynigir i fusnesau. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar helpu busnesau yn ystod blwyddyn neu ddwy gyntaf eu bywydau, ar adeg pan fydd y busnesau hynny fwyaf bregus. Mae'r polisiau yn y rhaglen adnewyddu economaidd wedi eu hanelu'n glir at fusnesau bach, yn ogystal â'r busnesau hynny sy'n fwy o faint.

Julie James: Yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cytuno â mi fod Abertawe yn ddinas brifysgol falch ger y môr, ac sydd ag un o'r baeau mwyaf prydferth yn y byd yn gefndir iddi. Yn anffodus, mae twf economaidd yng nghanol ein dinas yn dioddef, gan fod y cyngor blinedig a gaiff ei arwain gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ac nad oes ganddo ddim syniadau mwyach, wedi chwythu ei blwc tra bu'n gwaethygu cyflwr y ddinas. Gallaf eich sicrhau, Brif Weinidog, fod tîm Llafur yn Abertawe yn pwyso ar y cyngor—gan gael rhywfaint o lwyddiant, rhaid imi ddweud—i fynd i'r afael â'r materion y mae busnesau yng nghanol ein dinas yn eu hwynebu.

Y Llywydd: Trefn. A gawn ni gwestiwn, os gwelwch yn dda?

Julie James: Will the First Minister and the Welsh Government work with me to capitalise on the city's recent good fortune, not only by building on current regeneration projects but also by identifying a strategy to deliver growth for Swansea and the city centre's economy in the current financial climate?

The First Minister: We are, of course, fully committed to the regeneration of Swansea's city centre, demonstrated by its designation as one of Wales's seven regeneration areas. A number of projects have been taken forward, such as the railway station redevelopment, phase 1 of the urban village on High Street, the castle—what is left of it—the bus station and transport infrastructure improvements.

Nick Ramsay: First Minister, it was interesting earlier on to hear some of your colleagues trying to blame all of our current economic woes on the UK Government. I am sure that you would agree that the previous Labour UK Government left us the legacy of an enormous debt, which, thankfully, my party and the party of Members seated opposite are trying to get to grips with. First Minister, how will your proposals for the next few years help to improve Wales's GVA? You know full well that, on your party's watch over the past 10 years, GVA went down; wealth, as measured in Wales, has gone down to 74 per cent. That is obscene.

The Presiding Officer: Order. Is this a question?

Nick Ramsay: What are you going to do to ensure that GVA figures improve?

The First Minister: What is obscene is a party that uses unemployment as a weapon against its own people. We saw that with the party opposite in the 1980s. The Conservatives' idol, Margaret Thatcher, called the hard-working miners 'the enemy within'. That is the Tories' view of the people of Wales and those people who work hard here. We have confidence in our economic policy, through the economic

Julie James: A wna'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru weithio gyda mi i fanteisio ar lwc dda y ddinas yn ddiweddar, nid yn unig drwy ychwanegu at brosiectau adfywio presennol ond hefyd drwy ganfod strategaeth i sicrhau twf ar gyfer Abertawe ac economi canol y ddinas yn yr hinsawdd ariannol bresennol?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr, wrth gwrs, i adfywio canol dinas Abertawe, a brofir gan y ffaith iddi gael ei dynodi'n un o'r saith ardal adfywio yng Nghymru. Mae nifer o brosiectau wedi cael eu datblygu, fel y gwaith o ailddatblygu'r orsaf reilffordd, cam 1 y pentref trefol ar y Stryd Fawr, y castell—yr hyn sy'n weddill ohono—yr orsaf fysiau a gwelliannau i'r seilwaith trafniadaeth.

Nick Ramsay: Brif Weinidog, yr oedd yn ddi-ddorol clywed rhai o'ch cydweithwyr yn ceisio beio Llywodraeth y DU yn gynharach am ein holl ofidiau economaidd. Yr wyf yn sicr y byddech yn cytuno mai'r hyn a adawyd i ni gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU oedd dyled enfawr, y mae fy mhlaid i a'r blaidd o Aelodau sy'n eistedd gyferbyn yn ceisio mynd i'r afael â hi, diolch byth. Brif Weinidog, sut y bydd eich cynigion ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn helpu i wella gwerth ychwanegol crynswth Cymru? Rydych yn gwybod yn iawn fod gwerth ychwanegol crynswth wedi gostwng tra bu eich plaid mewn grym dros y 10 mlynedd diwethaf; mae cyfoeth, fel y'i mesurwyd yng Nghymru, wedi gostwng 74 y cant. Mae hynny'n warth.

Y Llywydd: Trefn. Ai cwestiwn yw hwn?

Nick Ramsay: Beth y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod ffigurau gwerth ychwanegol crynswth yn gwella?

Y Prif Weinidog: Yr hyn sy'n warth yw plaid sy'n defnyddio diweithdra fel arf yn erbyn ei phobl ei hun. Gwelsom hynny o du'r blaidd gyferbyn yn y 1980au. Dywedodd Margaret Thatcher, eilun y Ceidwadwyr, mai'r glowyr diwyd oedd y 'gelyn mewnol'. Dyna farn y Toriaid am bobl Cymru a'r bobl hynny sy'n gweithio'n galed yma. Mae gennym hyder yn ein polisi economaidd, drwy'r rhaglen i adnewyddu'r economi. Fodd

renewal programme. We see no leadership from the UK Government at the moment, however. Where is the help for first-time buyers? Where is the programme to deal with inflation, which continues to rise? Where is the programme to deal with unemployment? Unfortunately, what we see from the party opposite is a selection of empty promises and inaction.

Blaenoriaethau

5. Andrew R.T. Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru dros y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0025(FM)*

The First Minister: We will get on with the programme set out in our manifesto, to the benefit of all communities, including those of South Wales Central.

Andrew R.T. Davies: Thank you, First Minister, for that answer. A couple of months ago, bmibaby said that it would withdraw services from Cardiff Airport. The withdrawal of these services is regrettable, posing a serious challenge to the airport. Time and again, the airport has turned to the Welsh Government for assistance. What can you do within the next four to six months—there is a small amount of breathing space now, as the services will not be withdrawn until the end of October—to assist the airport in establishing new routes and, above all, in securing its long-term future?

The First Minister: We will work with the airport as best we can. For the right projects, we can provide capital money, but it is ultimately for the airport to attract business. I am concerned about the future of the airport, with bmibaby leaving. There is no airline with a base at the airport; it is important that such a base is established. There needs to be a close examination of what the airport's future should look like and how that can be secured, and we will work with the owners of the airport to ensure that we see growth in years to come rather than airlines, for some reason, leaving.

bynag, ni welwn unrhyw arweiniad o du Llywodraeth y DU ar hyn o bryd. Ble mae'r cymorth i bobl sy'n prynu am y tro cyntaf? Ble mae'r rhaglen i ymdrin â chwyddiant, sy'n parhau i godi? Ble mae'r rhaglen i ymdrin â diweithdra? Yn anffodus, yr hyn a welwn o du'r blaid gyferbyn yw detholiad o addewidion gwag a diffyg gweithredu.

Priorities

5. Andrew R.T. Davies: *Will the First Minister outline his priorities for the South Wales Central region in the next twelve months. OAQ(4)0025(FM)*

Y Prif Weinidog: Byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhaglen a nodir yn ein maniffesto, a hynny er budd pob cymuned, gan gynnwys cymunedau Canol De Cymru.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Ychydig fisoedd yn ôl, dywedodd bmibaby y byddai'n dod â'i wasanaethau o Faes Awyr Caerdydd i ben. Mae'r ffaith bod y cwmni wedi dod â'r gwasanaethau hyn i ben yn anffodus, gan greu her ddifrifol i'r maes awyr. Dro ar ôl tro, mae'r maes awyr wedi troi at Lywodraeth Cymru am gymorth. Beth y gallwch chi ei wneud cyn pen pedwar neu chwe mis—mae ychydig bach o seibiant yn awr, gan na fydd y gwasanaethau'n dod i ben tan ddiwedd mis Hydref—i gynorthwyo'r maes awyr i sefydlu llwybrau newydd ac, yn anad dim, o ran sicrhau ei ddyfodol hirdymor?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn gweithio gyda'r maes awyr hyd eithaf ein gallu. Gallwn ddarparu arian cyfalaf i'r prosiectau iawn, ond, yn y pen draw, y maes awyr sy'n gyfrifol am ddenu busnes. Yr wyf yn pryderu am ddyfodol y maes awyr, o ystyried y ffaith bod bmibaby yn gadael. Nid oes unrhyw gwmni hedfan sydd â chanolfan yn y maes awyr; mae'n bwysig bod canolfan o'r fath yn cael ei sefydlu. Mae angen archwiliad manwl o'r math o ddyfodol a ddylai wynebu'r maes awyr, a sut y gellir cyflawni hynny, a byddwn yn gweithio gyda pherchnogion y maes awyr i sicrhau ein bod yn gweld twf yn y dyfodol yn hytrach na chwmmiau awyrennau yn gadael, am ryw reswm.

Leanne Wood: My Plaid Cymru colleague Hywel Williams MP has discovered that less than £0.5 million of Olympic contracts has gone to Welsh firms out of a pot worth £6 billion. During the election, you made a great deal of being a protective shield for the people of Wales. Do you have a view on the dearth of Olympic contracts to have come to Wales, and do you agree that such investment, had it been made, could have provided jobs for unemployed people in South Wales Central, some of whom were described yesterday by your leader, Ed Miliband, as ‘ripping off’ society? This was a statement—to use your words, First Minister—in which someone used unemployment to attack his own people. It plays into the hands of the Tories and their right-wing friends.

The First Minister: Hang on a second; the Minister for economic development at that time was your party leader. Let us not go down that line again, however, because you make a serious point, as it is right to say that Welsh companies did not benefit as they should have from Olympic contracts. I have discussed this issue with business representatives, and it is clear that more needs to be done to give Welsh firms the confidence to bid for these contracts. It was clearly an issue of confidence that arose after the contracts were allocated. We are aware of that situation and, when a similar situation arises again, I want to ensure that Welsh firms feel that they are able to bid and have the confidence to do so.

Troseddau Casineb Anabledd

6. Rebecca Evans: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â throseddau casineb anabledd.* OAQ(4)0034(FM)

The First Minister: Although hate crime is a non-devolved issue, the community cohesion strategy has recognised the need to tackle hate crime in all its forms. We will work to reduce disability-related hate crime and this has been prioritised as part of the manifesto upon which the Government was elected.

Leanne Wood: Mae fy nghydweithiwr ym Mhlaid Cymru Hywel Williams AS wedi canfod bod llai na £0.5 miliwn ar ffurf cytundebau Olympaidd wedi cael ei neilltuo i gwmnïau o Gymru, a hynny o gronfa o £6 biliwn. Yn ystod yr etholiad, rhoesoch bwyslais mawr ar fod yn amddiffynnwr pobl Cymru. A oes gennych farn am y cytundebau Olympaidd prin a neilltuwyd i Gymru, ac a ydych yn cytuno, pe bai buddsoddiad o'r fath wedi'i wneud, y gallai fod wedi creu swyddi i bobl ddi-waith yng Nghanol De Cymru, y dywedodd eich arweinydd, Ed Miliband, ddoe eu bod yn twyllo cymdeithas? Datganiad oedd hwn—ac fe ddefnyddiaf eich geiriau chi, Brif Weinidog—pan ddefnyddiodd rhywun ddiweithdra i ymosod ar ei bobl ei hun. Mae'n rhoi mêl ar fysedd y Torïaid a'u ffrindiau asgell dde.

Y Prif Weinidog: Arhoswch funud; arweinydd eich plaid chi oedd y Gweinidog dros ddatblygu economaidd ar y pryd. Gadewch inni beidio â dilyn y trywydd hwnnw eto, fodd bynnag, oherwydd rydych yn gwneud pwynt difrifol. Mae'n iawn dweud na chafodd cwmnïau o Gymru y budd y dylent fod wedi'i gael o'r cytundebau Olympaidd. Rwyf wedi trafod y mater hwn â chynrychiolwyr busnes, ac mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gan gwmnïau yng Nghymru yr hyder i gyflwyno cynnig am y cytundebau hyn. Yr oedd yn amlwg yn fater o hyder a gododd ar ôl i'r cytundebau gael eu dyrannu. Yr ydym yn gwybod am y sefyllfa, a phan fydd sefyllfa debyg yn codi eto byddaf am sicrhau bod cwmnïau Cymru yn teimlo y gallant gyflwyno cynnig, a bod ganddynt yr hyder i wneud hynny.

Disability Hate Crime

6. Rebecca Evans: *What is the Welsh Government doing to help tackle disability hate crime.* OAQ(4)0034(FM)

Y Prif Weinidog: Er bod troseddau casineb yn fater heb ei ddatganoli, mae'r strategaeth cydlyniant cymunedol wedi cydnabod bod angen mynd i'r afael â phob math o droseddau casineb. Byddwn yn gweithio i leihau nifer y troseddau casineb anabledd, ac mae hyn wedi'i flaenoriaethu fel rhan o'r

manifesto a gyflwynodd y Llywodraeth yn yr etholiad.

Rebecca Evans: A recent Mencap report called 'Living in Fear' noted that over 90 per cent of people with a learning disability had suffered some form of physical or verbal abuse from people they did not know; this is shocking and unacceptable. What can the Welsh Government do to ensure that people with a learning disability are valued by the communities in which they live, and thereby reduce the incidences of abuse that many people with a learning disability and their families face every day?

Rebecca Evans: Nododd adroddiad diweddar gan Mencap o'r enw 'Living in Fear' fod dros 90 y cant o bobl sydd ag anabledd dysgu wedi dioddef rhyw fath o gam-drin corfforol neu lafar gan bobl nad oeddent yn eu hadnabod; mae hyn yn frawychus ac yn annerbyniol. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael eu gwerthfawrogi gan y cymunedau lle maent yn byw, a thrwy hynny leihau nifer yr achosion o gam-drin y mae llawer o bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd yn eu hwynebu bob dydd?

The First Minister: I welcome and support the Mencap campaign to tackle hate crime against people with mental health issues. I know that Jane Hutt, in her capacity as Leader of the House, will be speaking at the breakfast reception on 22 June to highlight our commitment to working with all partners to reduce hate crime in Wales.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn croesawu ac yn cefnogi ymgyrch Mencap i fynd i'r afael â throeddau casineb yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gwn y bydd Jane Hutt, yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Tŷ, yn siarad yn y derbyniad brecwast ar 22 Mehefin i dynnu sylw at ein hymrwymiad i weithio gyda'r holl bartneriaid i leihau nifer y troseddau casineb yng Nghymru.

Strategaeth

7. Mark Drakeford: A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddarau ei strategaeth chwarae yn ystod y tymor Cynulliad hwn. *OAQ(4)0033(FM)*

The First Minister: Every child has the right to play; it is an essential part of growing up and enriches the lives of children. Wales has led the way in promoting play and supporting play opportunities for children and young people. The Deputy Minister for Children and Social Services will set out our priorities for play in due course.

Mark Drakeford: Successive Welsh Governments have emphasised the importance of play in promoting a child's development, culminating in the foundation phase. Are you able to provide an assurance that, in any work on the strategy, Wales will not follow the lead of that flagship Conservative local authority in Wandsworth in charging children for the use of play

Strategy

7. Mark Drakeford: Does the Welsh Government plan to update its play strategy during this Assembly term. *OAQ(4)0033(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae; mae'n rhan hanfodol o dyfu i fyny, ac mae'n cyfoethogi bywydau plant. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran hyrwyddo chwarae a chefnogi cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Bydd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi ein blaenoriaethau yng nghyswllt chwarae maes o law.

Mark Drakeford: Mae Llywodraethau olynol Cymru wedi pwysleisio pa mor bwysig yw chwarae o ran hyrwyddo datblygiad plentyn, gan arwain at y cyfnod sylfaen. A allwch roi sicrwydd na fydd Cymru, o ganlyniad i unrhyw ddarn o waith ar y strategaeth, yn efelychu'r awdurdod lleol Ceidwadol blaenllaw hwnnw yn Wandsworth ac yn codi tâl ar blant am ddefnyddio

facilities? Can you also assure us that children in Wales will continue, in the words of the strategy, to be 'free to play', not free to pay, where access to these essential public services is concerned?

The First Minister: I assure you that we have no intention of introducing charges for the use of playgrounds in Wales. We would be dismayed if any Welsh local authority followed the lead of Wandsworth. Charging children for playgrounds: how low can you get?

Mark Isherwood: In taking forward your revised strategy, how will you be defining play? Previous Government policy was that play should be freely chosen, personally directed and performed for no external goal or reward, but the Children and Families (Wales) Measure 2010 redefined that to include any recreational activity. This has caused concern, particularly among voluntary sector play providers across Wales, and I would be grateful if you could provide clarity to ensure that a priority for free play is emphasised.

The First Minister: In terms of section 11 of the Measure, preparatory work has been undertaken in developing the standards assessment requirements and guidance that will form part of the regulations that will be produced regarding this duty.

Simon Thomas: Mae'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r methiant a welir o beidio â chael rhaglen lywodraethol, oherwydd nid oes sôn yn eich maniffesto am strategaeth chwarae. Mae nifer o bwyntiau da a theg ynghylch chwarae i blant ym maniffesto'r Blaid Lafur, ond nid oes sôn am strategaeth. Dyna pam mae angen rhaglen glir. Yn y rhaglen honno, ac o dan eich maniffesto, pryd y byddwch yn canfod yr adnoddau i ddyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg a phryd y byddwch yn cyflawni'r dasg honno?

Y Prif Weinidog: Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Fel yr wyf wedi sôn

cyfleusterau chwarae? A allwch hefyd ein sicrhau y bydd plant yng Nghymru yn parhau i allu chwarae am ddim, yn hytrach nac am ddimai, pan ddaw'n fater o gael mynediad at y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol hyn?

Y Prif Weinidog: Gallaf eich sicrhau nad oes gennym unrhyw fwriad o gyflwyno taliadau am ddefnyddio meysydd chwarae yng Nghymru. Byddem yn siomedig iawn pe bai unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn efelychu Wandsworth. Codi tâl ar blant i ddefnyddio meysydd chwarae: pa mor ddi-egwyddor y gallwch chi fod?

Mark Isherwood: Wrth ichi fwrw ymlaen â'ch strategaeth ddiwygiedig, sut y byddwch yn diffinio chwarae? Polisi blaenorol y Llywodraeth oedd y dylid bod yn rhydd i ddewis sut i chwarae, y dylai'r unigolyn ei lywio ac y dylid chwarae heb anelu at unrhyw nod neu wobr allanol, ond ailddiffiniodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 hynny er mwyn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden. Mae hyn wedi achosi pryder, yn enwedig ymhlith darparwyr ym maes chwarae yn y sector gwirfoddol ledled Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eglurder yn hyn o beth, er mwyn sicrhau y pwysleisir bod angen blaenoriaethu chwarae'n rhydd.

Y Prif Weinidog: O ran adran 11 o'r Mesur, mae gwaith paratoadol wedi'i wneud i ddatblygu'r gofynion asesu safonau a'r canllawiau a fydd yn rhan o'r rheoliadau a fydd yn cael eu llunio yng nghyswllt y ddyletswydd hon.

Simon Thomas: This question arises because of the lack of a programme for government, as there is no mention of a play strategy in your manifesto. The Labour Party's manifesto includes a number of good and fair points about children's play, but there is no mention of a strategy. That is why we need a clear programme. As part of such a programme, and in line with your manifesto, when will you find the resources to double the number of children able to benefit from Flying Start, and when will you complete that task?

The First Minister: This issue is currently under consideration. As I have previously

o'r blaen, bydd manylion y rhaglen ddeddfwriaethol a llywodraethol yn cael eu cyhoeddi fis nesaf. Mae datganiad yn cael ei wneud heddiw, ond mae'n rhaid cofio ein bod ym mhell o flaen yr Alban, er enghraifft, o ran cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol.

Difidend Datganioli Economaidd

8. William Graham: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau ei weinyddiaeth i wella'r difidend datganioli economaidd. OAQ(4)0027(FM)*

The First Minister: Our plans for growth and sustainable jobs are set out in our manifesto. These include plans to raise the skill levels of our workforce, reduce youth unemployment and other actions to lessen the impact of the measures being imposed on Wales by the UK Government.

William Graham: Thank you for your answer, First Minister. You will know of continued criticism of successive Assembly Governments' performance on economic development, with academics and businesspeople highlighting a focus on bureaucracy rather than delivery. Given the alarming figures, such as the fact that less than 18 per cent of the previous Assembly Government's European innovation programme targeted support directly at the private sector, how is your Government looking to better tailor programmes to ensure that many promising small and medium-sized enterprises in Wales are able to grow and find new markets?

The First Minister: I think that it is correct to say that we have not done enough to prioritise delivery over the course of the last decade, which is why I am setting up a delivery unit to make sure that we do exactly as we say, and that the public will be able to measure those outcomes. You are quite right to say that it is essential that support for business must be made as freely available as possible, while remembering the need for diligence in examining the applications that come before us.

mentioned, the details of the legislative and government programme will be published next month. A statement will be made today, but we must remember that we are way ahead of Scotland, for example, in terms of publishing our legislative programme.

Economic Devolution Dividend

8. William Graham: *Will the First Minister outline his administration's policies for enhancing the economic devolution dividend. OAQ(4)0027(FM)*

Y Prif Weinidog: Nodir ein cynlluniau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy yn ein maniffesto. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau i wella lefelau sgiliau ein gweithlu, lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc, a chymau eraill i leihau effaith y mesurau sy'n cael eu gosod ar Gymru gan Lywodraeth y DU.

William Graham: Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod am feirniadaeth barhaus ynghylch perfformiad Llywodraethau olynol y Cynulliad o ran datblygu economaidd, wrth i academyddion a phobl fusnes bwysleisio y canolbwyntir ar fiwrocratiaeth yn hytrach nac ar gyflawni. O ystyried y ffigurau brawychus, fel y ffaith bod llai na 18 y cant o raglen arloesi Ewropeaidd Llywodraeth flaenorol y Cynulliad wedi anelu cymorth yn uniongyrchol at y sector preifat, sut y mae eich Llywodraeth yn bwriadu teilwra rhaglenni yn well i sicrhau y gall nifer o fentrau bach a chanolig addawol yng Nghymru dyfu a dod o hyd i farchnadoedd newydd?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn meddwl ei bod yn gywir dweud nad ydym wedi gwneud digon i flaenoriaethu cyflawni yn ystod y degawd diwethaf, a dyna pam rwyf yn sefydlu uned gyflawni i sicrhau ein bod yn gwneud yn union yr hyn yr ydym yn ei ddweud, a bod y cyhoedd yn gallu mesur y canlyniadau hynny. Rydych yn gwbl iawn wrth ddweud ei bod yn hanfodol ei gwneud mor hawdd â phosibl i fusnesau gael gafael ar gymorth, gan gofio hefyd yr angen am ddiwydrwydd wrth ystyried y ceisiadau a gyflwynir inni.

Ann Jones: As you know, First Minister, Sunday 11 September is an important date in the diaries of all Welsh rugby fans—and there are plenty of rugby fans in north Wales. On that day, Wales will play South Africa in the Rugby World Cup. What are you doing to promote Wales's economic interests around the forthcoming Rugby World Cup? Do you agree that such competitions are not just about sporting success on the field—although we wish the team well—but that there are also more important economic benefits for Wales as a result of playing on the global stage?

The First Minister: As well as being a major event in the international sporting calendar, the World Cup provides a major opportunity for us to promote Welsh business and Wales as a tourist destination, in the same way as the Ryder Cup did. I have been invited by the UK High Commission to New Zealand to work with it in developing a programme to promote our interests around the Rugby World Cup. I plan to take up that opportunity, and my officials are working with the High Commission and others to develop a detailed programme.

Diogelwch Tân

9. Ann Jones: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch tân yng Nghymru. OAQ(4)0026(FM)*

The First Minister: As you know, we published our manifesto for the election. We are committed to taking forward the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011.

Ann Jones: You mentioned our extensive manifesto commitments, but the regulations flow from the last Assembly. As your watchword is delivery, when can I expect delivery of these regulations?

The First Minister: You have been personally committed to the Domestic Fire Safety (Wales) Measure 2011, which you promoted tirelessly in the Chamber. We are

Ann Jones: Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, bydd dydd Sul 11 Medi yn ddyddiad pwysig yn nyddiaduron pob cefnogwr rygbi yng Nghymru—ac mae digon o gefnogwyr rygbi yng ngogledd Cymru. Ar y diwrnod hwnnw, bydd Cymru yn chwarae yn erbyn De Affrica yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Beth yr ydych yn ei wneud i hyrwyddo buddiannau economaidd Cymru yng nghyswllt Cwpan Rygbi'r Byd, sydd ar y gweill? A ydych yn cytuno nad yw cystadlaethau o'r fath yn ymwneud â llwyddiant ar y cae yn unig—er ein bod yn dymuno'n dda i'r tîm—ond bod hefyd fanteision economaidd pwysicach i Gymru o ganlyniad i chwarae ar y llwyfan byd-eang?

Y Prif Weinidog: Yn ogystal â bod yn ddigwyddiad pwysig yn y calendr chwaraeon rhyngwladol, mae Cwpan y Byd yn gyfle pwysig i hyrwyddo busnesau Cymru a Chymru fel cyrchfan i dwristiaid, yn yr un modd ag y gwnaeth Cwpan Ryder. Rwyf wedi cael gwahoddiad gan Uchel Gomisiwn y DU i Seland Newydd i weithio gydag ef i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo ein buddiannau yng nghyswllt Cwpan Rygbi'r Byd. Yr wyf yn bwriadu manteisio ar y cyfle hwnnw, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Uchel Gomisiwn ac eraill i ddatblygu rhaglen fanwl.

Fire Safety

9. Ann Jones: *What is the Welsh Government doing to promote fire safety in Wales. OAQ(4)0026(FM)*

Y Prif Weinidog: Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd ein maniffesto ar gyfer yr etholiad. Yr ydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

Ann Jones: Soniasoch am ein hymrwymiaidau maniffesto helaeth, ond mae'r rheoliadau'n deillio o'r Cynulliad diwethaf. O gofio mai cyflawni yw eich arwyddair, pryd y gallaf ddisgwyl i'r rheoliadau hyn gael eu cyflawni?

Y Prif Weinidog: Rydych wedi ymrwymo'n bersonol i Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, y gwnaethoch ei hyrwyddo'n ddiflino yn y Siambr. Yr ydym wedi

committed to considering the regulations following the success of the Measure. I can report that we have begun the work of looking at the technical issues related to drafting the regulations. We will report back in due course on the exact dates for bringing those regulations into force.

Rhodri Glyn Thomas: Ym mis Awst 2008—yn y dyddiau hynny pan oedd Llywodraeth yn credu bod angen iddi gyflawni rhywbeth—cyflwynwyd fframwaith achub a tân tair blynedd i Gymru. Nid oes angen ichi fod yn arbenigwr mathemategol i wybod bod angen adolygu'r fframwaith honno o fewn ychydig fisoedd. Beth yr ydych yn bwriadu'i wneud o ran adolygu'r fframwaith, a pha bwerau sydd angen eu rhoi i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i'w galluogi i'w gweithredu?

Y Prif Weinidog: Pan ddaw'r amser i adolygu'r fframwaith, bydd y Gweinidog yn ei ystyried.

Joyce Watson: First Minister, you will be aware of the recent wild fires in Mid and West Wales, which include a blaze in Pentremorgan and a forest fire in Blaenuad forestry in Carmarthenshire, numerous fires in the Brecon Beacons, which were the worst for decades, and, most recently, the gorse fire in Solva. There is a big difference between an accidental fire ignited by an unextinguished cigarette or a small fire that gets out of control and deliberate arson, but the results are the same: they put lives and property at risk, devastate wildlife and put unnecessary pressure on fire crews. What is the Welsh Assembly Government doing to remind people that fire setting, as well as being dangerous, is a serious crime?

2.15 p.m.

The First Minister: In the last year, we have provided an additional £18 million to take forward specific activities, such as funding anti-arson activity. However, it is worth reiterating that deliberately starting a fire is a crime that could lead to a prison sentence, and I urge anyone who has any information

ymrwymo i ystyried y rheoliadau yn dilyn llwyddiant y Mesur. Gallaf roi gwybod ichi ein bod wedi dechrau ar y gwaith o edrych ar y materion technegol sy'n ymwneud â drafftio'r rheoliadau. Byddwn yn adrodd yn ôl maes o law ynghylch yr union ddyddiadau ar gyfer rhoi'r rheoliadau hynny mewn grym.

Rhodri Glyn Thomas: In August 2008—back in those days when Government believed that it needed to achieve something—a three-year fire and rescue framework was put in place in Wales. You do not have to be a mathematical expert to know that you will need to review that framework within the next few months. What do you intend to do in terms of reviewing that framework, and what powers need to be given to fire and rescue authorities in Wales to enable them to implement it?

The First Minister: When it is time to review that framework, the Minister will consider it.

Joyce Watson: Brif Weinidog, byddwch yn gwybod am y tanau gwyllt a gafwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiweddar, gan gynnwys tân ym Mhentremorgan a tân yng nghoedwigaeth Blaenuad yn sir Gaerfyrddin, nifer o danau ym Mannau Brycheiniog, sef y tanau gwaethaf ers degawdau, ac, yn fwyaf diweddar, y tân eithin yn Solfach. Mae gwahaniaeth mawr rhwng tân damweiniol a gafodd ei gynnau gan sigarét na chafodd ei diffodd neu dân bach sy'n mynd y tu hwnt i reolaeth a llosgi bwriadol, ond mae'r canlyniadau yr un fath: maent yn peryglu bywydau ac eiddo, yn dinistrio bywyd gwyllt ac yn rhoi pwysau diangen ar griwiau tân. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i atgoffa pobl fod cynnau tanau, yn ogystal â bod yn beryglus, yn drosedd ddifrifol?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi darparu £18 miliwn yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i fwrw ymlaen â gweithgareddau penodol, fel ariannu gweithgareddau i atal achosion o gynnau tanau yn fwriadol. Fodd bynnag, mae'n werth ailadrodd bod cynnau tân yn fwriadol yn

about the deliberate starting of any fires in Wales to contact the police or the Crimestoppers phone line.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy nghydymdeimlad— a'n cydymdeimlad i gyd—â theulu Robert ac Andrew Taylor o sir y Fflint a'r wyres fach sy'n parhau i fod yn ddifrifol wael, deallaf, yn dilyn tân difrifol ar faes carafannau dros y Sul? Mae'n faes sy'n gyfarwydd imi—mae'n drefnus ac mae mewn lleoliad hardd ym mae Ceredigion. A wnaiff y Prif Weinidog sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn ymdrechu unwaith eto i atgoffa ymwelwyr o'r angen i gymryd mesurau diogelwch ym mhob math o letyau gwyliau?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ymuno yn y cydymdeimlad y bu ichi ei roi. Gwelais y newyddion ynglŷn â'r tân, a byddwn yn ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud er mwyn atgoffa pobl ei bod yn bwysig dros ben i fod yn ddiogel, nid yn unig yn y tŷ ond mewn carafannau a lletyau gwyliau.

Cyfranogiad mewn Chwaraeon

10. Mohammad Asghar: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. OAQ(4)0038(FM)*

The First Minister: We believe in maintaining opportunities for participation in sport, especially for young people, as highlighted in our manifesto. Working with Sport Wales and other key partners, we will continue to take forward the actions contained in the action plan 'Creating an Active Wales'.

Mohammad Asghar: Thank you, First Minister, for that answer. The publicity surrounding tickets for the 2012 Olympics serves as a great reminder that Wales will be hosting the opening event of next year's games. Meanwhile, some 4,700 Olympic medals will be produced in Llantrisant and a number of Olympic teams will base their training camps in Wales ahead of the games. That, First Minister, will put the Olympic

drosedd a allai arwain at ddedfryd o garchar, ac rwy'n annog unrhyw un sydd ag unrhyw wybodaeth am achosion o gynnu tanau yn fwriadol yng Nghymru i gysylltu â'r heddlu neu linell ffôn Crimestoppers.

Lord Elis-Thomas: Does the First Minister share in my condolences—and those of us all—to the family of Robert and Andrew Taylor from Flintshire and the granddaughter who is still seriously ill, I understand, following a serious fire on a caravan site over the weekend? I am familiar with the site—it is well organised and in a beautiful location in Cardigan bay. Will the First Minister ensure that Welsh Ministers make efforts once again to remind visitors of the importance of taking safety measures in all kinds of holiday accommodation?

The First Minister: I join you in the condolences that you gave. I saw the news about the fire and we will consider what more we can do to remind people that it is very important to be safe, not only at home but in caravans and holiday accommodation.

Sports Participation

10. Mohammad Asghar: *What steps is the Welsh Government taking to promote sports participation in Wales. OAQ(4)0038(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn credu mewn cynnal cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, fel y nodwyd yn ein maniffesto. Drwy weithio gyda Chwaraeon Cymru a phartneriaid allweddol eraill, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a gynhwysir yng nghynllun gweithredu 'Creu Cymru Egniol'.

Mohammad Asghar: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae'r cyhoeddusrwydd ynghylch y tocynnau ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 yn fodd gwych o'n hatgoffa y bydd Cymru yn cynnal digwyddiad agoriadol y gemau y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, bydd tua 4,700 o fedalau Olympaidd yn cael eu creu yn Llantrisant, a bydd gan nifer o dimau Olympaidd eu gwersylloedd hyfforddi yng

Games on the doorsteps of many people in Wales and provides opportunities that the Welsh Government cannot let pass by. What steps will the Welsh Government be taking to utilise these opportunities for promoting sports participation to the people of Wales, given the number of events at the Olympics and given that it is widely accepted that major events of this nature have the potential to increase public participation in sport in Wales? How will you work with Sport Wales and other stakeholders to realise this potential?

The First Minister: When the Olympics are held there is an increased interest in sport, particularly in sports that do not get much television coverage otherwise—an increase in interest and participation are always reported. Wales will be an important base for some of the Olympic teams. We also hope that the Millennium Stadium will be used for sporting events. Working with Sport Wales, we want to ensure that the extra interest generated through the coverage of the Olympics is translated into participation on the ground in Wales.

Llyr Huws Gruffydd: Yn 2006, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn frwd i ‘The Racecourse Ground: 2012 Vision’ a oedd am weld y Cae Râs yn Wrecsam yn cael ei ddatblygu yn rhyw fath o Stadiwm y Mileniwm ar gyfer y gogledd. Os bydd y cais gan y gymuned leol i brynu clwb pêl-droed Wrecsam drwy Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam yn llwyddiannus—fel yr wyf yn siŵr y mae pob un ohonom yn gobeithio y bydd—a wnaiff y Prif Weinidog addo y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth ariannol i’r stadiwm er mwyn iddo ddod yn gae chwarae rhyngwladol unwaith eto ar gyfer pêl-droed a rygbi yn y gogledd?

Y Prif Weinidog: Mae’n anodd rhoi addewid ynglŷn ag ariannu heb weld cais o’n blaenau. Fodd bynnag, deallaf ei bod yn bwysig dros ben i bobl Wrecsam a’r ardal ehangach bod dyfodol cadarn i’r Cae Râs. Fel Llywodraeth, byddem eisiau helpu’r Cae Râs mewn

Nghymru cyn y gemau. Bydd hynny, Brif Weinidog, yn dod â’r Gemau Olympaidd at garreg drws nifer o bobl yng Nghymru ac mae’n rhoi cyfleoedd na all Llywodraeth Cymru eu hanwybyddu. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddefnyddio’r cyfleoedd hyn i hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon i bobl Cymru, o ystyried nifer y digwyddiadau yn y Gemau Olympaidd a’i bod yn cael ei derbyn yn gyffredinol fod gan ddigwyddiadau mawr fel hyn y potensial i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn chwaraeon yng Nghymru? Sut y byddwch yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid eraill i wireddu’r potensial hwn?

Y Prif Weinidog: Pan gynhelir y Gemau Olympaidd ceir mwy o ddiddordeb mewn chwaraeon, yn enwedig mewn chwaraeon nad ydynt yn cael llawer o sylw ar y teledu fel arall—nodir bob tro fod mwy o ddiddordeb a chyfranogiad. Bydd Cymru yn ganolfan bwysig i rai o’r timau Olympaidd. Yr ydym hefyd yn gobeithio y bydd Stadiwm y Mileniwm yn cael ei defnyddio ar gyfer digwyddiadau chwaraeon. Drwy weithio gyda Chwaraeon Cymru, yr ydym am sicrhau bod y diddordeb ychwanegol a fydd yn cael ei greu oherwydd y sylw a roddir i’r Gemau Olympaidd yn troi’n gyfranogiad ar lawr gwlad yng Nghymru.

Llyr Huws Gruffydd: In 2006, the Welsh Government responded enthusiastically to ‘The Racecourse Ground: 2012 Vision’ which wanted to see the Racecourse in Wrexham developed into some kind of Millennium Stadium for north Wales. If the bid by the local community to buy Wrexham football club through the Wrexham Supporters’ Trust is successful—as I am sure we all hope it is—will the First Minister pledge that the Welsh Government will provide financial support to the stadium so that it can once again become an international playing field for football and rugby in north Wales?

The First Minister: It is difficult to give a pledge on funding without having received a request. However, I understand that it is very important to the people of Wrexham and the surrounding area that there is a secure future for the Racecourse. As a Government, we

unrhyw ffordd bosibl.

William Powell: First Minister, as we all know, major sporting events attract a lot of media attention as well as generating economic development and tourism; the Tour de France is one such event. In Mid and West Wales alone there are many excellent cycling spots that would be perfect for hosting a leg of the tour. In addition, it would establish Wales as a destination for other, larger-scale sporting events. With this in mind, will you provide a statement on the possibility of Wales hosting a leg of the Tour de France and will you give your personal commitment to supporting such a bid?

The First Minister: We could very well look at that in Wales and I will take this forward with my officials to see what the possibilities are with a view to hosting a leg of the tour.

Blaenoriaethau

11. Elin Jones: *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefn gwlad. OAQ(4)0029(FM)*

Y Prif Weinidog: Amlinellir blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wledig yn y rhaglen 'Sefyll Cornel Cymru'.

Elin Jones: Yn y manifesto hwnnw, nid oes cyfeiriad at reilffyrdd penodol yng nghefn gwlad. Yn absenoldeb hynny, mae gennyf gwestiwn: a ydych yn bwriadu cadw at ymrwymiad y Gweinidog trafndiaeth blaenorol i ariannu gwasanaeth bob awr ar y rheilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig yn ystod y flwyddyn ariannol hon?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn ystyried hynny ac ar ben hynny bydd y gwasanaethau trên ychwanegol o Abergwaun yn cychwyn yng nghanol mis Medi. Yr ydym yn ymgynghori ar yr amserlen ar hyn o bryd. Yr ydym am weld y trac rhwng Tre-gŵyr a Llŵchwr yn cael ei ddyblu yn 2013.

Nick Ramsay: I asked you earlier about

would want to assist the Racecourse in any way possible.

William Powell: Brif Weinidog, fel y gwyddom oll, mae digwyddiadau chwaraeon mawr yn denu llawer o sylw gan y cyfryngau, yn ogystal ag ysgogi datblygiad economaidd a thwristiaeth; mae'r Tour de France yn un digwyddiad o'r fath. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn unig, mae nifer o fannau beicio ardderchog a fyddai'n berffaith o ran cynnal rhan o'r daith. Yn ogystal, byddai hynny'n cadarnhau bod Cymru yn gyrchfan i ddigwyddiadau chwaraeon eraill, ar raddfa fwy. Gan gadw hyn mewn cof, a wnewch ddarparu datganiad ynghylch y posibilrwydd o gynnal rhan o'r Tour de France yng Nghymru, ac a wnewch ymrwymo'n bersonol i gefnogi cais o'r fath?

Y Prif Weinidog: Mae'n bosibl iawn y gallem edrych ar wneud hynny yng Nghymru, a byddaf yn datblygu hyn gyda fy swyddogion i weld beth yw'r posibiladau gyda golwg ar gynnal rhan o'r daith.

Priorities

11. Elin Jones: *What are the Welsh Government's priorities for the Countryside. OAQ(4)0029(FM)*

The First Minister: The Welsh Government's priorities for rural Wales are set out in 'Standing up for Wales'.

Elin Jones: In that manifesto, there is no reference to specific railways in rural Wales. In the absence of that, I have a question: do you intend to keep to the commitment made by the former Minister for transport to fund an hourly service on the line between Aberystwyth and Shrewsbury during this financial year?

The First Minister: We are considering that and in addition the additional train services from Fishguard mid September will start in mid September. We are consulting on the timetable at the moment. We want to see the track between Gowerton and Loughor doubled in 2013.

Nick Ramsay: Gofynnais ichi yn gynharach

overall GVA in Wales and the fall in GVA. I am sure that, as a former Minister for rural affairs and the environment, you will be aware that the Welsh agriculture industry contributed £634 million to GVA in 1997, but has shrunk much faster than other aspects of GVA in the overall economic figures. What is your Government doing to address that? Also, how are your policies going to help events such as the Abergavenny food festival and assist with other ways in which Wales can promote its food produce? I am sure that you will agree that we have a lot to offer in terms of our food and drink and through the Abergavenny food festival and other such festivals in Wales. We have a lot to offer but we do not always market ourselves as successfully as we should in those areas. How will your policies help Wales to put its produce on the map in a way that will assist our countryside areas, which are economically reliant on those sorts of produce?

The First Minister: We have a very good tale to tell when it comes to marketing food, both in this administration and the previous one. If you look at the food industry across Wales, it has grown over the past decade. It is an important part of industry—if I can call it that—in Wales. We have seen, for example, the expansion of the food hall in the Royal Welsh Show. As a Government, we have assisted food festivals up and down Wales over the past few years. In addition, there are the four food centres across Wales. We have shown our dedication to ensuring that the food sector is seen as an important sector in Wales. We have done that and have encouraged the export market through the opening up of new markets across the world. I believe that Wales is in a very good position to benefit from its fine food in years to come.

Strategaeth Gweithgynhyrchu Cymru

12. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am ymateb Llywodraeth Cymru i Strategaeth Gweithgynhyrchu Cymru. OAQ(4)0032(FM)*

am y gwerth ychwanegol crynswth cyffredinol yng Nghymru a'r ffaith iddo ostwng. A chithau'n gyn-Weinidog dros faterion gwledig a'r amgylchedd, yr wyf yn siŵr y byddwch yn gwybod bod diwydiant amaeth Cymru wedi cyfrannu £634 miliwn at GVA yn 1997, ond mae wedi crebachu'n llawer cyflymach nag agweddau eraill ar GVA yn y ffigurau economaidd cyffredinol. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i fynd i'r afael â hynny? Hefyd, sut y bydd eich polisiau yn helpu digwyddiadau fel gŵyl fwyd y Fenni ac yn cynorthwyo gyda ffyrdd eraill y gall Gymru hyrwyddo ei chynnyrch bwyd? Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod gennym lawer i'w gynnig o ran ein bwyd a diod, a thrwy ŵyl fwyd y Fenni a gwyliau eraill o'r fath yng Nghymru. Mae gennym lawer i'w gynnig, ond nid ydym bob amser yn marchnata ein hunain mor llwyddiannus ag y dylem yn y meysydd hynny. Sut y bydd eich polisiau yn helpu Cymru i dynnu sylw at ei chynnyrch mewn modd a fydd yn cynorthwyo ein hardaloedd cefn gwlad, y mae eu heconomiâu'n dibynnu ar y mathau hynny o gynnyrch?

Y Prif Weinidog: Mae gennym stori dda iawn i'w hadrodd o ran marchnata bwyd, yn y weinyddiaeth hon a'r un flaenorol. Os edrychwch ar y diwydiant bwyd ledled Cymru, fe welwch ei bod wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Mae'n rhan bwysig o ddiwydiant—os gallaf ei alw'n hynny—yng Nghymru. Er enghraifft, yr ydym wedi gweld bod y neuadd fwyd yn Sioe Frenhinol Cymru wedi cael ei hehangu. Fel Llywodraeth, yr ydym wedi cynorthwyo gwyliau bwyd ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, ceir y pedair canolfan fwyd ledled Cymru. Yr ydym wedi dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod y sector bwyd yn cael ei ystyried yn sector pwysig yng Nghymru. Yr ydym wedi gwneud hynny ac wedi annog y farchnad allforio drwy agor marchnadoedd newydd ledled y byd. Credaf fod Cymru mewn sefyllfa dda iawn i elwa ar ei bwyd da yn y blynyddoedd i ddod.

Welsh Manufacturing Strategy

12. Bethan Jenkins: *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's response to the Welsh Manufacturing Strategy. OAQ(4)0032(FM)*

The First Minister: As far as we are concerned, the Welsh manufacturing strategy was written by the Welsh manufacturing forum. The chair of the manufacturing forum, Roger Evans, is being co-opted onto the advanced materials and manufacturing sector panel team and is working closely with the Welsh Government to deliver what the manufacturing industry needs.

Bethan Jenkins: With Swansea University's growing reputation for engineering excellence—including tie-ins with Tata and, we hope, Rolls Royce, when it arrives in Baglan—it is vital that we produce students who can benefit from these types of courses. Therefore, would it surprise you to learn that although Wales derives a greater percentage of its GDP from manufacturing than any other constituent part of the UK, there are no A-level courses in engineering available in the capital city?

The First Minister: Design and technology is a subject that is often taken by potential engineers in schools, as well as physics and mathematics, and it is a subject that is widely available across Wales. There are schemes in place, such as the engineering education scheme in Wales, which I am familiar with, which help to engender an interest in engineering among those aged between 16 and 18. Such schemes have been very successful in years gone by in encouraging students to study engineering. In years gone by, we know that there has been a difficulty in attracting students to study the subject.

Antoinette Sandbach: The manufacturing industry is key to the economy in north Wales and there is considerable disappointment that your manufacturing strategy has been delayed for over four years, despite the hard work and contributions of the manufacturing forum. When will your Government put an end to its inertia and confirm its commitment to the manufacturing industry by publishing its plans for the sector? With regard to Anglesey in particular, which is still the poorest part of the UK, what progress is your Government making in

Y Prif Weinidog: O'n safbwynt ni, cafodd strategaeth weithgynhyrchu Cymru ei hysgrifennu gan fforwm gweithgynhyrchu Cymru. Mae Roger Evans, cadeirydd y fforwm gweithgynhyrchu, yn cael ei gyfethol i dîm panel y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, ac mae'n gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddarparu'r hyn y mae ei angen ar y diwydiant gweithgynhyrchu.

Bethan Jenkins: O ystyried enw cynyddol dda Prifysgol Abertawe am ragoriaeth ym maes peirianeg—gan gynnwys cysylltiadau â Tata; ac â Rolls Royce, gobeithio, pan fydd yn cyrraedd ym Maglan—mae'n hanfodol ein bod yn cynhyrchu myfyrwyr sy'n gallu elwa ar y mathau hyn o gyrsiau. Felly, a fyddai'n syndod ichi glywed, er bod canran uwch o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru yn deillio o weithgynhyrchu nag yn achos unrhyw ran arall o'r DU, nad oes unrhyw gyrsiau Safon Uwch mewn peirianeg ar gael yn y brifddinas?

Y Prif Weinidog: Mae dylunio a thechnoleg yn bwnc sy'n cael ei ddewis yn aml gan ddarpar beirianwyr mewn ysgolion, yn ogystal â ffiseg a mathemateg, ac mae'n bwnc sydd ar gael yn eang ledled Cymru. Mae cynlluniau ar waith, fel y cynllun addysg beirianeg yng Nghymru, yr wyf yn gyfarwydd ag ef, sy'n helpu i ennyn diddordeb mewn peirianeg ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Bu cynlluniau o'r fath yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol o ran annog myfyrwyr i astudio peirianeg. Gwyddom y cafwyd anhawster yn y gorffennol o ran denu myfyrwyr i astudio'r pwnc.

Antoinette Sandbach: Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn hollbwysig i'r economi yng ngogledd Cymru ac mae cryn siom bod eich strategaeth gweithgynhyrchu wedi ei gohirio ers dros bedair blynedd, er gwaethaf gwaith caled a chyfraniadau'r fforwm gweithgynhyrchu. Pryd y bydd eich Llywodraeth yn rhoi terfyn ar ei llesgedd ac yn cadarnhau ei hymrwymiad i'r diwydiant gweithgynhyrchu drwy gyhoeddi ei chynlluniau ar gyfer y sector? O ran Ynys Môn yn arbennig, sef rhan dlotaf y Deyrnas Unedig o hyd, pa gynnydd y mae eich

attracting industrial investment to replace the hundreds of skilled manufacturing jobs lost at Anglesey Aluminium Metals Ltd?

The First Minister: The Welsh manufacturing strategy was published some three months ago. Therefore, it is already in place. The strategy is industry led and supported by the Welsh Government as part of the partnership approach that we are taking with the industry.

Gwasanaethau Rheilffyrdd

13. Rhodri Glyn Thomas: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffyrdd yng Ngorllewin Cymru. OAQ(4)0036(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr wyf eisoes wedi sôn am ein cynlluniau i wella gwasanaethau drwy ddyblu'r trac sengl rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr a darparu gwasanaethau trên newydd rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin, a fydd yn dechrau ym mis Medi.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn gyfeirio at y gwasanaeth rhwng Caerfyrddin ac Abertawe. Mae pob mynegai tloidi yn nodi bod cymunedau yng ngorllewin Cymru yn dioddef o dlodi, ac mae rhai ohonynt yn fy etholaeth i yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr. A ymunwch â mi i fynegi siom bod Arriva, wrth gyhoeddi amserlen ar gyfer misoedd yr haf, yn bwriadu cynyddu'r amser rhwng trenau yng Nglanyfferi, gan olygu mai pob dwy awr yn unig y bydd trên yn stopio yn yr orsaf? Bydd hynny'n cael effaith fawr ar dwristiaeth dros fisoedd yr haf, ac y mae Glanyfferi'n ddibynnol ar dwristiaeth. Hefyd, mae nifer o bobl yn dibynnu ar y gwasanaeth i'w cludo i'w gwaith ac yn ôl. A ymrwymwch i gynnal trafodaethau gydag Arriva i sicrhau bod y trên yn aros bob awr yng Nglanyfferi, fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf?

Y Prif Weinidog: Nid yw pob trên wedi stopio mewn pob gorsaf ar y lein honno yn hanesyddol. Er enghraifft, nid oedd pob trên yn stopio yng Nghydwelli. Fodd bynnag, fel rheol, yr oedd y trên yn stopio yng Nglanyfferi. Ysgrifennaf at Arriva i gael ateb

Llywodraeth yn ei wneud o ran denu buddsoddiad diwydiannol i gymryd lle'r cannoedd o swyddi sgiliau medrus ym maes gweithgynhyrchu a gollwyd yn Anglesey Aluminium Metals Cyf?

Y Prif Weinidog: Cyhoeddwyd strategaeth weithgynhyrchu Cymru ryw dri mis yn ôl. Felly, mae eisoes ar waith. Caiff y strategaeth ei llywio gan ddiwydiant a'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r dull partneriaeth yr ydym yn ei fabwysiadu gyda'r diwydiant.

Rail Services

13. Rhodri Glyn Thomas: *Will the First Minister make a statement on rail services in West Wales. OAQ(4)0036(FM)*

The First Minister: I have already mentioned our plans to improve services by doubling the single track between Gowerton and Loughor and providing new train services between Fishguard and Carmarthen, which will commence in September.

Rhodri Glyn Thomas: I refer you to the service between Carmarthen and Swansea. Every index of poverty shows that communities in west Wales suffer from poverty, and some of them are in my constituency of Carmarthen East and Dinefwr. Will you join me in expressing disappointment that Arriva, in publishing a timetable for the summer months, intends to increase the time between trains in Ferryside, meaning that the train will stop at the station only once in every two hours? That will have a great impact on tourism over the summer, and Ferryside depends upon tourism. Also, many people depend on the service to commute to work. Will you commit to holding discussions with Arriva to ensure that the train stops at Ferryside every hour, as has been the case in past years?

The First Minister: Historically, not every train has stopped at every station on that line. For example, not every train stopped at Kidwelly. However, as a rule, the train stopped at Ferryside. I will write to Arriva to get the answer to your question and I will

i'ch cwestiwn a byddaf yn ysgrifennu yn ôl atoch wedi derbyn yr ateb hwnnw.

write back to you once I have had that answer.

Brech Goch

Measles

14. Sandy Mewies: *Sut mae'r cynnydd yn nifer yr achosion o frech goch yn effeithio ar Gymru. OAQ(4)0039(FM)*

14. Sandy Mewies: *How is the increase in cases of measles affecting Wales. OAQ(4)0039(FM)*

The First Minister: There have been no confirmed cases of measles in Wales with onset dates recorded during the first four months of 2011.

Y Prif Weinidog: Ni chafwyd yr un achos wedi'i gadarnhau o'r frech goch yng Nghymru â dyddiad dechrau a gofnodwyd yn ystod pedwar mis cyntaf 2011.

Sandy Mewies: Thank you for that answer. You will know, however, that there have been more than 300 cases of measles recorded in the first three months of 2011, which is as many as in the whole of the previous year. That is thought to be the result of the reduction in the number of children who have been vaccinated. Will the Welsh Government take steps to reassure parents about vaccination and encourage an increase in the numbers of children being vaccinated, so that children and older people can be protected against what can be an unpleasant and, sometimes, very dangerous disease?

Sandy Mewies: Diolch am yr ateb hwnnw. Eto i gyd, byddwch yn gwybod bod mwy na 300 o achosion o'r frech goch wedi'u cofnodi yn nhri mis cyntaf 2011, sef cynifer o achosion ag a gafwyd drwy gydol y flwyddyn flaenorol. Credir bod hynny'n ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y plant sydd wedi'u brechu. A wnaiff Llywodraeth Cymru gymryd camau i roi sicrwydd i rieni am frechu ac annog cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu brechu, fel y gall plant a phobl hŷn gael eu diogelu rhag yr hyn a ellir fod yn glefyd annymunol ac, weithiau, yn glefyd peryglus iawn?

The First Minister: I entirely agree. We know that the scare regarding the combined measles, mumps and rubella vaccine was completely groundless. We also know that it was fuelled mainly by the media, mainly in London, and that there were no grounds to the scientific research that raised question marks over the MMR vaccine. It is nevertheless right to say that there has been a lag in the uptake of the MMR vaccine. I therefore strongly encourage people to consider vaccination to protect against those three diseases.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn cytuno'n llwyr. Gwyddom fod y pryder a fu ynghylch brechlyn cyfunol y frech goch, clwy'r pennau a rwbelu yn gwbl ddi-sail. Gwyddom hefyd iddo gael ei ysgogi yn bennaf gan y cyfryngau, yn Llundain yn bennaf, ac nad oedd dim sail i'r gwaith ymchwil gwyddonol a oedd yn codi amheuan ynghylch brechlyn MMR. Er hynny, mae'n gywir dweud y cafwyd gostyngiad yn y nifer sy'n cael brechlyn MMR. Felly, yr wyf yn annog pobl yn gryf i ystyried brechu er mwyn diogelu rhag y tri chlefyd hynny.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Government of Wales Act 2006

15. Mick Antoniw: *A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar ynghylch y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â system etholiadol y Cynulliad a ffiniau etholaethau'r Cynulliad. OAQ(4)0024(FM)*

15. Mick Antoniw: *Has the First Minister had any recent discussions regarding the provisions within the Government of Wales Act 2006 relating to the Assembly electoral system and Assembly constituency boundaries. OAQ(4)0024(FM)*

The First Minister: Yes. I have spoken with the UK Government about the need for

Y Prif Weinidog: Ydw. Yr wyf wedi siarad â Llywodraeth y DU am yr angen am

further changes to the Government of Wales Act 2006 in consequence of the Parliamentary Voting System and Constituencies Act 2011.

Mick Antoniw: Given the increasing media comment on the discussions in Westminster about the Government of Wales Act 2006 in relation to Assembly constituency boundaries and electoral system and so on, can the First Minister give us an assurance that these constitutional issues are properly a matter of governance for the Assembly and the Welsh Government, and not appropriate matters to be discussed or initiated in Westminster?

newidiadau pellach i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ganlyniad i Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.

Mick Antoniw: O ystyried y ffaith bod mwy a mwy yn cael ei ddweud yn y cyfryngau am y trafodaethau yn San Steffan ynghylch Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â ffiniau etholaethol y Cynulliad a'r system etholiadol ac yn y blaen, a all y Prif Weinidog roi sicrwydd inni fod y materion cyfansoddiadol hyn yn faterion llywodraethu priodol i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru, ac nid yn faterion priodol i'w trafod neu eu cychwyn yn San Steffan?

2.30 p.m.

The First Minister: It would not be appropriate for a change to be made to the electoral system of the Assembly without the agreement of the Assembly itself. That is a principle that should be adhered to by the UK Government.

Y Prif Weinidog: Ni fyddai'n briodol newid system etholiadol y Cynulliad heb gael cytundeb y Cynulliad ei hun. Mae honno'n egwyddor y dylai Llywodraeth y DU ei dilyn.

Mike Hedges: When Peter Black asked his supplementary question earlier, he referred inaccurately to my comment. What I said was that electrification would be of more use to Swansea than an enterprise zone.

Mike Hedges: Pan ofynnodd Peter Black ei gwestiwn atodol yn gynharach, gwnaeth gyfeiriad gwallus at sylw a wnaed gennyf. Yr hyn a ddywedais oedd y byddai trydaneiddio yn fwy buddiol i Abertawe nac ardal fenter.

The Presiding Officer: That is not a point of order, but you have made your point.

Y Llywydd: Nid yw hwnnw'n bwynt o drefn, ond rydych wedi gwneud eich pwynt.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Cau Canolfan Alwadau Lloyds Banking Group ym Mhen-y-bont ar Ogwr Closure of Lloyds Banking Group Call Centre in Bridgend

The Presiding Officer: I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Suzy Davies to ask the question.

Y Llywydd: Yr wyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Suzy Davies i ofyn y cwestiwn.

Suzy Davies: *Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chwmni Lloyds Banking Group ynghylch cau'r ganolfan alwadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ffaith bod 700 o weithwyr yn colli'u swyddi, ac yn benodol, pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r*

Suzy Davies: *What discussions has the Minister had with Lloyds Banking Group regarding the closure of its Bridgend call centre with the loss of 700 jobs and in particular what steps the Welsh Government is taking to support those workers unable to relocate. EAQ(4)0021(BET)*

*gweithwyr hynny sy'n methu adleoli.
EAQ(4)0021(BET)*

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): Presiding Officer, I begin by correcting the question, which was factually inaccurate. Lloyds Banking Group is making a commitment to reallocate all staff in Wales. The closure is planned for March 2012, and the decision is part of a policy to retain expertise and knowledge within the group. I would like to make it clear that we are aware of the issues with staff; it has confirmed that the centre is closing, but it will be doing everything possible to relocate staff to three different centres.

Suzy Davies: I hope that the Minister will be speaking to Lloyds Banking Group about how best to retain those high-skill service sector jobs in the Bridgend area, not just the region. Despite the possibility of some of the staff being able to stay within the South Wales West region, this is still a terrible blow for Bridgend, Pencoed and the nearby Valleys communities. Furthermore, the union Unite has suggested that Lloyds has received a grant—

The Presiding Officer: Order. Can we come to the question please?

Suzy Davies: Yes, certainly. Will the Welsh Government look into the terms of a grant that Unite has suggested was given to Lloyds Banking Group at the time that the centre was opened to see whether the terms of that grant were met and whether there will be any clawback of grant funds as a result of the closure?

Edwina Hart: I refer the Member to the letter of 10 June 2011, which I addressed to all Assembly Members, regarding the announcement of the closure of the Lloyds Banking Group call centre in Bridgend. I referred in the final paragraph to the regional selective assistance grant that was received by Lloyds Banking Group and confirmed the terms and conditions.

Janice Gregory: As you know, I represent

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Lywydd, dechreuaf drwy gywiro'r cwestiwn, a oedd yn ffeithiol anghywir. Mae Grŵp Bancio Lloyds yn gwneud ymrwymiad i ailddosbarthu ei holl staff yng Nghymru. Bwriedir cau'r ganolfan ym mis Mawrth 2012, ac mae'r penderfyniad yn rhan o bolisi'r cwmni i gadw arbenigedd a gwybodaeth o fewn y grŵp. Hoffwn ei gwneud yn glir ein bod yn ymwybodol o'r materion staffio hyn; mae'r cwmni wedi cadarnhau y bydd y ganolfan yn cau, ond hefyd y bydd yn gwneud popeth posibl i adleoli staff i dair canolfan wahanol.

Suzy Davies: Yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn siarad â Grŵp Bancio Lloyds am y ffordd orau o gadw'r swyddi sector gwasanaethau sydd â sgiliau lefel uchel yn ardal Pen-y-bont, nid dim ond yn y rhanbarth. Er gwaethaf y posibilrwydd y bydd cyfle i rai o'r staff aros o fewn rhanbarth Gorllewin De Cymru, mae'r sefyllfa hon yn ergyd ofnadwy i Ben-y-bont ar Ogwr, Pencoed a chymunedau cyfagos y Cymoedd. Ar ben hynny, mae undeb Unite wedi awgrymu bod Lloyds wedi derbyn grant—

Y Llywydd: Trefn. A allwn ni ddod at y cwestiwn os gwelwch yn dda?

Suzy Davies: Gallwn, yn sicr. A fydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i delerau'r grant a roddwyd i Grŵp Bancio Lloyds, yn ôl Unite, pan gafodd y ganolfan ei hagor i weld a gafodd y telerau hynny eu bodloni, ac i weld a fydd unrhyw arian grant yn cael ei adfachu o ganlyniad i'r penderfyniad i gau'r ganolfan?

Edwina Hart: Cyfeiriaf yr Aelod at y llythyr a gyfeiriaais at holl Aelodau'r Cynulliad, dyddiedig 10 Mehefin 2011, ynghylch y cyhoeddiad y byddai Grŵp Bancio Lloyds yn cau'r ganolfan alwadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn y paragraff olaf, cyfeiriaais at y grant cymorth rhanbarthol dewisol a dderbyniwyd gan Grŵp Bancio Lloyds, a chadarnheais y telerau a'r amodau.

Janice Gregory: Fel y gwyddoch, yr wyf yn

the Ogmore constituency, which includes Pencoed, where I live, and I know many of the people who are employed by the contact centre. On the many occasions that I have visited the contact centre, the management has always been very keen to point out that it is a very caring organisation. Much of the workforce was attracted to that particular contact centre because of the rather unusual shift patterns, which allowed many people, usually women, to take on a job as well as undertake caring responsibilities, either for elderly parents or children. It is relocating to Cardiff, but, while I am concerned for all of those in the contact centre, I am very concerned about those who have caring responsibilities, who will have to factor in the difficulty of travelling to work. My greatest concern is for them. Minister, will you make representations to the company, and will you look at whether or not the company will take these issues into account when relocating?

Edwina Hart: Obviously, my officials have had discussions with the Lloyds Banking Group and the trade union Unite, as we are particularly concerned about those staff who will perhaps be unable to relocate. We will ensure that Team Wales offers assistance for alternative employment opportunities. The Lloyds Banking Group has a long history of investment in Wales across many business units, including retail banking, telebanking, corporate banking, asset finance and general insurance. With regard to the wider issues of the future usage of the building, we have already had discussions with members of my financial and professional panel about what further jobs we can bring to Wales in that sector.

The Presiding Officer: I have a number of speakers, so I remind Members at this point to ask the Minister questions without making long introductions.

Byron Davies: Minister, reallocation or not, I would like to echo Suzy Davies's comments regarding the very real effect that this will have on the area, especially on Bridgend town centre. The replacement of 700 jobs in

cynrychioli etholaeth Ogwr, sy'n cynnwys Pencoed, lle yr wyf yn byw, ac yr wyf yn adnabod llawer o'r bobl sy'n cael eu cyflogi gan y ganolfan gyswllt. Ar y sawl achlysur yr wyf wedi ymweld â'r ganolfan gyswllt, mae'r rheolwyr bob amser wedi bod yn awyddus iawn i nodi bod y sefydliad yn un gofalgar iawn. Cafodd llawer o'r gweithlu eu denu at y ganolfan gyswllt arbennig hon yn sgil ei phatrymau sifft anarferol, a oedd yn caniatáu i lawer o bobl—fel arfer menywod—i ymgymryd â swydd yn ogystal ag ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu, naill ai mewn perthynas â rhieni oeddrannus neu blant. Mae'r ganolfan yn symud i Gaerdydd, ac, er fy mod yn pryderu am bawb sydd yn y ganolfan gyswllt, rwyf yn bryderus iawn am y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, a fydd yn gorfod dioddef yr anhawster o deithio i'r gwaith. Fy mhryder mwyaf yw'r pryder sydd gennyf yn eu cylch hwy. Weinidog, a wnewch chi wneud sylwadau i'r cwmni, ac a ydych yn fodlon ystyried pa un a fydd y cwmni yn cymryd y materion hyn i ystyriaeth wrth adleoli?

Edwina Hart: Yn amlwg, mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau gyda Grŵp Bancio Lloyds a'r undeb llafur Unite, gan ein bod yn poeni'n arbennig am y staff na fydd, o bosibl, yn gallu adleoli. Byddwn yn sicrhau bod Tîm Cymru yn cynnig cymorth mewn perthynas â chyfluoedd cyflogaeth amgen. Mae gan Grŵp Bancio Lloyds hanes hir o fuddsoddi yng Nghymru ar draws nifer o unedau busnes, gan gynnwys bancio manwerthu, bancio ffôn, bancio corfforaethol, cyllid asedau ac yswiriant cyffredinol. O ran y materion ehangach sy'n ymwneud â defnydd yr adeilad yn y dyfodol, rydym eisoes wedi cael trafodaethau gydag aelodau o'm mhanel ariannol a phroffesiynol am ba swyddi pellach y gallwn eu denu i Gymru yn y sector hwnnw.

Y Llywydd: Mae nifer o siaradwyr am ddod i mewn, felly atgoffaf Aelodau yn awr i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb wneud rhagymadroddion hir.

Byron Davies: Weinidog, adleoli neu beidio, hoffwn ategu sylwadau Suzy Davies ynghylch yr effaith go iawn y bydd y cam hwn yn ei gael ar yr ardal, yn enwedig ar ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae creu 700

an area such as Bridgend is a tall order. One way to support business in the area would be to look at the policy on small business rate relief. Taking small businesses with a rateable value of £12,000 or less out of taxation would give them the support and confidence to hire additional staff.

The Presiding Officer: Order. Would you stick to Lloyds Banking Group, please?

Byron Davies: Will the Minister look at business rate relief and the support that it could give to Bridgend to alleviate some of the losses?

The Presiding Officer: Order. I ask Members to stick to the urgent question and not bring in additional subjects. Minister, do you wish to reply?

Edwina Hart: The point that I would make is that any closure is a loss, but the company has guaranteed that it will seek to relocate all staff to other jobs. We also have to recognise that, in certain fields, people travel great distances to these jobs, so the impact is not just felt in Bridgend and the Pencoed area, but across the region. The important point for Government is how, given that it was a purpose-built unit, we can attract other businesses to replace Lloyds Banking Group and put other people into that unit. That is the issue for us at the moment.

Bethan Jenkins: I echo the sentiments already expressed about this being disappointing for the area given the economic situation as it stands. It makes a mockery of the new chief executive's statement that the bank would support its communities and customers—it is leaving this particular community. *The Sunday Times* reported last weekend that Lloyds TSB is planning further cuts to its workforce. Will the First Minister and the Minister answering the urgent question outline the specific reassurances that they have received from Lloyds Banking Group that no further sites in Wales will be affected by other redundancies or planned

o swyddi newydd mewn ardal fel Pen-y-bont ar Ogwr yn dipyn o gamp. Un ffordd o gefnogi busnesau yn yr ardal fyddai edrych ar y polisi ar ryddhad ardrethi i fusnesau bach. Byddai cymryd busnesau bach sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai allan o drethiant yn rhoi'r gefnogaeth a'r hyder i gyflogi staff ychwanegol.

Y Llywydd: Trefn. A fyddai'n bosibl ichi gadw at Grŵp Bancio Lloyds, os gwelwch yn dda?

Byron Davies: A wnaiff y Gweinidog edrych ar ryddhad ardrethi busnes a'r gefnogaeth y gallai cynllun o'r fath ei roi i Ben-y-bont ar Ogwr o ran lleddfu rhai o'r colledion hyn?

Y Llywydd: Trefn. Gofynnaf i Aelodau lynu wrth y cwestiwn brys yn hytrach na chyflwyno pynciau ychwanegol. Weinidog, a ydych am ymateb?

Edwina Hart: Y pwynt yr hoffwn ei wneud yw bod unrhyw achos o gau gweithle yn golled, ond mae'r cwmni wedi gwarantu y bydd yn ceisio adleoli'r holl staff i swyddi eraill. Mae'n rhaid inni gydnabod hefyd bod pobl, mewn rhai meysydd, yn teithio pellteroedd mawr i'r swyddi hyn. Felly, nid yw effaith y penderfyniad hwn i'w themlo ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ardal Pencoed yn unig; mae'r effaith i'w themlo ar draws y rhanbarth. Y pwynt pwysig i'r Llywodraeth yw sut, o ystyried bod yr uned hon yn uned bwrpasol, y gallwn ddenu busnesau eraill i gymryd lle Grŵp Bancio Lloyds a rhoi pobl eraill i mewn i'r uned honno. Dyna'r mater i ni ar hyn o bryd.

Bethan Jenkins: Atefaff y sylwadau a wnaed eisoes ynglŷn â'r ffaith fod y datblygiad hwn yn un siomedig i'r ardal, o ystyried y sefyllfa economaidd sydd ohoni. Mae'n gwneud cyff grawd o ddatganiad y prif weithredwr newydd, sef y byddai'r banc yn cefnogi ei gymunedau a'i gwsmeriaid. Mae'r banc yn gadael y gymuned benodol hon. Dywedodd adroddiad yn *The Sunday Times* y penwythnos diwethaf fod gan Lloyds TSB gynlluniau i wneud toriadau pellach i'w weithlu. A wnaiff y Prif Weinidog a'r Gweinidog sy'n ateb y cwestiwn brys amlinellu'r sicrwydd penodol y maent wedi'i gael gan Grŵp Bancio Lloyds na fydd

changes?

Edwina Hart: Lloyds Banking Group is an international company that works in the private sector. It will make business decisions as it sees fit, and we have to recognise that. I am obviously aware of the rumours circulating about further job losses, and as I was previously the president of the Banking, Insurance and Finance Union, I maintain good contacts in that area. We will continue to press Lloyds Banking Group and the other banks in Wales about their intentions regarding jobs, and we will continue with our strategy, led by our finance and professional panel, to try to get more of those jobs into Wales. We are talking about an operation that was a call centre, so it was not necessarily serving the local population; we have to get our facts right regarding operations in that centre. At the end of the day, although it is unfortunate that Lloyds Banking Group has made this decision, particularly given the fact that this was a purpose-built building for which it had assistance from the Assembly Government, it is good to see that it values the skills of its staff and wishes to relocate as many of them as possible—and has, in fact, given a guarantee to all staff.

It is important that we do not use the word 'lost' about these 700 jobs. The reality is not that 700 jobs will be lost, with people made redundant and out of work; the reality is that there has been a change in circumstances. Language is important, particularly when you are dealing with people's lives and livelihoods.

Peter Black: I welcome the fact that Lloyds Banking Group is trying to relocate as many staff as possible. However, it has said that, if necessary, it will seek to put staff through voluntary redundancy if they cannot be relocated. What support will the Government be able to offer those staff who will end up taking the voluntary redundancy route

unrhyw safleoedd pellach sydd gan y cwmni yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau i dorri swyddi na chan newidiadau arfaethedig?

Edwina Hart: Mae Grŵp Bancio Lloyds yn gwmni rhyngwladol sy'n gweithio yn y sector preifat. Bydd yn gwneud penderfyniadau busnes fel y gwêl yn dda, ac mae'n rhaid inni gydnabod hynny. Mae'n amlwg fy mod yn ymwybodol o'r sibrydion sydd ar led ynghylch colli swyddi pellach, a chan yr oeddwn gynt yn llywydd ar yr Undeb Bancio, Yswiriant a Chyllid, yr wyf yn parhau i gynnal cysylltiadau da yn y maes hwnnw. Byddwn yn parhau i bwysu ar Grŵp Bancio Lloyds a'r banciau eraill yng Nghymru ynghylch eu cynlluniau o ran swyddi, a byddwn yn parhau â'n strategaeth, a arweinir gan ein panel ar gyllid a gwasanaethau proffesiynol, i geisio cael mwy o'r swyddi hynny i Gymru. Rydym yn sôn am waith a oedd yn ganolfan alwadau, felly nid oedd o reidrwydd yn gwasanaethu'r boblogaeth leol; mae'n rhaid inni gael ein ffeithiau yn gywir o ran y gweithrediadau a oedd yn digwydd yn y ganolfan honno. Ar ddiwedd y dydd, er ei bod yn anffodus bod Grŵp Bancio Lloyds wedi gwneud y penderfyniad hwn, yn enwedig o ystyried y ffaith bod yr adeilad hwn yn un pwrpasol y cafodd y cwmni gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei gylch, mae'n dda gweld bod y cwmni'n gwerthfawrogi sgiliau ei staff ac yn dymuno adleoli cymaint ohonynt â phosibl—ac wedi, mewn gwirionedd, rhoi gwarant i'r holl staff.

Mae'n bwysig nad ydym yn defnyddio'r gair 'colli' mewn perthynas â'r swyddi hyn. Y gwir yw na fydd 700 o swyddi'n cael eu colli, gyda phobl yn cael eu diswyddo ac felly allan o waith; y gwir yw y bu newid yn yr amgylchiadau. Mae iaith yn bwysig, yn enwedig pan fyddwch yn ymdrin â bywydau pobl a'u bywoliaeth.

Peter Black: Croesawaf y ffaith bod Grŵp Bancio Lloyds yn ceisio adleoli cymaint o staff â phosibl. Fodd bynnag, mae'r cwmni wedi dweud, os bydd angen, bydd yn ceisio rhoi staff drwy'r broses ddiswyddo wirfoddol os nad oes modd eu hadleoli. Pa gymorth bydd y Llywodraeth yn gallu cynnig i'r aelodau hynny o staff a fydd, yn y pen draw,

because, due to their circumstances, they are not able to relocate?

Edwina Hart: You have illustrated the concerns raised with me by Janice Gregory, the local Member, about staff with caring responsibilities who are unable to juggle those with work and get the correct balance. Inevitably, it will be women in the main who are affected in terms of workforce provision. The Team Wales office is looking at alternative employment opportunities, and I am sure that my colleague Jeff Cuthbert will consider the wider issue about whether we need to do something on the training agenda. We will keep closely in touch via officials with both the trade union and the company to see what help and assistance we can give.

Andrew R.T. Davies: Minister, you briefly touched on the building itself being a modern and purpose-built unit. What assistance can the Welsh Government offer the owners of the site with regard to marketing it? The Bosch site, which is just up the road, closed recently, and sadly it is still empty. Along the M4, there are high-value buildings that stand empty, but which could offer great potential for job creation in the future.

Edwina Hart: This was a purpose-built unit for Lloyds Banking Group, which received £1.5 million of RSA, in two instalments, to assist with that development. We will be looking at how we can market it as a living, breathing unit, as it were, to the appropriate sectors. I will not be utilising just my officials in this regard; I now have the financial and professional services panel, which is excellent in this area. It is looking at the strategic development of those services in Wales, and hopefully we will be able to find someone. We have heard good news about a centre coming to Cardiff, and we can look to the future and hope to see the arrival of more financial services back-office functions, which might utilise those premises.

yn cymryd y llwybr diswyddo gwirfoddol gan nad ydynt yn gallu symud yn sgîl eu hamgylchiadau?

Edwina Hart: Yr ydych wedi pwysleisio'r pryderon a godwyd gyda mi gan Janice Gregory, yr Aelod lleol, am staff nad ydynt yn gallu jyglo eu cyfrifoldebau gofalu â'u cyfrifoldebau gwaith a chael y cydbwysedd cywir. Yn anochel, menywod bydd, yn bennaf, yn cael eu heffeithio o ran y darpariaethau ar gyfer y gweithlu. Mae swyddfa Tîm Cymru yn edrych ar gyfleoedd cyflogaeth amgen, ac yr wyf yn siŵr y bydd fy nghydweithiwr Jeff Cuthbert yn ystyried y mater ehangach, sef yr angen i wneud rhywbeth ar yr agenda hyfforddi. Drwy swyddogion, byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos â'r undeb llafur a'r cwmni i weld pa help a chymorth y gallwn ei roi.

Andrew RT Davies: Weinidog, yr ydych wedi cyffwrdd yn fras ar y ffaith bod yr adeilad ei hun yn uned fodern a phwrpasol. Pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i berchnogion y safle, o ran ei farchnata? Caeodd safle Bosch, sydd ychydig i fyny'r ffordd, yn ddiweddar, ac yn anffodus, mae'n parhau i fod yn wag. Ar hyd yr M4, mae adeiladau gwerth uchel sy'n sefyll yn wag ond a allai gynnig cryn botensial ar gyfer creu swyddi yn y dyfodol.

Edwina Hart: Roedd hon yn uned bwrpasol ar gyfer Grŵp Bancio Lloyds, a gafodd £1.5 miliwn mewn cymorth rhanbarthol dewisol, mewn dau randaliad, i gynorthwyo'r datblygiad hwnnw. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn ei farchnata fel uned fyw, fel petai, i'r sectorau priodol. Nid dim ond fy swyddogion y byddaf yn eu defnyddio yn hyn o beth; yn awr, mae gennyf y panel gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, sy'n rhagorol yn y maes hwn. Mae'r panel yn edrych ar ddatblygiad strategol y gwasanaethau hynny yng Nghymru, ac rydym yn gobeithio y byddwn yn gallu dod o hyd i rywun. Yr ydym wedi clywed newyddion da am ganolfan yn dod i Gaerdydd, a gallwn edrych i'r dyfodol a gobeithio gweld dyfodiad mwy o swyddogaethau cefn swyddfa ym maes gwasanaethau ariannol, a allai ddefnyddio'r fangre honno.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I have no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Darren Millar: Minister, I ask for a statement from the Minister for Health and Social Services on mental health services for deaf people. This morning, I met representatives from the National Deaf Children's Society Wales, and, in spite of the fact that a presentation was made to a ministerial advisory committee—the mental health programme board—way back in October last year, no decision has been forthcoming about the need to establish a specialist mental health service for deaf people. A specialist service exists in England, one exists in Northern Ireland, and one is in the process of being established in Scotland, yet nothing seems to be coming forward in Wales. Therefore, could we have a statement on that?

Jane Hutt: We are very aware of the good work of the National Deaf Children's Society, and I know that the Minister for health is receiving a report and an update on this matter.

David Rees: Will the Minister provide a statement detailing the progress that has been made in the establishment of Assembly committees?

Jane Hutt: The establishment of Assembly committees is not the responsibility of the Welsh Government, but it is a matter for all parties in the Assembly, and I am glad to report on progress as Leader of the House. The business managers from the four parties are considering the various options that have been put to us. In this new Assembly, we are embracing direct law-making powers, which will have a bearing on how we progress this matter. We anticipate that we will be in a

Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Nid oes gennyf newidiadau i'w hadrodd i fusnes arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Darren Millar: Weinidog, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl fyddar. Y bore yma, cyfarfûm â chynrychiolwyr o'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru, ac, er gwaethaf y ffaith y gwnaed cyflwyniad i bwyllgor ymgynghorol i weinidogion—bwrdd y rhaglen iechyd meddwl—yn ôl ym mis Hydref y llynedd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch yr angen i sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol i bobl fyddar. Mae gwasanaeth arbenigol yn bodoli yn Lloegr, mae un yn bodoli yng Ngogledd Iwerddon, ac mae un yn y broses o gael ei sefydlu yn yr Alban, ac eto, ymddengys nad oes unrhyw beth yn cael ei ddatblygu yng Nghymru. Felly, a allem gael datganiad ar hynny?

Jane Hutt: Rydym yn ymwybodol iawn o'r gwaith da a wneir gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, a gwn y bydd y Gweinidog iechyd yn cael adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

David Rees: A wnaiff y Gweinidog ddarparu datganiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed o ran sefydlu pwyllgorau'r Cynulliad?

Jane Hutt: Nid yw sefydlu pwyllgorau'r Cynulliad yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, ond mae hwn yn fater i bob plaid yn y Cynulliad, ac, fel Arweinydd y Tŷ, yr wyf yn falch o adrodd ar y cynnydd a wnaed. Mae rheolwyr busnes y pedair plaid yn ystyried y gwahanol opsiynau a gyflwynwyd i ni. Yn y Cynulliad newydd hwn, mae gennym bwerau deddfu uniongyrchol, a fydd yn cael effaith ar sut yr ydym yn symud ymlaen â'r mater hwn. Yr ydym yn rhagweld y byddwn mewn

position to table motions to establish the committees that will handle policy scrutiny and legislation and the remaining standing committees next week. Tomorrow, we will consider motions on two interim committees that we are setting up to make progress.

Simon Thomas: Could the Leader of the House take this opportunity to set a good precedent for the new Assembly? In the past few days, two Ministers have attended joint ministerial committees: the First Minister has been to London to discuss the financing of the Welsh Government, and the Deputy Minister for farming—except tuberculosis—has been to London to discuss the common agricultural policy and future European funding for farmers in Wales. Surely, it would set a good precedent for us to have at the very least a written statement, if not an oral statement, each time a Minister attends a joint ministerial committee. That used to happen in the previous Assembly, and it should be happening in this Assembly. To do otherwise shows discourtesy to Members of this place.

Jane Hutt: I am sure that, with regard to the positioning of Wales and the Welsh Government at the joint ministerial committees and councils, you would welcome the fact that the First Minister was there last week, standing up for Wales, as he does. The First Minister will make a legislative statement this afternoon, and he will make a statement next week that will reflect on the discussions that he had at the committee.

With regard to Alun Davies's responsibilities, I am sure that he will report back to the Assembly.

Kirsty Williams: Minister, a few weeks ago I asked whether the Minister for Health and Social Services would be willing to make a statement on her policies with regard to maternal and foetal medicine services in Wales. Could you give us an update on whether she intends to make such a statement, given the threat to those services, especially in south-east Wales?

sefyllfa i gyflwyno cynigion i sefydlu'r pwyllgorau a fydd yn ymdrin â gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth a'r pwyllgorau sefydlog sy'n weddill yr wythnos nesaf. Yfory, byddwn yn ystyried cynigion ar ddau bwyllgor dros dro yr ydym yn eu sefydlu er mwyn gwneud cynnydd.

Simon Thomas: A all Arweinydd y Tŷ fanteisio ar y cyfle hwn i osod cynsail dda ar gyfer y Cynulliad newydd? Yn y dyddiau diwethaf, mae dau Weinidog wedi mynychu cydbwyllgorau gweinidogol: mae'r Prif Weinidog wedi bod i Lundain i drafod sut y mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu, ac mae'r Dirprwy Weinidog dros ffermio—ac eithrio twbercwlosis—wedi bod i Lundain i drafod y polisi amaethyddol cyffredin a'r arian Ewropeaidd a fydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Yn sicr, bydd yn gosod cynsail dda inni gael datganiad ysgrifenedig o leiaf, os nad datganiad llafar, bob tro y bydd Gweinidog yn mynychu cydbwyllgor gweinidogol. Yr oedd hynny'n digwydd yn y Cynulliad blaenorol, a dylai fod yn digwydd yn y Cynulliad hwn. Byddai gwneud fel arall yn dangos anghwrteisi i'r Aelodau yn y lle hwn.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y byddech, o ran safbwynt Cymru a Llywodraeth Cymru yn y cydbwyllgorau a'r cyd-gynghorau gweinidogol, yn croesawu'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi bod yno yr wythnos diwethaf, yn sefyll i fyny dros Gymru, yn ôl yr arfer. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad deddfwriaethol y prynhawn yma, a bydd yn gwneud datganiad yr wythnos nesaf a fydd yn ymdrin â'r trafodaethau a gafodd ar y pwyllgor.

O ran y cyfrifoldebau sydd gan Alun Davies, yr wyf yn sicr y bydd yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

Kirsty Williams: Weinidog, ychydig wythnosau yn ôl, gofynnais a fyddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn barod i wneud datganiad am ei pholisïau mewn perthynas â gwasanaethau meddygaeth y mamau a'r ffetws yng Nghymru. A fyddai'n bosibl ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch a yw'n bwriadu gwneud datganiad o'r fath, o ystyried y bygythiad i'r gwasanaethau hynny,

yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru?

2.45 p.m.

Will you also ask the Minister for Health and Social Services to make a statement on non-urgent patient transport? I am sure that the Minister will be aware that there is no district general hospital in the county of Powys, which necessitates Powys residents having to travel some considerable distances to access DGH services. Many people do so under the auspices of a community car scheme, run by volunteers. When the community car scheme volunteers travel to Hereford general hospital or to Shropshire, they are fully reimbursed for the cost of those journeys. However, when they travel to hospitals in Abergavenny, Newport or Cardiff, the same volunteers do not receive a full reimbursement for those costs. It seems to be a clear message to people in Powys that it would simply be cheaper for them to get referrals across the border. I am sure that that is not what the Minister for health intends and I would be grateful if she could make a statement clarifying the proper way to reimburse car scheme volunteers when they take Welsh patients to Welsh hospital appointments.

Jane Hutt: I know that the Minister for Health and Social Services is keenly aware of these issues. She has her question session on 6 July and I am sure that she will be able to respond with an update on those matters in due course.

Mark Isherwood: I call for a Government statement on the use by citizens of new technology to record public meetings in Wales. I have been contacted by a constituent from north Wales who is concerned about the reports of a person in Carmarthenshire being evicted from a council meeting because they were allegedly filming the meeting. My constituent says that it is not that they share this person's opinions, but that transparency and openness should be the underlying principle behind everything that councils do and that, in the digital age, it is right that we modernise our approach to public access. The

A wnewch chi hefyd ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad am gludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys? Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol nad oes ysbyty cyffredinol dosbarth yn sir Powys, sy'n golygu bod angen i drigolion Powys deithio pellter sylweddol i gael gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth. Mae nifer o bobl yn gwneud hyn o dan nawdd y cynllun ceir cymunedol, a redir gan wirfoddolwyr. Pan fydd gwirfoddolwyr y cynllun ceir cymunedol yn teithio i ysbyty cyffredinol Henffordd neu i swydd Amwythig, maent yn cael eu had-dalu'n llawn am y costau teithio hynny. Fodd bynnag, pan fyddant yn teithio i ysbytai yn y Fenni, Casnewydd neu Gaerdydd, nid yw'r un gwirfoddolwyr yn derbyn ad-daliad llawn ar gyfer y costau hynny. Ymddengys fod y neges i bobl Powys yn glir, sef y byddai'n rhatach iddynt gael eu cyfeirio ar draws y ffin. Yr wyf yn siŵr nad dyna fwriad y Gweinidog iechyd, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai wneud datganiad yn egluro'r ffordd briodol o ad-dalu gwirfoddolwyr y cynllun car pan fyddant yn cymryd cleifion o Gymru i apwyntiadau ysbyty yng Nghymru.

Jane Hutt: Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol iawn o'r materion hyn. Mae ei sesiwn gwestiynau ar 6 Gorffennaf, ac yr wyf yn siŵr y bydd hi'n gallu ymateb gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar y materion hynny maes o law.

Mark Isherwood: Galwaf am ddatganiad gan y Llywodraeth ar y defnydd a wneir gan ddinasyddion o dechnoleg newydd i gofnodi cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. Mae etholwr o ogledd Cymru wedi cysylltu â mi, gan fynegi pryderon ynghylch honiadau bod person yn sir Gaerfyrddin wedi cael ei droi allan o un o gyfarfodydd y cyngor am ei bod, yn ôl y sôn, yn ffilmio cyfarfod. Mae fy etholwr yn dweud nad mater o rannu barn y person hwn yw'r pwynt, ond y ffaith mai tryloywder a bod yn agored yw'r egwyddorion sylfaenol a ddylai fod yn sail i unrhyw beth y mae cynghorau yn ei wneud,

Parliamentary Under Secretary of State, Bob Neill, has written to English county councils encouraging them to take a welcoming approach to those who want to bring local news stories to a wider audience, quoting recent stories about people being ejected from council meetings for blogging, tweeting or filming, and encouraging councils to adopt an inclusive approach to this. Therefore, in the interest of the fundamentals of democracy, I call for a statement from the Welsh Government to confirm that it will endorse the approach adopted by the UK Government and encourage councils in Wales to adopt this transparent democratic approach.

Jane Hutt: This is a matter for local authorities and I am sure that they will be keenly interested in learning the lessons from this kind of use of digital technology. On transparency and digital inclusion, we also have to recognise that there are many other ways in which local authorities can make their democratic proceedings accessible and open to the people that they represent.

Christine Chapman: I call for a statement by the Welsh Government on the Sayce report into the future of Remploy factories in Wales. The report sets out plans to mainstream work for people with disabilities. However, there are serious implications to this for the future of the Remploy factories—one of which is in my constituency—and the people who work in them. The workforce is faced with a lot of uncertainty and there is a lot of anger and frustration at the moment about the possible loss of their skilled jobs and the threat of them being removed from a close-knit workforce that has been likened to a family. Also, the issue at the moment is that there are very few jobs out there in the main stream. Although this matter will be decided by the UK Government, it will affect many members of communities across Wales. Would the Welsh Government make a statement setting out what discussions are taking place regarding this report?

a'r ffaith ei fod yn iawn, yn yr oes ddigidol, inni foderneiddio ein hymagwedd tuag at fynediad i'r cyhoedd. Mae Bob Neill, yr Isysgrifennydd Seneddol Gwladol, wedi ysgrifennu at gynghorau sir yn Lloegr er mwyn eu hannog i gael agwedd groesawgar tuag at bobl sydd am ddod â straeon newyddion lleol i gynulleidfa ehangach, gan ddyfynnu straeon diweddar am bobl yn cael eu troi allan o gyfarfodydd cyngor am flogio, trydaru neu ffilmio, ac yn annog cynghorau i fabwysiadu ymagwedd gynhwysol yn y cydestun hwn. Felly, er budd hanfodion democratiaeth, galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau y bydd yn cymeradwyo'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU ac y bydd yn annog cynghorau yng Nghymru i fabwysiadu'r dull tryloyw democrataidd hwn.

Jane Hutt: Mae hwn yn fater i awdurdodau lleol, ac yr wyf yn siŵr y byddant yn eiddgar i ddysgu'r gwersi sy'n deillio o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y modd hwn. O ran tryloywder a chynhwysiant digidol, rhaid inni hefyd gydnabod bod llawer o ffyrdd eraill y gall awdurdodau lleol sicrhau bod eu trafodion democrataidd yn hygyrch ac yn agored i'r bobl y maent yn eu cynrychioli.

Christine Chapman: Galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad Sayce ar ddyfodol ffatrioedd Remploy yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi cynlluniau i brif-ffrydio gwaith ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Fodd bynnag, mae gan y sefyllfa hon oblygiadau difrifol i ddyfodol ffatrioedd Remploy—mae un ohonynt yn fy etholaeth i—a'r bobl sy'n gweithio ynddynt. Mae'r gweithlu yn wynebu llawer o ansicrwydd ac mae llawer o ddieter a rhwystredigaeth ymhlith y gweithwyr ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o golli eu swyddi medrus a'r perygl y byddant yn cael eu symud ymaith o weithlu clos sydd wedi cael ei gymharu i deulu. Hefyd, y broblem ar hyn o bryd yw bod ychydig iawn o swyddi ar gael yn y brif ffrwd. Er y bydd y mater hwn yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth y DU, bydd yn effeithio ar lawer o aelodau o gymunedau ar draws Cymru. A fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru wneud datganiad yn nodi pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal am yr adroddiad hwn?

Jane Hutt: This is an important issue, not just for your constituency, but for many constituencies across Wales. As you say, matters relating to Remploy are the responsibility of the UK Government, specifically the Department for Work and Pensions. We have to await the UK Government's response to specific recommendations that are made in the report, and any consultation that it might undertake before it makes decisions. We will engage with the DWP in the full light of not only the report, but the impact that we consider it would have on the people of Wales.

Andrew R.T. Davies: Is it the Government's intention to make a statement on the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2011? These regulations were due to be implemented before the dissolution of the third Assembly. I have had a variety of correspondence from constituents on the matter recently. Does the Government intend to bring forward these regulations before the summer recess?

Jane Hutt: That is certainly the intention.

Russell George: Will the Leader of the House consider my request for a debate in Government time—or at least a statement to update us—on tourism in Wales? We know that the value of tourism to Wales accounts for a significant proportion of the economy. The majority of people who come to Wales do so as tourists. Tourism employs roughly 7 per cent of those employed in Wales, which is a higher percentage than for any English region apart from the south-east. The industry is an important economic driver in my constituency, as it is across mid Wales, such as at the Owain Glyndŵr Centre in Machynlleth. The First Minister was due to open that national heritage centre this weekend but, unfortunately, he has had to pull out. In mid Wales, we have Powis castle and the Cambrian line steam train on the west coast, which has unfortunately been unable to open because of delayed work by Network Rail. Minister, we need a statement to update us on progress made under the Government's tourism strategy. The tourism investment strategy was published 10 years ago and we are now at its midpoint. I believe that it is the right time to review what the Government

Jane Hutt: Mae hwn yn fater pwysig, nid yn unig i'ch etholaeth, ond i lawer o etholaethau ar draws Cymru. Fel y dywedasoch, mae materion sy'n ymwneud â Remploy yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, ac i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn benodol. Mae'n rhaid inni aros am ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion penodol a wnaed yn yr adroddiad, ac i unrhyw ymgynghoriad y gallai gynnal gwneud penderfyniadau. Byddwn yn ymgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau yng ngoleuni llawn yr adroddiad a'r effaith y credwn y bydd yn ei chael ar bobl Cymru.

Andrew R.T. Davies: A yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud datganiad ar y Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2011? Y bwriad oedd gweithredu'r rheoliadau hyn cyn diddymiad y trydydd Cynulliad. Yr wyf wedi cael amrywiaeth o ohebiaeth ar y mater hwn gan etholwyr yn ddiweddar. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r rheoliadau hyn cyn toriad yr haf?

Jane Hutt: Dyna yw'r bwriad, yn sicr.

Russell George: A wnaiff Arweinydd y Tŷ ystyried fy nghais am ddatl yn amser y Llywodraeth—neu o leiaf ddatganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni—ar dwristiaeth yng Nghymru? Gwyddom fod twristiaeth yn cyfrif am gyfran sylweddol o economi Cymru. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dod i Gymru yn dod fel twristiaid. Mae twristiaeth yn cyflogi tua 7 y cant o'r rhai a gyflogir yng Nghymru, sy'n ganran uwch na'r ffigur ar gyfer unrhyw ranbarth yn Lloegr, ar wahân i'r de-ddwyrain. Mae'r diwydiant yn sbardun economaidd pwysig yn fy etholaeth, fel y mae ar draws canolbarth Cymru, gan gynnwys Canolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth. Roedd y Prif Weinidog i fod i agor y ganolfan dreftadaeth genedlaethol y penwythnos hwn ond, yn anffodus, mae wedi gorfod tynnu allan. Yng nghanolbarth Cymru, mae gennym gastell Powis a thrên stêm rheilffordd y Cambrian ar yr arfordir gorllewinol, sydd wedi methu ag agor, yn anffodus, oherwydd oedi yn y gwaith y mae Network Rail yn ei wneud. Weinidog, mae angen datganiad arnom sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd a wnaed o dan strategaeth dwristiaeth y

has achieved under its policy and where investment to date is yielding maximum returns to the Welsh economy.

Jane Hutt: The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will very much welcome your positive comments on the contribution of tourism. Indeed, you will have an opportunity to put questions to the Minister next Wednesday. Clearly, this is an important policy area, not just for the Minister, but for the Welsh Government as a whole.

Nick Ramsay: Monmouthshire County Council recently held a Big Deal event at Chepstow as part of its Back 2 Business week. It was a means of extending the hand of friendship and assistance to local businesses, to help them to develop, to the benefit of my constituency and the rest of Wales. As the Welsh Government had a significant input into that event, could we have a statement from either the Minister for business or the Minister for local government on how that model could be rolled out to the rest of Wales? It was incredibly successful in my constituency last week and I think that it has the potential to allow local authorities to engage much more with the business sector in a very real way, as well as with the Welsh Government, to see us all move forward together in developing a proper business agenda in future that benefits not only the people of Wales, but the Welsh Government and local authorities too.

Jane Hutt: I am sure that both Ministers will be interested in hearing about the outcome of the event led by Monmouthshire County Council. Local authority engagement in supporting the small business sector in particular is crucial. I am sure that a report on the impact of that event would be welcomed by the Ministers and we could then consider a way forward in terms of rolling that out.

Llywodraeth. Cyhoeddwyd y strategaeth ar gyfer buddsoddi mewn twristiaeth 10 mlynedd yn ôl, ac yr ydym bellach ar ei phwynt canol. Credaf mai dyma'r amser iawn i adolygu'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i gyflawni o dan ei pholisi, ac i nodi lle mae'r buddsoddiad a wnaed hyd yn hyn wedi arwain at greu'r buddion mwyaf i economi Cymru.

Jane Hutt: Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn croesawu eich sylwadau cadarnhaol ar gyfraniad twristiaeth. Yn wir, bydd gennych gyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ddydd Mercher nesaf. Yn amlwg, mae hwn yn faes polisi pwysig, nid yn unig i'r Gweinidog, ond i Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Nick Ramsay: Yn ddiweddar, cynhaliodd Cyngor Sir Fynwy ddiwyddiad Big Deal yng Nghas-gwent fel rhan o'i wythnos Dychwelyd at Fusnes. Roedd yn fodd o ymestyn llaw cyfeillgarwch a chymorth i fusnesau lleol, i'w helpu i ddatblygu, er budd fy etholaeth a gweddill Cymru. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r digwyddiad hwnnw, a fyddai'n bosibl inni gael datganiad gan un ai'r Gweinidog busnes neu'r Gweinidog llywodraeth leol ar sut y gellid cyflwyno'r model hwnnw i weddill Cymru? Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd yn fy etholaeth i yr wythnos diwethaf yn hynod lwyddiannus, a chredaf fod gan y model hwn y potensial i ganiatáu i awdurdodau lleol ymgysylltu llawer mwy â'r sector busnes mewn ffordd wirioneddol, yn ogystal ag ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, fel y gallwn oll symud ymlaen gyda'n gilydd wrth ddatblygu agenda busnes priodol yn y dyfodol—agenda sydd o fudd nid yn unig i bobl Cymru, ond i Lywodraeth Cymru ac i awdurdodau lleol hefyd.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y bydd gan y ddau Weinidog ddiddordeb mewn clywed am ganlyniadau'r digwyddiad a gynhaliwyd o dan arweiniad Cyngor Sir Fynwy. Mae ymgysylltiad awdurdodau lleol wrth gefnogi'r sector busnesau bach, yn arbennig, yn hanfodol. Yr wyf yn siŵr y byddai adroddiad ar effaith y digwyddiad hwnnw yn cael ei groesawu gan y Gweinidogion, ac yna

gallem ystyried y ffordd ymlaen o ran cyflwyno'r model hwnnw.

Datganiad am Flaenoriaethau Deddfwriaethol **Statement on Legislative Priorities**

The First Minister: In keeping with our usual practice, I shall formally announce the Government's full legislative programme, in accordance with Standing Order No. 11.21, in July. However, I have said that I would come forward with an outline of my Government's legislative priorities after the half-term recess.

Those who were Members of the last Assembly will recall that John Griffiths, when he held the office of Counsel General in the previous Government, recommended a move away from an annual legislative programme towards a five-year programme to better reflect Assembly procedures and to better align with the programme of government. I have accepted his recommendation and on 12 July I shall announce the Welsh Government's five-year programme of legislation.

We know that we face challenging times ahead and we will have to make some tough decisions with regard to public spending. However, our focus remains on improving public services and creating opportunities for everyone. We will, of course, seek to use the new powers that we received following the referendum in March when we need to, but we will not create legislation for the sake of it.

The economic challenges facing Wales will inevitably put additional strains on families that may need a helping hand. This Government wants to ensure that the right kind of support is there when needed. To this end, we will bring forward a Bill that will build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, enshrining it—and the lessons learnt from its early implementation—in Welsh legislation.

We will introduce a Bill to simplify the web of legislation that currently regulates social

Y Prif Weinidog: Yn unol â'n harfer arferol, byddaf yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol lawn y Llywodraeth yn ffurfiol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 11.21, ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, dywedais y byddwn yn cyflwyno amlinelliad o flaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth ar ôl y toriad hanner tymor.

Bydd y rhai a oedd yn Aelodau o'r Cynulliad diwethaf yn cofio bod John Griffiths, pan yn Gwnsler Cyffredinol yn y Llywodraeth flaenorol, wedi argymhell newid y drefn o gael rhaglen ddeddfwriaethol flynyddol, ac wedi argymhell cael rhaglen pum mlynedd a fyddai'n adlewyrchu gweithdrefnau'r Cynulliad yn well ac a fyddai'n cyd-fynd yn well â'r rhaglen lywodraethu. Yr wyf wedi derbyn ei argymhelliad ac, ar 12 Gorffennaf, byddaf yn cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd Llywodraeth Cymru.

Gwyddom ein bod yn wynebu cyfnod heriol, a gwyddom y bydd yn rhaid inni wneud rhai penderfyniadau anodd o ran gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, mae ein ffocws yn parhau i fod ar wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu cyfleoedd i bawb. Wrth gwrs, byddwn yn ceisio defnyddio'r pwerau newydd a gawsom yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth pan fydd angen gwneud hynny, ond ni fyddwn yn creu deddfwriaeth er ei mwyn ei hun.

Yn anochel, bydd yr heriau economaidd sy'n wynebu Cymru yn rhoi straen ychwanegol ar deuluoedd y gallai fod angen help llaw arnynt. Mae'r Llywodraeth am sicrhau y bydd y math cywir o gefnogaeth ar gael pan fydd ei hangen. I'r perwyl hwn, byddwn yn cyflwyno Bil a fydd yn ategu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gynnwys y Mesur—a'r gwersi cynnar a ddysgwyd wrth ei weithredu yn gynnar—yn neddfwriaeth Cymru.

Byddwn yn cyflwyno Bil i symleiddio'r wmbredd o ddeddfwriaeth sydd ar hyn o bryd

care in Wales to make access to services much easier and more understandable to those who need them. This will be based on a thorough review of the current legislative and regulatory framework for social work and social care services. The Bill will also provide for national eligibility criteria for access to all social care services and a robust and coherent statutory framework to safeguard children and adults, including measures to strengthen the scrutiny of care services and the voice of the service user. We will also take measures to improve and standardise services for children who live away from home, and provide for national eligibility criteria for access to all social care services.

Education is fundamental to building a just, inclusive and fair society. We are committed to the comprehensive system of school education and will introduce funding and structural reforms to drive resources to the front line. We will seek to put local authority Welsh-in-education strategic plans on a statutory basis. We will also consider the need for legislation to bring coherence and efficiency to higher education in Wales through the establishment of a single strategic planning and funding body.

We believe in a Welsh public service with a strong public-service ethos that is accountable to the people of Wales. The bodies that scrutinise the effectiveness of public bodies should also be accountable and we will, therefore, seek to legislate to modernise governance and accountability arrangements for the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office.

We will be seeking to legislate to embed sustainable development as the central organising principle in all our actions across Government and all public bodies. A sustainable development Bill will put in place a new independent sustainable development body for Wales, following the UK

yn rheoli gofal cymdeithasol yng Nghymru, a hynny er mwyn sicrhau bod cael mynediad i wasanaethau yn llawer haws ac yn fwy dealladwy i'r rhai sydd eu hangen. Bydd hyn yn seiliedig ar adolygiad trylwyr o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gwaith cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y Bil hefyd yn darparu meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer cael mynediad at yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol, a fframwaith cadarn a chydlynol statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion, gan gynnwys mesurau i gryfhau'r gwaith o graffu ar wasanaethau gofal a chryfhau llais y defnyddiwr. Byddwn hefyd yn cymryd camau i wella a safoni gwasanaethau i blant sy'n byw oddi cartref, a byddwn yn darparu meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer cael mynediad at yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae addysg yn rhan hanfodol o greu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg. Yr ydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg drwy'r system ysgolion cyfun, a byddwn yn cyflwyno cyllid a diwygiadau strwythurol i sicrhau bod adnoddau yn mynd i'r rheng flaen. Byddwn yn ceisio sicrhau bod sail statudol gan gynlluniau strategol awdurdodau lleol ar gyfer Cymraeg mewn addysg. Byddwn hefyd yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn gydlynol ac yn effeithlon, a hynny drwy sefydlu corff sengl ar gyfer cynllunio strategol a chyllido.

Yr ydym yn credu mewn gwasanaeth cyhoeddus i Gymru sydd â phwyslais cryf ar ethos gwasanaeth cyhoeddus ac sy'n atebol i bobl Cymru. Dylai'r cyrff sy'n craffu ar effeithiolrwydd cyrff cyhoeddus hefyd fod yn atebol a byddwn yn ceisio deddfu, felly, i foderneiddio'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddwn yn ceisio deddfu er mwyn gwreiddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol ein holl weithredoedd ar draws y Llywodraeth a phob corff cyhoeddus. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i gael gwared ar y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, bydd Bil datblygu cynaliadwy yn sefydlu

Government's decision to scrap the Sustainable Development Commission.

The Welsh Government wants to create communities that are safe, sustainable and attractive places for people to live and work, where people and families have good access to services and enjoy good health. In many parts of Wales, the demand for allotments is not met by supply; therefore, to support local communities in becoming more sustainable and healthier, we will seek to legislate on the amount of land to be used for allotments. We will introduce a cycling Bill to build on the significant investment of recent years by introducing a duty to provide cycle routes in key areas.

We will seek to bring forward a heritage protection Bill that will strengthen the protection of listed buildings and others in Wales. We will pursue opportunities for consolidating law in areas that are clearly overdue for an overhaul—planning law being an obvious example. It will not surprise Members to hear that we will also be bringing forward an organ donation Bill to provide for an opt-out system of organ donation, backed up by a comprehensive education programme.

In formulating our legislative programme, we will be reflecting upon lessons learnt from our experiences in taking legislation forward over the past four years. A five-year legislative programme should permit greater planning and flexibility in bringing items forward so that they are fully developed and consulted upon prior to introduction. We will work with others in the development of policy and legislation and, where appropriate, will seek to publish draft Assembly Bills for consultation.

There is often tension between what a Government puts on the face of legislation and what a legislature considers appropriate. We will aim to strike the right balance between what is on the face of an Assembly Bill and what detail is left to subordinate

corff newydd annibynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu cymunedau diogel, cynaliadwy a deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt, a chymunedau lle mae pobl a theuluoedd yn cael mynediad da at wasanaethau ac yn mwynhau iechyd da. Mewn sawl rhan o Gymru, nid yw'r cyflenwad o randiroedd yn bodloni'r galw amdanynt; felly, i gefnogi cymunedau lleol o ran dod yn fwy cynaliadwy ac iach, byddwn yn ceisio deddfu ynghylch faint o dir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd. Byddwn yn cyflwyno Bil seiclo i adeiladu ar y buddsoddiad sylweddol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf drwy gyflwyno dyletswydd i ddarparu llwybrau beicio mewn ardaloedd allweddol.

Byddwn yn ceisio cyflwyno Bil diogelu treftadaeth a fydd yn cryfhau'r system ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig ac adeiladau eraill yng Nghymru. Byddwn yn mynd ar drywydd cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu'r gyfraith mewn meysydd y mae'n hen bryd eu hailwampio—mae cynllunio'n enghraifft amlwg o'r sefyllfa hon. Ni fydd yn syndod i Aelodau glywed y byddwn hefyd yn cyflwyno Bil rhoi organau er mwyn darparu system optio allan mewn perthynas â rhoi organau. Caiff y Bil ei gefnogi gan raglen addysg gynhwysfawr.

Wrth lunio ein rhaglen ddeddfwriaethol, byddwn yn myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'n profiadau wrth inni fwrw ymlaen â deddfwriaeth dros y pedair blynedd diwethaf. Dylai rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd ganiatáu mwy o gynllunio a hyblygrwydd o ran dod ag eitemau ymlaen, fel eu bod yn cael eu datblygu'n llawn a'u bod yn destun ymgynghoriad llawn cyn eu cyflwyno. Byddwn yn gweithio gydag eraill wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth a, lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ceisio cyhoeddi Biliau drafft y Cynulliad fel y gellir ymgynghori arnynt.

Yn aml, mae tensiwn rhwng yr hyn y mae Llywodraeth yn rhoi ar wyneb deddfwriaeth a'r hyn y mae deddfwrfa'n ei ystyried sy'n briodol. Byddwn yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng yr hyn fydd ar wyneb Bil y Cynulliad a'r manylion a fydd

legislation. We will ensure opportunities for enhanced scrutiny of significant items of subordinate legislation. We will also introduce a system to ensure that such items are referred to a committee for some form of pre-legislative scrutiny.

There will continue to be an annual oral statement to the Assembly on the Government's legislative programme, with the initial statement setting out the headline items in the five-year Government programme and the detail of those Government Bills to be brought forward over the next 12 months. Subsequent annual statements will announce which Government Bills will be introduced during the course of that year.

3.00 p.m.

Before the legislative programme is introduced, it will be subjected to a far more rigorous scrutiny process, with a set of criteria that legislative bids must meet in order to ensure that all proposals for legislation meet the standards required for them to be included in the legislative programme. Ministers are currently finalising their proposals for the Government's five-year legislative programme for announcement on 12 July.

When I was elected First Minister on 10 May, I acknowledged that the Government benches did not have the numbers to pass Government legislation without the support of other parties. I hope that there will be many occasions when we can find common ground and move forward together to pass legislation that will work for the good of the people of Wales. It is inevitable and proper that the opposition will seek to hold this Government to account. I welcomed the positive comments from the opposition leaders when they said that they would work to be a constructive opposition, seeking to work together to find consensus where possible. Members will have an opportunity to judge the strength of our legislative programme when I formally announce it on 12 July.

yn cael eu gadael i'r is-ddeddfwriaeth. Byddwn yn sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwneud gwaith craffu gwell ar eitemau sylweddol o is-ddeddfwriaeth. Byddwn hefyd yn cyflwyno system i sicrhau bod eitemau o'r fath yn cael eu cyfeirio at bwyllgor ar gyfer rhyw fath o waith craffu cyn-ddeddfwriaethol.

Bydd datganiad llafar blynyddol yn parhau i gael ei wneud i'r Cynulliad ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Bydd datganiad cychwynol yn nodi'r prif eitemau yn rhaglen bum mlynedd y Llywodraeth a manylion y Biliau a fydd yn cael eu dwyn ymlaen gan y Llywodraeth dros y 12 mis nesaf. Bydd datganiadau blynyddol dilynol yn cyhoeddi pa Filiau gaiff eu cyflwyno gan y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn honno.

Cyn y bydd y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei chyflwyno, bydd yn destun proses graffu llawer mwy trylwyr, gyda chyfres o feini prawf y mae'n rhaid i gynigion deddfwriaethol eu bodloni er mwyn sicrhau bod yr holl gynigion ar gyfer deddfwriaeth yn cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol iddynt gael eu cynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Mae Gweinidogion ar hyn o bryd yn cwblhau eu cynigion ar gyfer rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd y Llywodraeth i'w chyhoeddi erbyn 12 Gorffennaf.

Pan gefais fy ethol yn Brif Weinidog ar 10 Mai, bu i mi gydnabod nad oedd gan feinciau'r Llywodraeth y niferoedd i basio deddfwriaeth y Llywodraeth heb gefnogaeth y pleidiau eraill. Rwy'n gobeithio y bydd sawl achlysur pan fyddwn yn gallu dod o hyd i dir cyffredin a symud ymlaen gyda'n gilydd i basio deddfwriaeth a fydd yn gweithio er lles pobl Cymru. Mae'n anochel ac yn briodol y bydd y gwrthbleidiau yn ceisio dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Croesewais y sylwadau cadarnhaol gan arweinwyr y gwrthbleidiau pan ddywedasant y byddent yn gweithio i fod yn wrthblaid adeiladol, gan geisio gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i gonsensws lle bo hynny'n bosibl. Caiff yr Aelodau gyfle i farnu cryfder ein rhaglen ddeddfwriaethol pan fyddaf yn ei chyhoeddi'n ffurfiol ar 12 Gorffennaf.

Paul Davies: First, I thank the First Minister for his statement today. It has taken the Government a number of weeks to set out its programme, but I am pleased that the First Minister has finally made some sort of statement in the Chamber this afternoon. However, I am disappointed that it is more of a holding statement, and that the First Minister has failed to fully outline his Government's legislative programme. I urge him to do so as soon as possible. The people of Wales are waiting, First Minister.

It is crucial that the new Government concentrates on outcomes and that it delivers for the people of Wales. That is what the First Minister promised during the Assembly election campaign. The Government must improve the evidence base and forecasting for its budgets and key policy programmes. In the last Assembly, the Finance Committee reported that it was particularly concerned that, in a number of Government departments, the setting of budgets appeared to precede consideration of the precise outcomes to be delivered. Therefore, delivery must be key in this fourth Assembly, and scrutiny of the Government will be crucial in this process.

I appreciate that the First Minister has confirmed that a delivery unit will be established to concentrate on outcomes. I understand that, currently, key data are not held centrally by the Welsh Government—such as information on local authority waiting lists for social housing, the number of regulations introduced by the Government in the last three years, the number of people with arthritis and chronic pain waiting for referral, and the number of victims of domestic abuse attending accident and emergency departments. Surely, if the Government intends to improve delivery and outcomes for the people of Wales, it must be able to hold data in order to know whether it is improving outcomes for the people of Wales. Therefore, will the First Minister confirm whether the Government will improve its data collection? If so, how does it intend to do so, and what mechanism will he put in place to achieve this?

Paul Davies: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae'r Llywodraeth wedi treulio nifer o wythnosau yn pennu ei rhaglen, ond rwy'n falch bod y Prif Weinidog o'r diwedd wedi gwneud rhyw fath o ddatganiad yn y Siambr y prynhawn yma. Fodd bynnag, rwy'n siomedig ei fod yn ddatganiad i'n cadw ni'n aros, a bod y Prif Weinidog wedi methu â llawn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol ei Lywodraeth. Anogaf ef i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Mae pobl Cymru yn aros, Brif Weinidog.

Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth newydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'i bod yn darparu i bobl Cymru. Dyna yw'r hyn y bu i'r Prif Weinidog addo yn ystod ymgyrch etholiad y Cynulliad. Rhaid i'r Llywodraeth wella'r dystiolaeth a'r rhagolygon sy'n sail i'w chyllidebau a'i rhaglenni polisi allweddol. Yn y Cynulliad diwethaf, adroddodd y Pwyllgor Cyllid ei fod yn benodol o bryderus ei fod yn ymddangos fel pe bai nifer o adrannau'r Llywodraeth yn gosod cyllidebau cyn ystyried yr union ganlyniadau i'w cyflwyno. Felly, rhaid i'r gwaith o ddarparu canlyniadau fod yn allweddol yn y pedwerydd Cynulliad, a bydd craffu ar y Llywodraeth yn hanfodol yn y broses hon.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau y bydd uned gyflawni yn cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar ganlyniadau. Rwy'n deall, ar hyn o bryd, nad oes data allweddol yn cael eu cadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru—fel gwybodaeth am restrau aros awdurdodau lleol am dai cymdeithasol, nifer y rheoliadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yn ystod y tair blynedd diwethaf, nifer y bobl ag arthritis a phoen cronig sy'n aros i gael eu hatgyfeirio, a nifer y dioddefwyr o gam-drin domestig sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn ddiau, os yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwella'r hyn a gyflawnir a'r canlyniadau i bobl Cymru, rhaid iddi allu cadw data er mwyn gwybod a yw'n gwella canlyniadau i bobl Cymru. Felly, a wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a fydd y Llywodraeth yn gwella'r modd y mae'n casglu data? Os felly, sut y mae'n bwriadu gwneud hynny, a pha fecanwaith y

bydd yn ei sefydlu i gyflawni hyn?

Perhaps the First Minister will also be kind enough to tell us what kind of delivery unit the Government is setting up. Perhaps he could explain in more detail what the delivery unit will look like and how it will be accountable to his Government. It is clear that the First Minister's Government must concentrate on delivery, so does he agree that the Government must improve the way that it governs in this fourth Assembly?

Efallai y bydd y Prif Weinidog hefyd yn ddigon caredig i ddweud wrthym pa fath o uned gyflawni y mae'r Llywodraeth yn ei sefydlu. Efallai y gallai egluro yn fwy manwl beth fydd yr uned gyflawni a sut y bydd yn atebol i'w Lywodraeth. Mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth y Prif Weinidog ganolbwyntio ar gyflawni, felly a yw'n cytuno bod yn rhaid i'r Llywodraeth wella'r ffordd y mae'n llywodraethu yn y pedwerydd Cynulliad?

I now turn to some other aspects of the statement. You mention in your statement, First Minister, that you intend to introduce a children's rights Measure, and that you are looking to put local authority Welsh in education strategic plans on a statutory basis. Education is key in driving forward our economic prosperity. As we have seen fairly recently, four in 10 pupils have reading skills below their age group, according to Estyn. Given that there is no detail in today's statement, how exactly does the Welsh Government intend to reverse what its own Minister for Education and Skills has admitted is the systemic failure of its education policy?

Trof yn awr at rai agweddau eraill ar y datganiad. Bu i chi sôn yn eich datganiad, Brif Weinidog, eich bod yn bwriadu cyflwyno Mesur hawliau plant, ac eich bod yn ystyried gosod cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol ar sail statudol. Mae addysg yn allweddol wrth yrru ein ffyniant economaidd. Fel y gwelwom yn gymharol ddiweddar, mae gan bedwar o bob 10 o ddisgyblion sgiliau darllen sy'n is na'u grŵp oedran, yn ôl Estyn. O ystyried nad oes unrhyw fanylion yn y datganiad heddiw, sut yn union y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwrthdroi'r hyn y mae ei Weinidog Addysg a Sgiliau ei hun wedi cyfaddef sy'n fethiant systemig o'i bolisi addysg?

Very little reference is made to public health in the First Minister's statement today. As we all know, primary law-making powers allow the Government to develop holistic and strategic policies in a manner that was not previously possible. The latest Welsh health survey found that 8 per cent of adults have a heart condition, 20 per cent have high blood pressure and 6 per cent have diabetes. I would be grateful if the First Minister could tell us what specific measures he intends to bring forward to improve levels of public health in Wales?

Ychydig iawn oedd y cyfeiriadau at iechyd y cyhoedd yn natganiad y Prif Weinidog heddiw. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae pwerau deddfu cynradd yn caniatáu i'r Llywodraeth ddatblygu polisiau holistig a strategol mewn modd nad oedd yn bosibl o'r blaen. Canfu'r arolwg diweddaraf ynghylch iechyd Cymru fod gan 8 y cant o oedolion gyflwr calon, bod gan 20 y cant bwysedd gwaed uchel a bod 6 y cant yn dioddef o ddiabetes. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog ddweud wrthym pa fesurau penodol y mae'n bwriadu eu cyflwyno i wella lefelau iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

I am pleased that the First Minister has confirmed at long last that he and his Government will take forward the economic renewal programme. I understand that his new Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has raised the importance of inward investment to grow the

Rwy'n falch bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau o'r diwedd y bydd ef a'i Lywodraeth yn bwrw ymlaen â'r rhaglen adnewyddu'r economi. Rwy'n deall bod ei Weinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth newydd wedi codi pwysigrwydd mewnfuddsoddiad i dyfu

Welsh economy. Will the First Minister clarify the Welsh Government's policy on attracting inward investment to Wales?

The First Minister pledged to govern without triumphalism or tribalism. One of our policies for the Assembly elections was to reward all Welsh armed services personnel with a dedicated armed forces card, which proved to be an extremely popular idea. Will the First Minister look at the proposals that we put forward, and work with us to reward the outstanding contribution and dedication of servicemen and servicewomen in Wales?

The First Minister made it clear in his statement that he and his Government will ensure that there is an opportunity for the enhanced scrutiny of significant items of subordinate legislation, and that a system will be introduced to ensure that such items are referred to a committee. Will the First Minister expand on this and tell us how this will work?

Finally, I thank the First Minister for his statement. I hope that his Government will bring forward a full programme as soon as possible so that it can focus its efforts on delivering for the people of Wales.

The First Minister: As I said, the full programme will be brought forward on 12 July. I reject any suggestions that this is somehow tardy, given the fact that the Scottish Government is not publishing its programme until September and that the UK Government has yet to publish a programme for the next five years; indeed, there have been some discussions within the UK Government as to what its policy should be in certain areas, health being one example.

The delivery unit will be answerable to me and it will be made up of civil servants. Its job will be to ensure that what we say is what we do. It will also ensure that where there may be particular difficulties from time to time, they are brought to my attention quickly so that they can be dealt with. It will also have the job of ensuring that a set of measurable outcomes is produced in each portfolio area so that members of the public can see what we are doing, and form their

economi Cymru. A wnaiff y Prif Weinidog egluro polisi Llywodraeth Cymru ar ddenu buddsoddiad o'r tu allan i Gymru?

Addawodd y Prif Weinidog y byddai'n llywodraethu heb orfoleddu a heb lwytholdeb. Un o'n polisiau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad oedd gwobrwyo pob aelod o bersonél y lluoedd arfog yng Nghymru â cherdyn lluoedd arfog penodol, a brofodd yn syniad hynod o boblogaidd. A fydd y Prif Weinidog yn edrych ar y cynigion a gyflwynwyd gennym, a gweithio gyda ni i wobrwyo cyfraniad ac ymroddiad eithriadol aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru?

Gwnaeth y Prif Weinidog hi'n glir yn ei ddatganiad y bydd ef a'i Lywodraeth yn sicrhau bod cyfle i graffu yn helaethach ar eitemau sylweddol o is-ddeddfwriaeth, ac y bydd system yn cael ei chyflwyno i sicrhau bod eitemau o'r fath yn cael eu cyfeirio at bwyllgor. A wnaiff y Prif Weinidog ymhelaethu ar hyn a dweud wrthym sut y bydd hyn yn gweithio?

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad. Rwy'n gobeithio y bydd ei Lywodraeth yn cyflwyno rhaglen lawn cyn gynted â phosibl fel y gall ganolbwyntio ei hymdrechion ar gyflawni dros bobl Cymru.

Y Prif Weinidog: Fel y dywedais, bydd y rhaglen lawn yn cael ei chyflwyno ar 12 Gorffennaf. Gwrthodaf unrhyw awgrym fod hyn rywsut yn araf, o ystyried y ffaith nad yw Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi ei rhaglen tan fis Medi a bod Llywodraeth y DU eto i gyhoeddi rhaglen ar gyfer y pum mlynedd nesaf; yn wir, bu rhai trafodaethau o fewn Llywodraeth y DU ynghylch yr hyn ddylai ei pholisi fod mewn rhai meysydd, gyda maes iechyd yn un enghraifft.

Bydd yr uned gyflawni yn atebol i mi ac yn cynnwys gweision sifil. Ei gwaith fydd sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn yr ydym yn ei ddweud. Bydd hefyd yn sicrhau, lle gall fod anawsterau penodol o bryd i'w gilydd, eu bod yn dod at fy sylw i yn gyflym fel bod modd ymdrin â nhw. Bydd hefyd yn cael y gwaith o sicrhau bod set o ganlyniadau mesuradwy yn cael ei chynhyrchu ym mhob maes portffolio fel y gall aelodau o'r cyhoedd weld yr hyn yr ydym yn ei wneud, a ffurfio

judgments accordingly. If further data sets are required to do that, they will be acquired.

I expect the education Bill to be wide-ranging and fall into two general areas, namely school standards and structures. While it is not possible to secure a better education system through legislation alone, I believe that the education Bill will take us a long way forward in developing the type of education system, at all levels, that we require.

The point about public health is important, but I wish to see the results of the Food Standards Agency's investigation into food hygiene enforcement before considering what public health legislation might be possible in Wales over the next few years. I asked the FSA to conduct that investigation following the E. coli inquiry, and that investigation is not yet complete. However, if there are suggestions following the investigation that can be taken forward through primary legislation—or, indeed, any form of legislation—we will consider it.

Legislation alone cannot create investment, but we are confident that, through the economic renewal programme, the level of investment in Wales will increase over the years, and that job creation will continue.

We have no particular difficulty with the Conservatives' policy on the armed forces; after all, we have been developing much of it over the past year in any case. A group meets from time to time in Carl Sargeant's department to ensure that proper services are available to armed forces personnel in Wales, and we are keen to develop that situation further.

When it comes to the committee structure, it is not for the Government to decide what the structure should be—that is something for all parties to decide via the Business Committee. Nevertheless, given the new powers that we have, it is important to have a robust scrutiny system in place.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf innau hefyd yn diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad, er

barn yn unol â hynny. Os oes angen rhagor o ddata i wneud hynny, byddant yn casglu'r data hynny.

Rwy'n disgwyl i'r Mesur addysg fod yn eang ei gwmpas gan ddisgyn i ddau faes cyffredinol, sef safonau ysgol a strwythurau. Er nad yw'n bosibl sicrhau system addysg well drwy ddeddfwriaeth yn unig, yr wyf o'r farn y bydd y Bil yn mynd â ni ymhell wrth ddatblygu'r math o system addysg sydd ei hangen arnom ar bob lefel.

Mae'r pwynt ynghylch iechyd y cyhoedd yn bwysig, ond yr wyf am weld canlyniadau ymchwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd i orfodi hylendid bwyd cyn ystyried pa fath o ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus a fydd yn bosibl yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gofynnais i'r asiantaeth gynnal yr ymchwiliad hwnnw yn dilyn yr ymchwiliad E. coli, ac nid yw'r ymchwiliad yn gyflawn eto. Fodd bynnag, os oes awgrymiadau yn dilyn yr ymchwiliad y gellir eu datblygu drwy ddeddfwriaeth gynradd—neu, yn wir, unrhyw fath o ddeddfwriaeth—byddwn yn eu hystyried.

Ni all deddfwriaeth yn unig greu buddsoddiad, ond yr ydym yn hyderus, drwy raglen adnewyddu'r economi, y bydd lefel y buddsoddiad yng Nghymru yn cynyddu dros y blynyddoedd, ac y bydd swyddi yn parhau i gael eu creu.

Nid oes gennym unrhyw anhawster penodol â pholisi'r Ceidwadwyr ar y lluoedd arfog; wedi'r cyfan, yr ydym wedi bod yn datblygu llawer ohono dros y flwyddyn ddiwethaf beth bynnag. Mae grŵp yn cyfarfod o bryd i'w gilydd yn adran Carl Sargeant i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru, ac yr ydym yn awyddus i ddatblygu'r sefyllfa ymhellach.

Pan ddaw at strwythur y pwyllgorau, nid mater i'r Llywodraeth yw penderfynu beth ddylai'r strwythur fod—mae hynny'n rhywbeth i bob plaid ei benderfynu drwy'r Pwyllgor Busnes. Serch hynny, o ystyried y pwerau newydd sydd gennym, mae'n bwysig cael system graffu gadarn ar waith.

Ieuan Wyn Jones: I, too, thank the First Minister for his statement, even though we

ein bod yn siomedig yn y cynnwys. Fel mae'r Prif Weinidog yn gwybod, yr oeddem wedi gofyn am ddadl, ac yn disgwyl cael dadl, yn amser y Llywodraeth ar ei rhaglen gynhwysfawr—nid yn unig ar ei rhaglen ddeddfwriaethol ond hefyd ar yr hyn y bydd yn ceisio ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf a dros y tymor o bum mlynedd. Yr wyf yn credu ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth yn gosod ei rhaglen lywodraethu cyn diwedd y tymor er mwyn i'r gwrthbleidiau a phobl Cymru gael cyfle i graffu ar y Llywodraeth a'i chynlluniau.

Mae'n edrych yn debyg na chynhelir dadl ar raglen y Llywodraeth cyn diwedd y tymor hwn, ac na fydd yr un Bil wedi cael ei gyflwyno cyn hynny. Mae'n fater o bryder—yr wyf yn siŵr eich bod yn rhannu'r pryder hwn, Brif Weinidog—y bydd pum mis wedi mynd heibio cyn inni ddechrau deddfu ac na fydd gennym raglen lywodraethu i graffu arni. Yr ydym wedi cytuno i sefydlu pwyllgorau craffu yr wythnos nesaf, ac yr wyf yn credu ei bod yn bwysig bod y pwyllgorau hynny'n cael craffu'n fuan iawn ar raglen y Llywodraeth. Wrth sôn am raglen y Llywodraeth, yr wyf yn sôn nid yn unig am eich cynlluniau deddfu ond hefyd eich rhaglen ar gyfer datblygu'r gwasanaeth iechyd yn wyneb her enfawr y toriadau mewn gwariant cyhoeddus a'r hyn yr ydych yn mynd i'w wneud ynghylch addysg bellach, addysg uwch, addysg mewn ysgolion ac yn y blaen.

Yr wyf yn sylweddoli mai tamaid i aros pryd yw'r datganiad heddiw, ond yr ydych yn cyfeirio at ryw 10 o Filiau—yr wyf wedi eu cyfrif yn fras iawn. Yr ydych wedi dweud eich bod am gyflwyno rhaglen lywodraethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ond mae'n rhyfedd gennyf eich bod yn meddwl mai dim ond 10 Bil fydd yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o bum mlynedd. A ydych yn gallu dweud wrthym mai 10 Bil cychwynnol fydd y rhain ac y bydd Biliau eraill yn cael eu cynnwys yn y rhaglen cyn diwedd 2016?

Fel Paul Davies, hoffwn gael mwy o fanylion—mae'n anodd iawn gofyn cwestiynau, Brif Weinidog, gan mai ychydig o fanylion a roddwyd. Nid wyf am ofyn cwestiwn ar bob bwnc—yr wyf yn siŵr y bydd y Llywydd yn falch o glywed hynny—

are disappointed at the content. As the First Minister knows, we had asked for, and expected to get, a debate in Government time on a comprehensive programme—not only the legislative programme but also what the Government will aim to achieve over the coming year and over the five-year term. I think that it is important that the Government sets out its programme for government before the end of this term so that the opposition parties and the people of Wales have an opportunity to scrutinise its plans.

It does not seem likely that there will be a debate on the Government's programme before the end of this term, and no Bills will be introduced before then. It is a matter of concern—I am sure that you share this concern, First Minister—that five months will have gone by before we start legislating and that we will not have a programme for government to scrutinise. We have agreed to establish scrutiny committees next week, and I believe that it is important that those committees are able to undertake early scrutiny of the Government's programme. When I talk about the Government's programme, I am not only talking about your legislative plans but also your programme for developing the health service as a result of the huge challenge posed by cuts in public spending and what you propose to do in relation to further education, higher education, education in schools and so on.

I realise that today's statement is only a taste of things to come, but you have referred to some 10 Bills—I have roughly counted them. You have said that you wish to introduce a programme for government for the next five years, but I find it strange that you are only thinking of introducing 10 Bills over that five-year period. Can you tell us whether these 10 Bills are only the first step, and that further Bills will be included in the programme before the end of 2016?

Like Paul Davies, I, too, would like further details—it is very difficult to ask questions, First Minister, given that we have limited details. I do not intend to ask a question on every subject—I am sure that the Presiding Officer will be pleased to hear it—but I

ond hoffwn ofyn cwestiwn ar un neu ddau ohonynt. Er enghraifft, o ran addysg, yr ydych yn dweud y byddwch yn cyflwyno'r diwygiadau cyllidol a strwythurol i sicrhau bod arian yn mynd i'r rheng flaen, ond hoffwn wybod beth yn union yr ydych yn ei olygu wrth hynny. Beth fydd hynny'n ei olygu i ysgolion unigol a lle bydd rhieni yn teimlo bod arian ar gael i ddatblygu gwasanaethau yn y dosbarth? Sylwais hefyd eich bod yn sôn am gynnwys cynlluniau'r Gymraeg o ran cynllunio strategol. A yw hynny'n golygu y bydd y cyfrifoldeb asesu a oedd yn perthyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn cael ei roi ar lwyfan statudol ac y bydd meini prawf statudol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ein hysgolion? Gan eich bod wedi gofyn, Brif Weinidog, am gymorth y gwrthbleidiau i sicrhau y bydd y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn cael ei gweithredu, a fydddech yn fodlon sicrhau bod materion megis anllythrennedd yn cael eu cynnwys yn y Bil? Yr ydych yn gwybod bod anllythrennedd yn un o'r materion a godwyd gennym yn ein maniffesto.

Yr oeddech hefyd yn sôn am Fil cynllunio—wrth basio, bron. Yr oeddem hefyd wedi dweud ein bod am weld Bil cynhwysfawr i newid y drefn gynllunio yng Nghymru, gan symud oddi wrth y drefn a sefydlwyd yn 1947, gan fod llawer yn fwy sensitif i anghenion Cymru. I ba gyfeiriad yr ydych yn credu y dylai'r Bil hwnnw fynd?

Yr wyf yn pryderu am yr amserlen yr ydych wedi'i gosod. Os na fydd Biliau yn cael eu cyflwyno tan ail hanner mis Medi, bydd nifer ohonynt yn cael eu cyflwyno mewn cyfnod eithaf byr. Mae hyn yn golygu y bydd Aelodau yn gorfod craffu ar nifer o Filiau gyda'i gilydd. Oni fyddai'n well creu rhaglen sy'n golygu bod y pwyllgorau yn cael mwy amser i graffu, yn hytrach na chael y Biliau i gyd yn dod gyda'i gilydd ym mis Medi a mis Hydref? Fodd bynnag, cewch ddweud wrthym eich bwriadau yn hynny o beth.

3.15 p.m.

Mae paragraff yn y datganiad nad wyf yn ei ddeall. Efallai y gallech ddweud wrthym beth mae'n ei olygu. Fe'i darllenaf yn Saesneg, gan fod dim ond copi Saesneg sydd gennym ar hyn o bryd:

would like to ask a question on one or two areas. For example, on education, you say that you will introduce financial and structural changes to ensure that money reaches the front line, but I would like to know the details of what you mean by that. What will that mean for individual schools and where will parents feel that money is available to develop services in the classroom? I also noticed that you mentioned the inclusion of Welsh schemes in strategic planning. Does that mean that the assessment duty that previously rested with the Welsh Language Board is to be placed on a statutory footing and that there will be statutory criteria for developing the Welsh language in our schools? Given that you have asked, First Minister, for the opposition's support to ensure that this legislative programme is implemented, would you be willing to ensure that issues such as illiteracy are included in the Bill? You know that illiteracy is one of the issues included in our manifesto.

Bethan Jenkins: We welcome elements of this statement, especially the heritage protection Bill and the fact that you want to work with other parties. However, we, on this side of the Chamber, are deeply disappointed that you have not mentioned broadcasting as a priority for this Government. First Minister, you told me last week that you would not seek powers over broadcasting or the budget for it as they did not form part of the programme for government. I am afraid that events have overtaken you, however, and we cannot afford to wait five years to rescue our broadcasting services. I therefore ask you again: will you seek talks with the Department for Culture, Media and Sport on the devolution of broadcasting, with funding streams like those we have had for student support and local transport franchises in the past, so that we in Wales can legislate for our broadcasting services, rather than leaving it at the mercy of the Tories and the UK Government?

The First Minister: The reason why there is no mention of broadcasting is that it is not a devolved subject, so there cannot be a broadcasting Bill. It is important that some thought is given to what broadcasting actually means. From our point of view as a party, we do not support the devolution of broadcasting if, by 'broadcasting', you mean control over radio licences, Sky broadcasting and providing some of the funding for the BBC World Service. All of these things have to be bottomed out before such a policy could be taken forward. My priority has always been to ensure that Wales gets a fair slice of the broadcasting budget. There are grave concerns, which are shared by those from all parties in the Chamber, about the future of S4C and the proposed cuts—outlined in what was described as a draft paper—to BBC Wales, which would leave us with little current affairs coverage to speak of. That is the battle that has to be won, rather than looking to devolve broadcasting, either in its entirety or in bits.

welliant penodol, ond y bwriad yw cynhyrchu Bil a all ennyn cefnogaeth eang yn y Siambr.

Bethan Jenkins: Rydym yn croesawu elfennau o'r datganiad hwn, yn enwedig y Bil diogelu treftadaeth a'r ffaith eich bod am weithio gyda phleidiau eraill. Fodd bynnag, ar yr ochr hon i'r Siambr, yr ydym yn siomedig iawn nad ydych wedi sôn am ddarlledu fel blaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth hon. Brif Weinidog, fe ddywedasoeh wrthyf yr wythnos diwethaf na fydddech yn ceisio'r pwerau dros ddarlledu na'r gyllideb ar ei gyfer am nad ydynt yn ffurfio rhan o'r rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, mae arnaf ofn bod digwyddiadau wedi'ch goddiweddyd chi ac ni allwn fforddio aros pum mlynedd i achub ein gwasanaethau darlledu. Felly gofynnaf ichi eto: a wnewch chi geisio sgysiau gyda'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar ddatganoli darlledu, gyda ffrydiau ariannu fel y rhai a gawsom ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a masnachfreintiau trafndiaeth lleol yn y gorffennol, er mwyn i ni yng Nghymru allu deddfu ar gyfer ein gwasanaethau darlledu, yn hytrach na'u gadael ar drugaredd y Toriaid a Llywodraeth y DU?

Y Prif Weinidog: Nid oes sôn am ddarlledu oherwydd nid yw'r pwnc wedi'i ddatganoli, felly nid yw'n bosibl cael Bil darlledu. Mae'n bwysig rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r hyn y mae darlledu yn ei olygu mewn gwirionedd. O'n safbwynt ni fel plaid, nid ydym yn cefnogi datganoli darlledu os, gan 'ddarlledu', yr ydych yn golygu rheolaeth dros drwyddedau radio, darlledu Sky a darparu peth o'r cyllid ar gyfer BBC World Service. Rhaid i bob un o'r pethau hyn fod yn glir cyn y gellid cymryd polisi o'r fath ymlaen. Ers y dechrau, fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod Cymru yn cael cyfran deg o'r gyllideb ddarlledu. Mae pryderon mawr, sy'n cael eu rhannu gan y rheini o bob plaid yn y Siambr, ynghylch dyfodol S4C a'r toriadau arfaethedig i BBC Cymru—a amlinellwyd yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel papur drafft—a fyddai'n ein gadael gyda fawr ddim o ran darllediadau materion cyfoes. Mae honno'n frwydr sy'n rhaid ei hennill, yn hytrach nag edrych i ddatganoli darlledu, naill ai yn ei gyfanrwydd neu'n ddarnau.

Mark Drakeford: First Minister, I welcome the specific part of your statement in which you commit the Welsh Government to introducing legislative proposals to strengthen the scrutiny of care services. That is an excellent early indication of the way in which the Welsh Government is able to use the new legislative powers to react to an emerging social policy problem. When thought is being given to the way in which the scrutiny can best be carried out, could you confirm that the Government will consider as one option, among what I am sure will be a range of possibilities, the extension of the remit of community health councils in Wales, so that they are able to carry out their duties in relation to social care as they are able to do in relation to health services today?

Mark Drakeford: Brif Weinidog, croesawaf y rhan benodol o'ch datganiad sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion deddfwriaethol i gryfhau craffu ar wasanaethau gofal. Mae hynny'n arwydd cynnar ardderchog o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd i ymateb i broblem polisi cymdeithasol sy'n datblygu. Pan roddir ystyriaeth i'r ffordd orau o gynnal y broses graffu, a allech gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn ystyried fel un opsiwn, ymhlith yr hyn yr wyf yn siŵr y bydd yn amrywiaeth o bosibiliadau, ymestyn cylch gwaith y cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru fel eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau o ran gofal cymdeithasol fel y maent yn gallu ei wneud o ran gwasanaethau iechyd heddiw?

3.45 p.m.

The First Minister: I am sure that this proposal and many others will be considered in their entirety during the passage of the Bill.

Y Prif Weinidog: Rwy'n siŵr y bydd y cynnig hwn a llawer o rai eraill yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd yn ystod hynt y Mesur.

Andrew R.T. Davies: First Minister, thank you for your statement. In the earlier part of the statement, you touched on the commissioning of a report from the Food Standards Agency. I am a little disappointed that that could hold up legislation that could be brought forward to improve hygiene standards in food outlets and legislation on food recycling, which was in our manifesto. I know that your party was lobbied by Consumer Focus on these issues. Do you see this type of legislation being incorporated in a larger public health Bill, pending the findings of the report by the Food Standards Agency that you commissioned?

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, diolch am eich datganiad. Ddechrau eich datganiad, sonioch am gomisiynu adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Rwyf braidd yn siomedig y gallai hynny oedi deddfwriaeth y gellid ei dwyn ymlaen i wella safonau hylendid mewn mannau gwerthu bwyd a deddfwriaeth ar ailgylchu bwyd, a oedd yn ein manifffesto. Gwn fod eich plaid wedi'i lobïo gan Llais Defnyddwyr ar y materion hyn. A ydych yn gweld y math hwn o ddeddfwriaeth yn cael ei hymgorffori mewn Bil iechyd cyhoeddus mwy, gan aros am ganfyddiadau'r adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gomisiynwyd gennych?

Secondly, there was little talk in your statement of any legislative assistance that might be brought forward to help business and enterprise in Wales. I welcome the very brief reference to planning, which was something that I raised with you immediately on our return to the Assembly. Do you see the legislative process as being able to assist business and enterprise in Wales? Many of the organisations that are lobbying us at the moment believe that assistance could be given through the legislative process on

Yn ail, nid oedd llawer o sôn yn eich datganiad am unrhyw gymorth deddfwriaethol y gellid ei ddwyn ymlaen i helpu busnesau a menter yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r cyfeiriad byr iawn at gynllunio, a oedd yn rhywbeth a godais gyda chi yn syth ar ôl inni ddychwelyd i'r Cynulliad. A ydych yn gweld y gallai'r broses ddeddfwriaethol helpu menter a busnes yng Nghymru? Mae llawer o'r sefydliadau sy'n ein lobïo ar hyn o bryd yn credu y gellid rhoi cymorth drwy'r broses

contracting and the ability to buy in to Government contracts, particularly for small and medium-sized enterprises.

The First Minister: I do not think that you can easily legislate on procurement without breaching state aid rules. Nevertheless, you can put in place a system where SMEs are encouraged to compete for Government contracts and that has been done successfully over the past few years. On the FSA report, the form that any ensuing legislation on food hygiene will take will depend on what the appropriate vehicle may be: if there is an opportunity to legislate through a public health Bill, that may be the right vehicle, but if there needs to be a separate Bill, that will be considered as well. It is important that the FSA concludes the investigation that I asked it to carry out to ensure that we have a comprehensive system of food hygiene enforcement in Wales. Until that report is ready and until recommendations arise from it, it will be difficult to provide detail as to what the legislation might look like. However, I am open to the idea of a public health Bill, including the need to tighten up food hygiene enforcement.

Antoinette Sandbach: Thank you for your statement, First Minister. I wish to raise two matters with you and the first matter that I wish to raise relates to your delivery unit. Will you be making that unit independent of Government so that there is independent scrutiny of your delivery, along the lines of the Office for Budget Responsibility, which in effect provides independent data? Secondly, I was very concerned that in your response to the Leader of the Welsh Liberal Democrats, you indicated that you will not be publishing every Bill that you may take through the Assembly and that legislative opportunities may suddenly arise that would give you some flexibility. I am extremely concerned about that in relation to the question of transparency. If you do not publish legislation in advance, the third sector and the other bodies that may be affected by it will miss the opportunity to comment on it. I hope that you will be as transparent as possible and ensure that all

ddeddfwriaethol o ran contractio a'r gallu i brynu i mewn i gontractau Llywodraeth, yn enwedig i fentrau bach a chanolig eu maint.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn meddwl y gallwch ddeddfu yn hawdd ar gaffael heb dorri rheolau cymorth gwladwriaethol. Serch hynny, gallwch roi system ar waith lle mae busnesau bach a chanolig yn cael eu hannog i gystadlu am gontractau'r Llywodraeth ac mae hynny wedi digwydd yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf. O ran adroddiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd, bydd ffurf unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol ar hylendid bwyd yn dibynnu ar beth fyddai'r cerbyd priodol: os oes cyfle i ddeddfu drwy Fil iechyd cyhoeddus, fe allai hynny fod y cerbyd cywir, ond os oes angen Bil ar wahân, bydd hynny'n cael ei ystyried hefyd. Mae'n bwysig bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gorffen yr ymchwiliad gofynnais iddi ei wneud er mwyn sicrhau bod gennym system gynhwysfawr o ran gorfodi hylendid bwyd yng Nghymru. Hyd nes bydd yr adroddiad hwnnw'n barod a hyd nes y bydd argymhellion yn deillio ohono, mae'n anodd darparu manylion ynghylch beth y gallai'r ddeddfwriaeth edrych fel. Fodd bynnag, rwy'n agored i'r syniad o Fil iechyd cyhoeddus, gan gynnwys yr angen i wella gorfodi hylendid bwyd.

Antoinette Sandbach: Diolch am eich datganiad, Brif Weinidog. Hoffwn godi dau fater gyda chi ac mae'r cyntaf yn ymwneud â'ch uned gyflawni. A fydd yr uned honno yn annibynnol ar y Llywodraeth fel bod craffu annibynnol o'ch cyflawni, yn debyg i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sydd i bob pwrpas yn darparu data annibynnol? Yn ail, rwy'n bryderus iawn am ichi ddweud yn eich ymateb i Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru na fyddwch yn cyhoeddi pob Bil y byddwch yn eu cymryd drwy'r Cynulliad ac y gallai cyfleoedd deddfwriaethol godi yn sydyn a fyddai'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i chi. Rwy'n bryderus iawn am hynny o ran tryloywder. Os nad ydych yn cyhoeddi deddfwriaeth o flaen llaw, fe allai'r trydydd sector a'r cyrff eraill a allai gael eu heffeithio ganddi golli'r cyfle i roi sylwadau arni. Rwy'n gobeithio y byddwch mor dryloyw â phosibl ac y byddwch yn sicrhau y bydd yr holl bartion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan

parties that are likely to be affected by legislation will have an opportunity to scrutinise it properly and to comment on it.

The First Minister: The delivery unit reports to me; I am not keen on creating another quango, which is what an independent body would be. It would be the norm to publish Bills for consultation, except in circumstances where the main substance of the Bill has already been consulted on in another form. Let us say, for example, that a particular policy has been consulted on in some detail and that, as a result, it is felt that primary legislation is the best way of moving that policy forward; there would then seem to be little point in consulting on the same thing again at that stage. Normally, Bills would be published for consultation.

ddeddfwriaeth yn cael cyfle i graffu yn iawn ac i roi sylwadau arni.

Y Prif Weinidog: Mae'r uned gyflawni yn adrodd i mi; nid wyf yn awyddus i greu cwango arall, sef yr hyn y byddai corff annibynnol. Yr arfer byddai cyhoeddi Biliau ar gyfer ymgynghori arnynt, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae prif sylwedd y Bil eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad ar ffurf arall. Gadewch i ni ddweud, er enghraifft, fod polisi penodol wedi cael ymgynghoriad manwl ac, o ganlyniad, teimlir mai deddfwriaeth sylfaenol yw'r ffordd orau o symud y polisi hwnnw yn ei flaen; ymddengys na fyddai llawer o bwrpas ymgynghori ar yr un peth eto. Fel arfer, byddai Biliau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer cynnal ymgynghoriad arnynt.

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth Supplementary Legislative Consent Motion: Localism Bill

Cynnig NDM4722 Carl Sargeant

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4642, y darpariaethau ychwanegol hynny a gyflwynwyd i'r Bil Lleoliaeth ynghylch pwerau cyffredinol a phwerau codi ffioedd i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a hawl y gymuned i brynu, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move the motion.

The supplementary legislative consent motion is required because several of the UK Government's amendments to the Bill's provisions fall within the Assembly's legislative competence in relation to devolved areas. The motion refers to a number of relevant provisions, namely sections 8 and 9 on the general power of fire and rescue authorities in Wales relating to charging, and section 89 on the provision of assistance and advice in relation to land of

Motion NDM4722 Carl Sargeant

That the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that, in addition to the provisions referred to in motion NNDM4642, those further provisions which have been brought forward in the Localism Bill relating to the general and charging powers for fire and rescue authorities in Wales and the community right to buy, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau y cynnig.

Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol oherwydd bod nifer o welliannau Llywodraeth y DU i ddarpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'r cynnig yn cyfeirio at nifer o ddarpariaethau perthnasol, sef adrannau 8 a 9 ar y pŵer cyffredinol i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru sy'n ymwneud â chodi ffioedd, ac adran 89 ar ddarparu cymorth a

community value in Wales—the community right to buy. This legislative consent motion is placed before the Assembly today for approval.

Rhodri Glyn Thomas: Cyfeiriodd y Gweinidog at y Bil seneddol a'r ffaith bod hwn yn gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol. A ydych yn cytuno bod y modd y mae'r Llywodraeth wedi bod yn newid y Bil seneddol hwn ar ei daith drwy San Steffan yn dangos ei fod yn Fil sydd wedi ei eirio'n wael iawn, bod y proses craffu wedi bod yn anodd iawn o ganlyniad, ac nad yw'r amserlen wedi caniatáu rhyw lawer o amser i ni drafod y materion sy'n berthnasol i Gymru? Mae nifer o faterion yn y Bil seneddol sy'n hynod o berthnasol i Gymru, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â phŵer dros ynni. Estynnais wahoddiad i'r Prif Weinidog ychydig wythnosau yn ôl. Yr oedd Jonathan Edwards wedi sicrhau byddai Gweinidogion San Steffan yn hapus iawn i drafod y materion hyn gydag ef. Yr wyf yn awr yn estyn yr un gwahoddiad i chi drafod y materion hyn gyda'r Gweinidogion priodol yn San Steffan. Yr wyf yn siŵr byddai Jonathan yn hapus iawn i drefnu'r cyfarfod hwnnw ichi.

Hefyd, mae'r mater hollbwysig ynglŷn â'r cyfrif refeniw tai, a'r cynllun cymhorthdal yn benodol, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ad-dalu rhyw £80 miliwn y flwyddyn i'r Trysorlys. Nid yw hyn yn digwydd yn Lloegr, ond mae'n digwydd yng Nghymru. Unwaith eto, mae hon yn rhan hollbwysig o'r Bil y dylem fod yn ei thrafod yn y fan hon.

Gan droi at y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol sydd o'm blaenau'r prynhawn yma, fel yr ydych wedi ei ddweud, mae'r materion pwysig yn ymwneud yn benodol â'r awdurdodau tân ac achub. Maent yn caniatáu pwerau ychwanegol yn y maes hwn, yn benodol y pŵer i godi tâl am y gwasanaethau hyn. Weinidog, a yw'n fwriad gennyh i gyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar y pŵer hwn i godi tâl, ynteu a fydd yn fater i'r awdurdodau unigol benderfynu ar y taliadau hyn? Pa gynllun monitro yr ydych yn bwriadu ei weithredu fel Llywodraeth i sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu

chyngor mewn perthynas â thir o werth cymunedol yng Nghymru—hawl y gymuned i brynu. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad heddiw i'w gymeradwyo.

Rhodri Glyn Thomas: The Minister made reference to the parliamentary Bill and the fact that this is a supplementary legislative consent motion. Do you agree that the way that the Government has been changing this parliamentary Bill on its journey through Westminster demonstrates that it is a Bill that has been worded very poorly, that the scrutiny process has been very difficult as a result of that, and that the timetable has not allowed a great deal of time for us to discuss the issues that are relevant to Wales? There are a number of issues in the parliamentary Bill that are very relevant to Wales, especially those concerning powers over energy. I extended an invitation to the First Minister a few weeks ago. Jonathan Edwards had ensured that Westminster Ministers would be more than happy to discuss these issues with him. I now extend the same invitation to you to discuss these issues with the appropriate Ministers in Westminster. I am sure that Jonathan would be more than happy to arrange that meeting on your behalf.

There is also the crucial issue of the housing revenue account, and specifically the subsidy scheme, which will mean that local authorities in Wales will repay some £80 million per annum to the Treasury. This does not happen in England, but it happens in Wales. Once again, this is a crucially important part of the Bill that we should be discussing here.

In turning to the supplementary legislative consent motion before us this afternoon, as you have mentioned, the important issues relate specifically to fire and rescue authorities. They allow additional powers in this area, particularly the power to charge for these services. Is it your intention, Minister, to put national guidelines in place regarding this power to charge, or will it be a matter for the individual authorities to decide on these charges? What monitoring scheme do you intend to implement as a Government to ensure that these new powers are implemented consistently throughout Wales?

gweithredu ledled Cymru mewn modd cyson? Mae'r gallu i godi tâl wedi bod ar gael ers Deddf 2004. I ba raddau mae'r pŵer hwn wedi ei weithredu yng Nghymru ers 2004 a pha awdurdodau sydd wedi ei weithredu?

Mae ail ran y cynnig yn ymwneud ag asedau o werth i'r gymuned, ac yn benodol â'r grwpiau buddiannau cymunedol. Sut yn union yr ydych yn diffinio 'grwpiau buddiannau cymunedol'? A wnewch sicrhau y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn derbyn y math o gyllid fydd ei angen arnynt er mwyn gwireddu'r hyn a geir yn y cynnig hwn o ran y grwpiau cymunedol hyn? Yr ydym oll am eu cefnogi, ond mae mater ynglŷn â chyllid awdurdodau lleol sy'n codi yn sgîl hyn.

Carl Sargeant: I thank Rhodri Glyn for his comments. I note his concerns regarding the progress of the Localism Bill in Westminster, but that is a matter for Westminster and not for me.

Turning to today's legislative consent motion in detail and the issues relating to the fire and rescue authorities, the general power of competence for FRAs will allow them the freedom to do whatever they consider appropriate to achieve a beneficial outcome for the emergency services. You are quite right to say that the power to charge has existed in the past, but this Bill provides an opportunity to make slight changes. The core functions of the fire and rescue services are fire safety, firefighting, rescue and protection in relation to road traffic accidents and other emergencies specified by Order of the Minister. They remain processes whereby no charges will be placed upon a person. However, these powers will give fire and rescue authorities the opportunity to enter into joint ventures with other emergency service providers and joint commercial ventures to develop redundant fire station buildings and so on. It will give them greater flexibility to deliver for their communities.

On section 89 regarding provision and

The power to charge has been available since the 2004 Act. To what extent has this power been used in Wales since 2004 and which authorities have done so?

The second part of this motion relates to assets of community value, and specifically community interest groups. How exactly would you define a 'community interest group'? Will you ensure that local authorities in Wales will have the kind of funding that they will need to achieve what is contained within this proposal in terms of these community groups? We all want to support them, but there is an issue of funding for local authorities that arises as a result.

Carl Sargeant: Diolch i Rhodri Glyn am ei sylwadau. Nodaf ei bryderon ynghylch datblygiad y Bil Lleoliaeth yn San Steffan, ond mae hynny'n fater i San Steffan ac nid i mi.

Gan droi at y cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw yn fanwl a'r materion sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub, bydd y pŵer cyffredinol o ran cymhwysedd awdurdodau tân ac achub yn rhoi'r rhyddid iddynt wneud beth bynnag y maent yn ystyried yn briodol i sicrhau canlyniad buddiol ar gyfer y gwasanaethau brys. Rydych yn llygad eich lle i ddweud bod y pŵer i godi ffioedd wedi bodoli yn y gorffennol, ond mae'r Bil hwn yn gyfle i wneud mân newidiadau. Swyddogaethau craidd y gwasanaethau tân ac achub yw diogelwch tân, ymladd tân, achub a diogelwch mewn perthynas â damweiniau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill a bennir drwy Orchymyn y Gweinidog. Mae'r rheini yn parhau i fod yn wasanaethau lle na fydd ffi yn cael ei godi ar bobl. Fodd bynnag, bydd y pwerau hyn yn rhoi'r cyfle i awdurdodau tân ac achub fynd i mewn i fentrau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau brys eraill a mentrau masnachol ar y cyd i ddatblygu adeiladau gorsafoedd tân segur, ac yn y blaen. Bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt gyflawni ar ran eu cymunedau.

O ran adran 89 ynghylch darpariaeth a

assistance for community groups, the community right to buy is intended to provide new powers to communities to help them to save local facilities and buildings that offer potential for community use. These buildings could include the local shop or village pub, disused factory or school. County councils and county borough councils in Wales will have the right to identify the property assets that they feel are of particular value. This legislative consent motion will place a power, not a duty, on the Minister, so funding will be around the power to give and seek advice, as opposed to placing a duty on the relevant Minister.

I hope that helps to answer some of the questions that were raised and I hope that the motion will be approved by Members.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg Supplementary Legislative Consent Motion: Education Bill

Cynnig NNDM4731 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NNDM4660, y darpariaethau ychwanegol hynny a gyflwynwyd i'r Bil Addysg ynghylch ffioedd am fwrdd a llety mewn Academïau byrddio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I move the motion.

Simon Thomas: Although the supplementary legislative consent motion has been moved formally, I have one or two

chymorth ar gyfer grwpiau cymunedol, bwriad hawl y gymuned i brynu yw darparu pwerau newydd i gymunedau i'w helpu i achub cyfleusterau ac adeiladau lleol sydd â photensial ar gyfer defnydd cymunedol. Gallai'r adeiladau hyn gynnwys y siop leol neu dafarn y pentref, hen ffatri neu ysgol. Bydd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru'r hawl i nodi'r asedau eiddo maent yn teimlo sydd o werth penodol. Bydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn rhoi pŵer, nid dyletswydd, ar y Gweinidog, felly fe fydd arian ynghlwm wrth y pŵer i roi a gofyn am gyngor, yn hytrach na gosod dyletswydd ar y Gweinidog perthnasol.

Rwy'n gobeithio bod hynny wedi ateb rhai o'r cwestiynau a godwyd ac rwy'n gobeithio y bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo gan yr Aelodau.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, rwy'n datgan bod y cynnig wedi'i dderbyn, felly.

Motion NNDM4731 Leighton Andrews

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that, in addition to the provisions referred to in motion NNDM4660, those further provisions which have been brought forward in the Education Bill relating to charges for boarding and lodging at boarding Academies, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Cynigaf y cynnig.

Simon Thomas: Er bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol wedi cael ei gynnig yn ffurfiol, mae gennyf un neu ddau o bwyntiau

points that I wish to draw to the Minister's attention. First, we should note in passing that we could have dealt with this in committee, if we had the committee structure and our new Standing Orders up and running. However, it is here before the whole Assembly, so we need to deal with it.

Although this can be quite a technical matter, it is important to those families that it affects. For those who have to use private sector or voluntary sector specialist boarding school services, particularly if they have a child on the autistic spectrum who needs a specific specialist service that is not available from their local authority, we need to ensure that that service is still available and will be paid for by the local authority when it is provided for educational reasons. The purpose of this supplementary motion is to ensure that the payments continue and that local authorities cannot wriggle out of their responsibility for supporting children who need this specialist care, even when that care is provided outside Wales. We are perhaps more familiar with this happening in our health service, but it also happens in the education service in specific circumstances, when the right support and education for children who have specific special needs is not available in Wales.

In the past, local authorities have tried hard not to pay to cover the boarding costs for such children. I have dealt with several constituency cases along these lines when I was at a different place, when I had to fight for local authorities to pay to support children in such circumstances. This legislative consent motion merely enables the continuation of the present circumstances, which I welcome. However, will the Minister give an undertaking to the Assembly that the other powers that he has under this legislative consent motion and in general will not be used to change the current circumstances? That is, will the duty on local authorities to pay for boarding for children in special educational establishments, where required as part of their statement of educational needs, continue to be a policy of this Government?

yr hoffwn dynnu sylw'r Gweinidog atynt. Yn gyntaf, dylem nodi y gallem fod wedi delio â hyn yn y pwyllgor, pe bai ein strwythur pwyllgorau a'n Rheolau Sefydlog newydd ar waith. Fodd bynnag, mae yma gerbron y Cynulliad cyfan, felly mae angen i ni ddelio ag ef.

Er y gall fod yn fater eithaf technegol, mae'n bwysig i'r teuluoedd y mae'n effeithio arnynt. Ar gyfer y rhai sy'n gorfod defnyddio'r sector preifat neu wasanaethau ysgol breswyl arbenigol yn y sector gwirfoddol, yn enwedig os oes ganddynt blentyn ar y sbectrwm awtistig sydd angen gwasanaeth arbenigol penodol nad yw ar gael gan eu hawdurdod lleol, mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn dal i fod ar gael ac y bydd yr awdurdod lleol yn talu amdano pan fydd yn cael ei ddarparu am resymau addysgol. Diben y cynnig atodol hwn yw sicrhau bod y taliadau yn parhau ac na all awdurdodau lleol sleifio allan o'u cyfrifoldeb i gefnogi plant sydd angen y gofal arbenigol hwn, hyd yn oed pan fydd y gofal yn cael ei ddarparu tu allan i Gymru. Rydym yn fwy cyfarwydd â hyn yn digwydd yn ein gwasanaeth iechyd, efallai, ond mae hefyd yn digwydd yn y gwasanaeth addysg mewn amgylchiadau penodol, pan na fydd y cymorth a'r addysg briodol ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig penodol ar gael yng Nghymru.

Yn y gorffennol, mae awdurdodau lleol wedi ymdrechu'n galed i beidio â thalu am gostau preswyl ar gyfer plant o'r fath. Rwyf wedi ymdrin â sawl achos tebyg yn fy etholaeth pan oeddwn mewn lle gwahanol, pan oedd yn rhaid i mi ymladd i gael awdurdodau lleol i dalu am gefnogi plant mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn galluogi parhad yr amgylchiadau presennol yn unig, ac fe groesawaf hynny. Fodd bynnag, a wnaiff y Gweinidog roi ymrwymiad i'r Cynulliad na fydd y pwerau eraill sydd ganddo o dan y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac yn gyffredinol yn cael eu defnyddio i newid yr amgylchiadau presennol? Hynny yw, a fydd y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i dalu am breswyl ar gyfer plant mewn sefydliadau addysgol arbennig, lle mae'n angenrheidiol fel rhan o'u datganiad o anghenion addysgol, yn parhau i fod yn bolisi gan y Llywodraeth

hon?

Leighton Andrews: I welcome Simon Thomas to his new role as the education spokesperson for his party. I give him the assurance that he was seeking in respect of the final issue that he raised. We do not intend to make changes in policy at our end; this is simply a legislative consent motion because the Education Bill that is before Parliament addresses areas that fall within our legislative competence.

Leighton Andrews: Croesawaf Simon Thomas i'w rôl newydd fel llefarydd addysg ei blaid. Rhoddaf y sicrwydd roedd yn ei geisio iddo mewn perthynas â'r mater olaf a gododd. Nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau mewn polisi ar ein hochr ni; mae hwn yn gynnig cydsyniad deddfwriaethol oherwydd bod y Bil Addysg sydd gerbron y Senedd yn mynd i'r afael â meysydd sy'n dod o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol.

4.00 p.m.

On a specific matter of process, we take legislative consent motions through the whole Assembly because we need the agreement of the whole Assembly to allow Westminster to legislate in areas where we have legislative competence. It would not be appropriate for matters such as this to be taken up in committee. I am satisfied that the proposals in the Bill are ones that we can endorse at the present time. As we understand it, no pupils currently benefit from the policy, and the State Boarding Schools' Association has stated that it is not aware of any fees being remitted since the 1990s. However, we believe that the policy should be in place and that local authorities should be clear about their responsibilities under the legislation. Therefore, I consider it to be appropriate to deal with these provisions within the Education Bill in Westminster. They are minor changes and this enables us to put the provisions in place.

Ar fater penodol o broses, rydym yn cymryd cynigion cydsyniad deddfwriaethol drwy'r Cynulliad cyfan oherwydd bod angen cytundeb y Cynulliad cyfan i ganiatáu i San Steffan ddeddfu mewn meysydd lle mae gennym gymhwysedd deddfwriaethol. Ni fyddai'n briodol i faterion fel hyn gael eu trafod mewn pwyllgor. Rwy'n fodlon bod y cynigion yn y Bil yn rhai y gallwn eu hategu ar hyn o bryd. O'r hyn rydym ni'n ei ddeall, nid oes unrhyw ddisgybl ar hyn o bryd yn elwa o'r polisi, ac mae Cymdeithas Ysgolion Preswyl y Wladwriaeth wedi datgan nad yw'n ymwybodol o unrhyw ffioedd a drosglwyddwyd ers y 1990au. Fodd bynnag, credwn y dylai'r polisi fod yn ei le ac y dylai awdurdodau lleol fod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth. Felly, rwyf o'r farn ei fod yn briodol i ymdrin â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil Addysg yn San Steffan. Mân newidiadau ydynt, ac mae hyn yn ein galluogi i roi'r darpariaethau ar waith.

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, rwy'n datgan y derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Comisiwn Bevan The Bevan Commission

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Nick Ramsay, gwelliant 3 yn enw Peter Black a gwelliant 4 yn enw

The Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Nick Ramsay, amendment 3 in the name of Peter

Jocelyn Davies.

Black and amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

Cynnig NNDM4730 Jane Hutt

Motion NNDM4730 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. yn croesawu adroddiad Comisiwn Bevan '2008-2011 NHS Wales: Forging a better future' a

1. welcomes the Bevan Commission report '2008-2011 NHS Wales: Forging a better future' and

2. yn nodi'r dadleuon sydd ynddo o blaid:

2. notes the case it makes to:

a) cydnabod yr heriau anodd sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol;

a) recognise the tough challenges that are facing the NHS in the future;

b) cefnogi newidiadau i wasanaethau sy'n hanfodol er mwyn diogelu dyfodol y GIG;

b) support service changes essential to secure the future of the NHS;

c) cefnogi camau gweithredu yn y maes clinigol i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a roddir i gleifion; a

c) back clinically led action to improve safety and quality of care of patients; and

d) creu gwir bartneriaeth gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod yr ethos a oedd yn sail i sefydlu'r GIG yng Nghymru yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

d) create a genuine partnership with the public to ensure the founding ethos of the NHS in Wales is maintained in the future.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiau y cynnig.

I welcome the report, 'NHS Wales: Forging a better future'. First, I welcome the emphasis that it places on the words and intentions of Aneurin Bevan. He, more than anyone, is responsible for the national health service, which is so important to us all and so clearly cherished by us all. I see him not through a romantic haze, but as a man of principle and a fighter for decent standards for all. The report quotes him as saying that the NHS is

Croesawaf yr adroddiad, 'GIG Cymru: Ffurio dyfodol gwell'. Yn gyntaf, croesawaf y pwyslais y mae'n ei roi ar eiriau a bwriadau Aneurin Bevan. Ef, yn anad neb, sy'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd gwladol, sydd mor bwysig i ni gyd, ac a gaiff ei werthfawrogi gan bob un ohonom. Nid wyf yn ei weld drwy gwmwl rhamantus, ond yn ddyn egwyddorol ac yn ymladdwr dros safonau gweddus i bawb. Mae'r adroddiad yn ei ddyfynnu yn dweud bod y GIG yn

'a triumphant example of the superiority of collective action and public initiative applied to a segment of society where commercial principles are seen at their worst.'

esiampl fuddugoliaethus o ragoriaeth gweithredu ar y cyd a blaengaredd cyhoeddus yn cael eu rhoi ar waith mewn rhan o gymdeithas lle gwelir egwyddorion masnachol ar eu gwaethaf.

He changed uncounted lives for the better. In the sixtieth year of the NHS, the Bevan Commission was set up by my predecessor as an external source of independent advice to

Fe newidiodd sawl bywyd er gwell. Yn y flwyddyn pan roedd y GIG yn 60 oed, sefydlwyd Comisiwn Bevan gan fy rhagflaenydd fel ffynhonnell gynghori allanol

her. Its members are notable for their expertise and breadth of understanding of the world of health and health services. I place on record my thanks to every one of the members of the commission. They were drawn from Wales, England, Scotland and the United States, though their experience encompasses many other countries. They are responsible for a formidable body of research and publications. The report addresses a wide range of issues. The commission assessed the current position of health and health services in Wales in several ways against the founding principles of the NHS, their knowledge of other systems and cutting-edge thinking around the world.

a oedd yn annibynnol arni. Mae ei aelodau yn nodedig am eu harbenigedd ac ehangder eu dealltwriaeth o fyd iechyd a gwasanaethau iechyd. Hoffwn gofnodi fy niolch i bob un o aelodau'r comisiwn. Maent yn dod o Gymru, Lloegr, yr Alban a'r Unol Daleithiau, er bod eu profiad yn cwmpasu llawer o wledydd eraill. Maent yn gyfrifol am gorff aruthrol o waith ymchwil a chyhoeddiadau. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion. Asesodd y comisiwn sefyllfa bresennol iechyd a'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd yn erbyn egwyddorion sylfaenol y GIG, eu gwybodaeth am systemau eraill a dulliau arloesol o feddwl o amgylch y byd.

Daeth Peter Black i'r Gadair am 4.02 p.m.

Peter Black took the Chair at 4.02 p.m.

The report offers a test that can be applied in assessing the performance of the NHS in Wales: that it should meet the needs of Wales, but also compare with the best anywhere in the world. At present, the NHS in Wales is travelling a different road to health systems in many other countries. In particular, unlike the NHS in England, our NHS is avoiding the marketplace and competition, in favour of an integrated system where the assets of the health service are owned by its Government and its people. We aim to build on that platform through implementing our manifesto. The NHS in Wales is on firm foundations and the way forward is clear.

Mae'r adroddiad yn cynnig prawf y gellir ei ddefnyddio wrth asesu perfformiad y GIG yng Nghymru: y dylai ddiwallu anghenion Cymru, wrth gymharu â'r gorau unrhyw le yn y byd. Ar hyn o bryd, mae'r GIG yng Nghymru yn teithio ar hyd ffordd wahanol i systemau iechyd mewn llawer o wledydd eraill. Yn benodol, yn wahanol i'r GIG yn Lloegr mae ein GIG ni'n osgoi'r farchnad a chystadleuaeth, o blaid system integredig lle mae asedau'r gwasanaeth iechyd yn eiddo i'r Llywodraeth a'i phobl. Ein nod yw adeiladu ar y llwyfan hwnnw drwy weithredu ein maniffesto. Mae'r GIG yng Nghymru ar sylfeini cadarn ac mae'r ffordd ymlaen yn glir.

We have made good progress in many areas in recent years. One is that the percentage of Welsh men surviving over a year after being diagnosed with cancer has overtaken that in Scotland and Northern Ireland. Measured performances in areas such as managing stroke patients can also be shown to have greatly improved, based on early success in eliminating pressure sores in some hospitals and substantially cutting healthcare-acquired infections in all local health boards. There is now a target for eliminating these across Wales.

Rydym wedi gwneud cynnydd da mewn llawer o feysydd yn y blynyddoedd diwethaf. Un yw bod canran y Cymry sydd wedi goroesi dros flwyddyn ar ôl cael diagnosis o ganser wedi goddiweddyd y ffigur yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellir dangos hefyd fod mesurau perfformiad mewn meysydd fel rheoli cleifion strôc wedi gwella yn sylweddol, yn seiliedig ar lwyddiant cynnar wrth ddileu briwiau pwysau mewn rhai ysbytai a thorri cyfraddau heintiau a gafwyd wrth gael gofal iechyd yn sylweddol yn yr holl fyrddau iechyd lleol. Mae targed yn bodoli bellach ar gyfer dileu'r rhain ledled Cymru.

However, I am well aware that there are areas where we do not yet match the best, and we

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod meysydd lle nad ydym, hyd yma, yn cyd-

need to tackle those areas. We have, for example, indicated our firm intention to continue to drive up the performance of the ambulance service. We have targeted a number of areas for urgent improvement and I will expect to see delivery following on from that. Yesterday, I met with the senior management of NHS Wales to discuss the Government's vision for the future of the NHS in Wales and to spell out clearly the challenges and very real opportunities that lie ahead. However well we are doing, or might do in the future, it is clear from the report that we cannot afford to be complacent. There are tough challenges ahead—indeed, the report uses that word over 20 times. In the longer term, there is a need to improve health in every age group and community and reduce health inequalities. In the short term, there is the need to balance the books, while protecting and promoting high-quality services. That means that we have to make changes, and the report makes the case for change. There is no connection between the documents, but all Members here will have separately received a paper from the Welsh NHS Confederation entitled 'Prescription for Health 2011', which reinforces the case for change. In improving health for all we need to act earlier and more decisively. We need to help people protect and improve their health and make services more accessible.

Wales has a strong network of services, but there is still too much poor health in Wales. Inequality is morally unacceptable when it could be significantly reduced by better-targeted services. Local health boards need to ensure that action beyond traditional public health initiatives is taken to tackle this. Local action plans must be delivery-focused and rigorously followed up, with transparent reporting on how health inequalities are narrowing. Good primary care must provide strong continuing support in people's lives, with the role of pharmacists strengthened in line with emerging policy. I also want to see people with specific problems such as cancer, mental health issues and chronic health problems having personalised care arrangements. Palliative care needs to be strengthened, with new annual check-ups that

fynd â'r gorau, ac mae angen inni fynd i'r afael â'r meysydd hynny. Er enghraifft, rydym wedi nodi ein bwriad cadarn i barhau i wella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Rydym wedi targedu nifer o feysydd i'w gwella ar frys a byddaf yn disgwyl gweld cyflawni yn dilyn ymlaen o hynny. Ddoe, cefais gyfarfod ag uwch reolwyr GIG Cymru i drafod gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer dyfodol y GIG yng Nghymru ac i nodi'n glir yr heriau a'r cyfleoedd real sydd o'n blaenau. Waeth pa mor dda yr ydym yn ei wneud, neu y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol, mae'n glir o'r adroddiad nad oes lle gennym i fod yn hunanfodlon. Mae heriau anodd o'n blaenau—yn wir, mae'r adroddiad yn defnyddio y gair hwnnw dros 20 o weithiau. Yn y tymor hwy, mae angen gwella iechyd ym mhob grŵp oedran a chymuned a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Yn y tymor byr, mae angen mantoli'r cyfrifon, tra'n diogelu a hyrwyddo gwasanaethau o safon uchel. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni wneud newidiadau, ac mae'r adroddiad yn gwneud yr achos dros newid. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y dogfennau, ond bydd yr holl Aelodau yma wedi derbyn papur ar wahân gan Gydffederasiwn GIG Cymru, sy'n dwyn y teitl 'Prescription for Health 2011', sy'n atgyfnerthu'r achos dros newid. Wrth wella iechyd i bawb mae angen inni weithredu'n gynharach ac yn fwy pendant. Mae angen inni helpu pobl i ddiogelu a gwella eu hiechyd a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch.

Mae gan Gymru rwydwaith gryf o wasanaethau, ond mae gormod o salwch yng Nghymru. Mae anghydraddoldeb yn foesol annerbyniol pan allai gael ei leihau'n sylweddol drwy dargedu gwasanaethau'n well. Mae angen i fyrddau iechyd lleol sicrhau bod camau y tu hwnt i fentrau iechyd cyhoeddus traddodiadol yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â hyn. Rhaid i gynlluniau gweithredu lleol ganolbwyntio ar gyflawni, a mynd i'r afael â hynny'n drylwyr, gydag adroddiadau tryloyw ar sut mae anghydraddoldebau iechyd yn culhau. Rhaid i ofal sylfaenol da ddarparu cymorth cadarn parhaus ym mywydau pobl, gan gryfhau rôl fferyllwyr yn unol â pholisi sy'n dod i'r amlwg. Rwyf hefyd am weld pobl sydd â phroblemau penodol fel canser, problemau iechyd meddwl a phroblemau iechyd cronig

help to quickly pick up issues requiring action among the over-50s.

I firmly believe that the NHS's greatest strength is its staff. We must all give them the support that they need. Doing all that requires us to shift resources, cutting out waste and making wise and productive investments. Yes, that will mean that services need to change. We will need to consolidate specialist care and localised generalist care. We must accept that services and buildings cannot be frozen in time. We have to create services that we can sustain into the future. What I can promise, right at the start of my appointment, is that where changes are proposed, there will be an open book on the reasons why, along with full engagement with local communities. We will assess the effectiveness of change in terms of the outcomes that we achieve. I accept the commission's challenge to compare with the best anywhere in the world. We will start—

Andrew R.T. Davies: One of the key points for staff, which you will understand, is career development, and the ability for medical staff, in particular, to develop their careers in the NHS. It has been a bugbear for the unions that no time has been put aside by local health boards. Will you commit at the outset of your ministerial appointment to make sure that there are sufficient career development opportunities for staff in the Welsh NHS? That in itself would improve services dramatically.

Lesley Griffiths: I have committed to meeting with all the unions and they are sending me their agendas. If that is one of their issues, it will obviously be raised with me.

We will start monitoring and publishing outcome data for Wales, showing how they compare with other countries. I know that we can improve those outcomes, because we have now developed an excellent, clinically led approach to handling quality and safety issues. I will protect and develop that approach. However, health outcomes also

yn cael trefniadau gofal personol. Mae angen cryfhau gofal lliniarol, gydag archwiliadau blynyddol newydd sy'n helpu i ganfod problemau sydd angen gwneud rhywbeth yn eu cylch ymysg pobl sydd dros 50 oed.

Credaf yn gryf mai cryfder mwyaf y GIG yw ei staff. Mae'n rhaid i ni i gyd roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt iddynt. Er mwyn gwneud hynny, mae gofyn inni symud adnoddau, torri allan gwastraff a gwneud buddsoddiadau doeth a chynhyrchiol. Ydy, mae hynny'n golygu y bydd angen i wasanaethau newid. Bydd angen inni atgyfnerthu gofal arbenigol a gofal cyffredinol lleol. Rhaid inni dderbyn na all gwasanaethau ac adeiladau gael eu rhewi mewn amser. Rhaid inni greu gwasanaethau y gallwn eu cynnal yn y dyfodol. Yr hyn y gallaf ei addo, ar ddechrau fy mhenodiad, yw lle cynigir newidiadau, bydd llyfr agored ar y rhesymau dros hynny, a bydd ymgysylltiad llawn â chymunedau lleol. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y newid o ran y canlyniadau a gawn. Rwy'n derbyn her y comisiwn i gymharu gyda'r gorau unrhyw le yn y byd. Byddwn yn dechrau—

Andrew R.T. Davies: Un o'r pwyntiau allweddol ar gyfer staff, y byddwch yn deall, yw datblygu gyrfa a gallu staff meddygol, yn benodol, i ddatblygu eu gyrfaedd yn y GIG. Mae wedi bod yn destun cwyno i'r undebau nad oes amser wedi ei neilltuo gan fyrrdau ieuchyd lleol. A wnewch chi ymrwymo, ar ddechrau eich penodiad gweinidogol, i wneud yn siŵr bod cyfleoedd datblygu gyrfa digonol ar gyfer staff yn y GIG yng Nghymru? Byddai hynny, ynddo'i hun, yn gwella gwasanaethau yn sylweddol.

Lesley Griffiths: Yr wyf wedi ymrwymo i gwrdd â'r holl undebau ac maent yn anfon eu hagenda'u ataf. Os yw hynny'n un o'u materion, yn amlwg, bydd yn cael ei godi gyda mi.

Bethan Jenkins, Kirsty Williams, Ann Jones, and Angela Burns have asked to make a contribution to this debate, and I have consented.

Bethan Jenkins: I thank Jocelyn Davies for bringing the subject of this short debate to our attention. It is vital for us to discuss these issues in Wales, because our young people are growing up too fast, and the sexualisation of our young people is leading to other problems. I see this issue from the point of view of linking the sexualisation of young people with eating disorders, not only in relation to young women but also with young

yn Llywodraeth yr Alban, i sefydlu meysydd a allai fod yn arwyddocaol i waith ei hadran yn y dyfodol? Yn olaf, yng ngoleuni'r farn anghyson, mae'n debyg, ar y mater hwn, Ddirprwy Weinidog, a fyddwch chi'n cwrdd â Chomisiynydd Plant Cymru i drafod y materion hyn gydag ef? Rwy'n gwerthfawrogi annibyniaeth y comisiynydd ar y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, ond efallai y byddai'n ystyried cynnal ei ymchwiliad ei hun ar y pwysau a roddir ar ein pobl ifanc a'n plant, gan gynnwys rhywioli a masnacheiddio, ac yn gwneud argymhellion a allai ddod o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Wedi'r cyfan, mae adroddiad Bailey yn anwybyddu bechgyn i raddau helaeth, ac nid yw'n gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer ysgolion ac addysg.

Gallai rhai pobl feddwl y gallai cael adroddiad Cymreig newydd fod yn achos o ailddyfeisio'r olwyn yng ngoleuni'r ymchwil, ond mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon am adroddiad Bailey. Yn wir, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi'i ddisgrifio fel cyfle a gollwyd, ac yn pryderu'n arbennig am y ffaith nad oedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn methu wrth archwilio'r cysylltiad rhwng rhywioli a cham-drin yn y cartref. Yn anad dim, gobeithiaf y bydd fy nghydweithwyr yn cefnogi ymdrechion i gael gwell dealltwriaeth o'r pwysau y mae pobl ifanc yng Nghymru yn ei wynebu, ac y byddant yn rhoi i ni ac i'r Dirprwy Weinidog y gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn rhoi i'r bobl ifanc hynny y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae Bethan Jenkins, Kirsty Williams, Ann Jones ac Angela Burns wedi gofyn i gael cyfrannu at y ddadl hon, ac rwyf wedi cydsynio i hynny.

Bethan Jenkins: Diolch i Jocelyn Davies am ddod â phwnc y ddadl fer hon i'n sylw. Mae'n hanfodol inni drafod y materion hyn yng Nghymru, oherwydd mae ein pobl ifanc yn tyfu i fyny yn rhy gyflym, ac mae rhywioli ein pobl ifanc yn arwain at broblemau eraill. Rwy'n gweld y mater hwn o safbwynt y cysylltiad rhwng rhywioli pobl ifanc ac anhwylderau bwyta, nid yn unig o ran menywod ifanc ond dynion ifanc hefyd.

men. That is why I have been campaigning for some time for self-esteem lessons to take place in our schools. That has already been instigated by the Dove Foundation in many schools across Wales and the rest of the UK, in order to give young people the confidence to question the images in our magazines and on our screens, for example by looking at how they have been airbrushed and at the size of the models that are used, so that they do not feel that they have to aspire to look like those images and can be confident in their own bodies.

We have heard of late about the potential for more regulation in this area, and I commend the UK Government's effort in looking at it. However, it is a difficult area of work. Research carried out by beat Cymru showed that young people are more likely to have eating disorders as a result of looking at images in magazines, such as *Closer* and *Heat*. Regulating magazines, without putting them on the top shelf as is done with other magazines, will be difficult. That is not to say that I am against it, but we need to reflect on the realities of everyday life and the fact that young people, even on their trip to school, will see billboards and other advertisements that will influence how they perceive themselves.

A startling aspect of the debate is the fact that, as the *Daily Mirror* reported at the weekend, a Mini Miss International competition will be held in London in October, as well as a Little Man International competition, for children as young as two years old. That is abysmal, and people should campaign against such competitions taking place.

Again, I thank Jocelyn for her efforts, and I urge the Deputy Minister to communicate with organisations such as beat Cymru, which are doing a lot of commendable work in Wales.

Kirsty Williams: I begin by thanking and congratulating Jocelyn on her thought-provoking contribution to this afternoon's session and her long-standing commitment and work in this area. As the mother of three

Dyna pam rwyf wedi bod yn ymgyrchu ers peth amser i gael gwersi hunan-barch yn ein hysgolion. Mae'r rheini eisoes wedi eu cychwyn gan y Dove Foundation mewn nifer o ysgolion ledled Cymru a gweddill y DU, er mwyn rhoi hyder i bobl ifanc i gwestiynu'r delweddau yn ein cylchgronau ac ar ein sgriniau, er enghraifft trwy edrych ar sut y maent wedi cael eu peintio â brwsh aer ac ar faint y modelau a ddefnyddir, fel nad ydynt yn teimlo fod yn rhaid iddynt anelu i edrych fel y delweddau hynny ac fel y gallant fod yn hyderus yn eu cyrff eu hunain.

Rydym wedi clywed yn ddiweddar am y potensial ar gyfer mwy o reoleiddio yn y maes hwn, a chanmolaf ymdrech Llywodraeth y DU i edrych ar hynny. Fodd bynnag, mae'n faes gwaith anodd. Dangosodd ymchwil a wnaethpwyd gan beat Cymru fod pobl ifanc yn fwy tebygol o gael anhwylderau bwyta o ganlyniad i edrych ar ddelweddau mewn cylchgronau, megis *Closer* a *Heat*. Mae rheoleiddio cylchgronau, heb eu rhoi ar y silff uchaf fel y gwneir gyda chylchgronau eraill, yn anodd. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud fy mod yn erbyn hynny, ond mae angen inni fyfyrion ar realiti bywyd bob dydd a'r ffaith bod pobl ifanc, hyd yn oed ar eu taith i'r ysgol, yn gweld hysbysfyrddau a hysbysebion eraill a fydd yn dylanwadu ar sut y maent yn ystyried eu hunain.

Un agwedd syfrdanol ar y ddaed hon yw'r ffaith, fel yr adroddodd y *Daily Mirror* dros y penwythnos, y bydd cystadleuaeth Mini Miss International yn cael ei chynnal yn Llundain ym mis Hydref, yn ogystal â chystadleuaeth Little Man International, ar gyfer plant mor ifanc â dwy flwydd oed. Mae hynny yn ofnadwy, a dylai pobl ymgyrchu yn erbyn caniatáu i'r fath gystadlaethau ddi-gwydd.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Jocelyn am ei hymdrechion, ac anogaf y Dirprwy Weinidog i gyfathrebu â sefydliadau megis beat Cymru, sy'n gwneud llawer o waith clodwiw yng Nghymru.

Kirsty Williams: Dechreuaf drwy ddiolch a llongyfarch Jocelyn ar ei chyfraniad sy'n peri inni feddwl y prynhawn yma a'i hymrwymiad a'i gwaith hirsefydlog yn y maes hwn. Fel mam i dair o ferched, rwy'n

girls, I am all too aware of the huge pressures that face young people growing up today.

I would like to concentrate on one particular aspect. Jocelyn referred to the Scottish work that showed that parents felt capable of making choices on behalf of their children about what they regarded as appropriate and inappropriate clothing. However, one of the issues that the Bailey report focuses on is that parents feel less well equipped for dealing with issues around the internet and modern technology. I am sure that many of us would agree that young people are much more knowledgeable about using such technology, and the report recommends that there should be greater regulation in this area at point of sale. I think that there is a role here for Government in being able to provide parents with better information as to how they can protect their children, if they deem it appropriate, from images via the internet, mobile phones or other mobile technology of that kind. In answering Jocelyn's questions about how she intends to respond to the Bailey review, I would like to know whether the Deputy Minister intends to discuss with the UK Government what we can do about point-of-sale choices for internet, computers and smartphones.

Ann Jones: Thank you for allowing me to speak for a minute in this though-provoking debate. Whenever we debate subjects like this, the Playboy bunny brand on clothing comes to mind, as do the horror stories that we hear of parents buying cosmetic surgery vouchers for children who have not yet reached their teens. So, we should consider first a ban on advertising those products in places where children will look. You may remember that I led a short debate before Christmas one year, and said that we should not be advertising big, expensive toys in the summer, in order to avoid the pressures of children being disappointed when Father Christmas brings them just the one present and not the sackful that they are expecting. So, there is a lot there that we really have to look at. There was a recent article in the *Guardian* by Libby Brookes, who asked some searching research about how we, as parents, grandparents or just members of society, want to tackle that. There is no doubt

ymwybodol iawn o'r pwysau enfawr sy'n wynebu pobl ifanc sy'n tyfu i fyny heddiw.

Hoffwn ganolbwyntio ar un agwedd benodol. Cyfeiriodd Jocelyn at y gwaith yn yr Alban a oedd yn dangos bod rhieni yn teimlo eu bod yn gallu gwneud dewisiadau ar ran eu plant ynghylch yr hyn yr ystyrir ganddynt yn ddillad priodol ac amhriodol. Fodd bynnag, un o'r materion y mae adroddiad Bailey yn canolbwyntio arno yw'r ffaith bod rhieni yn teimlo'n llai cymwys i ddelio â materion yn ymwneud â'r rhyngwrwd a thechnoleg fodern. Rwy'n siŵr y byddai llawer ohonom yn cytuno bod pobl ifanc yn llawer mwy gwybodus am ddefnyddio technoleg o'r fath, ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylid cael mwy o reoleiddio yn y maes hwn ar y pwynt gwerthu. Credaf fod rôl i'r Llywodraeth yma i ddarparu gwell gwybodaeth i rieni o ran sut y gallant amddiffyn eu plant, os ydynt o'r farn fod hynny'n briodol, rhag delweddu ar y rhyngwrwd, ffonau symudol neu dechnoleg symudol arall o'r math hwnnw. Wrth ateb cwestiynau Jocelyn ynglŷn sut y mae'n bwriadu ymateb i adolygiad Bailey, hoffwn wybod a yw'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu trafod â Llywodraeth y DU yr hyn y gallwn ei wneud ynglŷn â dewisiadau ar y pwynt gwerthu ar gyfer y rhyngwrwd, cyfrifiaduron a ffonau clyfar.

Ann Jones: Diolch i chi am ganiatáu imi siarad am funud yn y ddadl hon sy'n peri inni feddwl. Pryd bynnag y byddwn yn trafod pynciau fel hyn, mae'r brand Playboy o'r gwningen ar ddillad yn dod i'r meddwl, yn ogystal â'r straeon arswyd a glywn am rieni yn prynu talebau llawdriniaeth gosmetig ar gyfer plant nad ydynt eto wedi cyrraedd eu harddegau. Felly, dylem ystyried yn gyntaf gael gwaharddiad ar hysbysebu'r cynhyrchion hynny mewn mannau lle bydd plant yn eu gweld. Efallai y cofiwch imi arwain dadl fer cyn y Nadolig un flwyddyn, pan ddywedais na ddylem fod yn hysbysebu teganau mawr, drud yn yr haf, er mwyn osgoi'r pwysau ar blant o gael eu siomi pan fydd Siôn Corn yn dod ag un anrheg yn unig ac nid y sachaid yr oeddent yn ei ddisgwyl. Felly, mae llawer yno y mae gwir angen inni ei ystyried. Roedd erthygl ddiweddar yn y *Guardian* gan Libby Brookes, a ofynnodd rywfaint o ymchwil manwl am y ffordd yr ydym ni, fel rhieni, neiniau a theidiau neu

that the press will get behind those middle-class parents who will be able to articulate their views about whether children should be subjected to this, but what happens to those families from poorer communities where they do not have that articulation to be able to go forward? Like the sunbed issue, we see that girls, in particular, feel that they are not worthy unless they have a fantastic tan, but they do not realise what they are going to put their bodies through to get that tan. We need to use people like the popstar from Girls Aloud—I cannot remember her name—who stood up and said ‘No, I do not want a tan’. [*Interruption.*] That is not my era, I am afraid; I am still a fan of Elvis Presley and Cliff Richard, so I do not know—he has a tan as well, so I probably do not like him anymore. [*Laughter.*]

We have to look at those lower-income families who do not have that opportunity to be able to assist their children in growing up. The one thing that I would like us to do in all of this is to give those children the same life chances as those people who are able to go out there to direct their children. I would like to see them being able to say ‘No, this is not the way we want to go forward; we want our children to be children’. I would like to see that everyone will get the chance to do that, without having to suffer from peer pressure. Thank you once again, Jocelyn; it is a very interesting debate.

Angela Burns: Thank you, Jocelyn, for bringing this forward, because it is such an important topic. Deputy Minister, when you respond to this debate, I would like to hear your response to Jocelyn’s comments about looking at a Wales-wide investigation into the sexualisation of our children. I would particularly like to look at the question of sexualisation and money, or sexualisation and poverty—however you wish to look at it. If you want to buy your eight-year-old child a t-shirt and you do not want it to have all sorts of rubbish all over it, you are going to have to go to somewhere like Boden or Marks and Spencer, where you will have to spend between £10 and £20. You can go to a well-

aelodau o gymdeithas yn unig, eisiau mynd i’r afael â hynny. Nid oes amheuaeth y bydd y wasg yn gallu cefnogi’r rhieni dosbarth canol hynny a fydd yn gallu mynegi eu barn ynghylch a ddylid gorfodi hyn ar blant, ond beth sy’n digwydd i’r teuluoedd hynny mewn cymunedau tlotach nad oes ganddynt y gallu hynny i fwrw ymlaen? Fel mater y gwelyau haul, rydym yn gweld fod merched, yn arbennig, yn teimlo nad ydynt yn deilwng oni bai fod ganddynt liw haul gwych, ond nid ydynt yn sylweddoli yr hyn y maent yn ei wneud i’w cyrff wrth geisio cael y lliw haul hwnnw. Mae angen inni ddefnyddio pobl fel y seren bop honno o Girls Aloud—rwyf wedi anghofio’i henw—a wnaeth sefyll i fyny a dweud, ‘Na, nid wyf eisiau lliw haul’. [*Torri ar draws.*] Nid dyna yw fy nghyfnod, mae arnaf ofn; rwy’n dal i fod yn ffan o Elvis Presley a Cliff Richard, felly nid wyf yn gwybod—mae ganddo ef liw haul hefyd, felly mae’n debyg nad wyf yn ei hoffi bellach. [*Chwerthin.*]

Mae’n rhaid inni edrych ar y teuluoedd hynny sydd ar incwm is nad ydynt yn cael y cyfle i allu helpu eu plant i dyfu i fyny. Yr hyn yr hoffwn inni ei wneud yn hyn oll yw rhoi’r un cyfleoedd i’r plant hynny mewn bywyd â’r bobl sy’n gallu bod allan yno yn cyfeirio eu plant. Hoffwn eu gweld yn gallu dweud, ‘Na, nid dyma’r ffordd y dymunwn fynd yn ein blaenau; rydym am i’n plant fod yn blant’. Hoffwn weld pawb yn cael y cyfle i wneud hynny, heb orfod dioddef pwysau gan eu cyfoedion. Diolch i chi unwaith eto, Jocelyn; mae’n ddadl ddiddorol iawn.

Angela Burns: Diolch, Jocelyn, am ddod â’r pwnc hwn ger ein bron, oherwydd mae’n fater pwysig iawn. Ddirprwy Weinidog, pan fyddwch yn ymateb i’r ddadl hon, hoffwn glywed eich ymateb i sylwadau Jocelyn ynghylch ystyried ymchwiliad Cymru gyfan i rywioli ein plant. Hoffwn edrych yn benodol ar y cwestiwn o rywioli ac arian, neu rywioli a thlodi—pa bynnag ffordd y dymunwch edrych ar hyn. Os ydych chi eisiau prynu crys T i’ch plentyn wyth mlwydd oed heb bob math o sbwriel drosto, rhaid ichi brynu o rywle fel Boden neu Marks and Spender, lle fydd yn rhaid ichi wario rhwng £10 ac £20. Gallwch fynd i gadwyn archfarchnad adnabyddus sydd i’w gweld ledled Cymru ac

known supermarket chain that can be found throughout Wales and which makes billions of pounds in profits every year, and there, as soon as your child has reached the seven-year-old cut-off point—I have a six-year-old and an eight-year-old, so I know about this intimately—you find that all those cute little pinks have suddenly gone out of the window along with all the other nice clothes, and children are into a vastly different range of clothing. If you do not have very much money, and you need to buy a t-shirt for £5, there are not many other places that you can go, and your child perforce has to wear clothing that is completely inappropriate.

The Bailey report was interesting. I do not think that lads' mags are the problem, as most children are not tall enough to see what is on the top shelf. It is about what Lady Gaga wears on the cover of a comic for 14-year-olds being on the same shelf as a CBeebies comic. That is the kind of issue that we need to look at.

I will leave you with one comment, Deputy Minister. Unlike David Cameron and others, if the voluntary code recommended by Bailey does not work, I would want us to look at legislation. Our children are the future, and our future is what we allow our children to become. We should never, ever forget that.

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Diolchaf innau i Jocelyn am y cyfle i drafod y pwnc pwysig hwn. Mae'n bwnc yr wyf yn bersonol yn teimlo'n gryf iawn amdano.

To answer all of you—Jocelyn, Bethan, Kirsty, Ann and Angela—I need to take a wider view of childhood and an all-encompassing policy that we are developing for our children. As a Government, we are fully committed to supporting children and young people, to ensure that they have the best start in life and the opportunities to reach their full potential. In this regard, I am starting my response with your concluding comments, Jocelyn, as it is a very good place to start. Our approach continues to be underpinned by the seven core aims that are

sy'n gwneud biliynau o bunnoedd mewn elw bob blwyddyn, ac yno, cyn gynted ag y bydd eich plentyn yn cyrraedd y pwynt terfyn o fod yn saith mlwydd oed—mae gennyf blentyn sy'n chwe blwydd oed ac un sy'n wyth mlwydd oed, felly rwy'n gwybod am hyn yn iawn—fe welwch fod y dillad ciwt pinc wedi diflannu, ynghyd â'r holl ddillad neis arall, ac mae'r dewis ar gyfer y plant hynny yn wahanol iawn. Os nad oes gennych chi lawer o arian, ac mae angen ichi brynu crys T am £5, yna nid oes llawer o lefydd y gallwch fynd iddynt, ac mae'n anochel y bydd yn rhaid i'ch plentyn wisgo dillad sy'n gwbl amhriodol.

Roedd adroddiad Bailey yn ddi-ddorol. Nid wy'n credu mai cylchgronau i ddynion yw'r broblem, oherwydd nid yw'r rhan fwyaf o blant yn ddigon tal i weld beth sydd ar y silff uchaf. Mae'n ymwneud â'r hyn y mae Lady Gaga yn ei wisgo ar glawr comic ar gyfer plant 14 mlwydd oed, sydd ar yr un silff â chomic CBeebies. Dyna'r math o faterion y mae angen inni eu hystyried.

Byddaf yn eich gadael, Ddirprwy Weinidog, gydag un sylw. Yn wahanol i David Cameron ac eraill, os nad yw'r cod gwirfoddol a argymhellir gan Bailey yn gweithio, byddai arnaf eisiau inni edrych ar ddeddfwriaeth. Ein plant yw'r dyfodol, a'r dyfodol yw'r hyn yr ydym yn caniatáu i'n plant fod. Ni ddylem fyth, byth anghofio hynny.

The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas): I thank Jocelyn for the opportunity to debate this important subject. It is a topic that I personally feel very strongly about.

I ateb bob un ohonoch—Jocelyn, Bethan, Kirsty, Ann ac Angela—mae angen i mi gymryd golwg ehangach o blentynodod a pholisi hollgynhwysol yr ydym yn ei ddatblygu ar gyfer ein plant. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfleoedd i gyrraedd eu potensial llawn. Yn hyn o beth, rwyf yn dechrau fy ymateb gyda'ch sylwadau terfynol, Jocelyn, gan ei fod yn le da iawn i ddechrau. Mae ein dull yn parhau i fod yn seiliedig ar y saith

based on our commitment to the United Nations Convention on the Rights of the Child. As a result, I believe that we have made a positive difference to the lives of children and young people over the last few years. We continue to put children first, and I am sure that all of us will be aware that, in January this year, the Welsh Government passed the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. This groundbreaking Measure received Royal Approval on 16 March, and it will strengthen and build on our existing, unique rights.

At this point, I would refer to the briefing that we have all received from the National Society for the Prevention of Cruelty to Children, in which it talks about the rights-based approach. So, we have our existing, unique rights-based approach to policy for children and young people.

In Wales, we recognise just how important play is in childhood. Every child has the right to play; it is an essential part of growing up and vital to children's development and well-being. Wales has led the way in promoting play and in supporting play opportunities for children and young people. We believe that play is so important to all children in the development of their physical, social, mental, emotional and creative skills that society should seek every opportunity to support it and create an environment that fosters it. To take forward our belief in the importance of play, we have embedded play in our policy development, which is underpinned by the United Nations Convention on the Rights of the Child, article 31 of which states that it is the right of every child to relax and play, and to join in a wide range of cultural, artistic and other recreational activities.

We know that, for too many, childhood is blighted by poverty. Ann touched on this point. Living in poverty is another reason why some children grow up too fast, forced to deal with the harsh realities of life and deprived of some of the basic aspects of childhood that many of us take for granted. That is why we have made tackling child poverty the central aim of this Government.

nod craidd sy'n seiliedig ar ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ganlyniad, credaf ein bod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i roi plant yn gyntaf, ac rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom yn ymwybodol, ym mis Ionawr eleni, y bu i Lywodraeth Cymru basio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Derbyniodd y Mesur hwn, sy'n torri tir newydd, Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mawrth, a bydd yn cryfhau ac yn adeiladu ar ein hawliau presennol, unigryw.

Ar y pwynt hwn, cyfeiriai at y briff yr ydym i gyd wedi'i dderbyn oddi wrth y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, lle sonnir am y dull sy'n seiliedig ar hawliau. Felly, mae gennym ein dull sy'n seiliedig ar hawliau presennol ac unigryw i bolisi ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yng Nghymru, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw chwarae yn ystod plentynod. Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae; mae'n rhan hanfodol o dyfu i fyny ac yn hanfodol i ddatblygiad a lles plant. Mae Cymru wedi arwain y ffordd wrth hyrwyddo chwarae ac wrth gefnogi cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn credu bod chwarae mor bwysig i bob plentyn yn natblygiad eu sgiliau corfforol, cymdeithasol, meddyliol, emosiynol a chreadigol fel y dylai cymdeithas geisio pob cyfle i'w gefnogi a chreu amgylchedd sy'n ei feithrin. Er mwyn bwrw ymlaen â'n cred ym mhwystrwydd chwarae, rydym wedi cynnwys chwarae yn ein datblygiad polisi, sy'n cael ei ategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, lle nodir yn erthygl 31 hawl pob plentyn i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.

Rydym yn gwybod bod plentynod gormod o blant yn cael ei ddifetha gan dlodi. Cyffyrddodd Ann â'r pwynt hwnnw. Mae byw mewn tlodi yn rheswm arall pam y mae rhai plant yn tyfu i fyny yn rhy gyflym, yn cael eu gorfodi i ddelio â realiti llym bywyd a'u hamddifadu o rai o agweddau sylfaenol plentynod y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Dyna pam mai nod

canolog y Llywodraeth hon yw mynd i'r afael â thlodi plant.

5.15 p.m.

To support this aim, we have developed programmes such as Flying Start, Families First and integrated family support services. Flying Start is one particular initiative that demonstrates our commitment to giving children the best possible start in life. Evaluation shows that Flying Start is having a real and positive impact on children. When these children go to school, they are ready to learn and are more confident in mixing with other children. In addition, Flying Start encourages parents and carers to be involved in such activities with their children as a key element of good parenting, and to recognise the value of both indoor and outdoor play for the healthy development of their child. Parents have also reported improved confidence and a closer bond with their child following participation in the parenting elements of Flying Start. A positive relationship between parent and child is important, and will help to shape positive outcomes for that child.

Another new initiative that we have committed to delivering with our partners is Families First. That programme is a key delivery vehicle for our child poverty strategy. It is an innovation programme that will embed effective multi-agency systems and support for families, particularly those living in poverty. The programme places a strong emphasis on prevention and early and appropriate intervention: the right people doing the right things at the right time. Working together, Families First, the integrated family support service and Communities First will ensure that we engage in a seamless, integrated way with disadvantaged or complex families. We will build on and improve the links between universal prevention and specialist services. That will deliver our vision of a continuum of support delivered in an integrated way by skilled people working together to ensure better matching of needs.

I gefnogi'r nod hwn, rydym wedi datblygu rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd. Mae Dechrau'n Deg yn un fenter benodol sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod plant yn dechrau eu bywydau yn y ffordd orau posibl. Mae'r gwerthusiad yn dangos bod Dechrau'n Deg yn cael effaith wirioneddol a chadarnhaol ar blant. Pan mae'r plant hyn yn mynd i'r ysgol, maent yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu gyda phlant eraill. Yn ogystal, mae Dechrau'n Deg yn annog rhieni a gofalwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath gyda'u plant fel elfen allweddol o rianta da, ac i gydnabod gwerth chwarae tu fewn a thu allan ar gyfer datblygiad iach eu plentyn. Mae rhieni wedi adrodd hefyd bod ganddynt fwy o hyder a bond agosach gyda'u plentyn ar ôl iddynt gymryd rhan yn elfennau rianta Dechrau'n Deg. Mae perthynas gadarnhaol rhwng rhiant a phlentyn yn bwysig, a bydd yn helpu i lunio canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn fenter newydd arall yr ydym wedi ymrwymo i gyflawni gyda'n partneriaid. Mae'r rhaglen honno yn gyfrwng cyflawni allweddol ar gyfer ein strategaeth tlodi plant. Mae'n rhaglen arloesi fydd yn ymgorffori systemau aml-asiantaeth effeithiol a chefnogaeth i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais cryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar ac yn briodol: y bobl iawn yn gwneud y pethau iawn ar yr adeg iawn. Gan weithio gyda'n gilydd, mae Teuluoedd yn Gyntaf, y gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd a Chymunedau yn Gyntaf yn sicrhau ein bod yn cysylltu â theuluoedd sydd dan anfantais neu'n gymhleth mewn ffordd ddi-dor, integredig. Byddwn yn adeiladu ar ac yn gwella'r cysylltiadau rhwng atal cyffredinol a gwasanaethau arbenigol. Bydd hynny yn cyflawni ein gweledigaeth o gontinwwm o gefnogaeth a ddarperir mewn ffordd integredig gan bobl fedrus yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau ymateb gwell er mwyn bodloni anghenion.

It is, however, a sad fact that we must recognise that there are people in society who will deliberately exploit, hurt and abuse our children. In today's ever-changing and complex society, our challenge is to identify and protect these children and young people. We have received a briefing from Women's Aid on this debate, and there are sobering thoughts in the briefing. Trafficked and sexually exploited children are the innocent victims of the most serious and horrendous forms of abuse. We must do everything that we can to safeguard children. Children as young as 13 are being manipulated and groomed by unscrupulous adults under the pretence of them offering friendship and love. Once under an adult's control, some children are moved from town to town or between cities, often, but not always, for the purpose of sexual exploitation, and this is where concerns about human trafficking come to the fore. It is a complex picture, and there is a need to raise awareness of this hidden problem. Our concerns in Wales have been raised by reports by the Children's Commissioner for Wales and Joyce Watson. In recent years, the Welsh Government has taken decisive action to help statutory agencies eradicate child sexual exploitation and trafficking. With ECPAT UK, a leading charity in this area, we have developed a dedicated online training resource. 'In your hands' assists practitioners to identify and safeguard children who might be, or have been, trafficked. The production of an all-Wales safeguarding protocol that will form part of the multi-agency all-Wales child protection procedures will also help to ensure consistent and co-ordinated responses to child trafficking. That protocol should be published very soon.

We have also appointed Wales's first anti-human-trafficking co-ordinator, Mr Bob Tooby. Over the years, we have learned that the key to early identification of child safeguarding issues is ensuring that our agencies work together and equipping our professionals with good information. In January, I launched guidance on helping to safeguard children and young people from

Fodd bynnag, mae'n ffaith drist bod yn rhaid inni gydnabod bod yna bobl yn y gymdeithas fydd yn ymelwa ar, brifo a niweidio ein plant yn fwriadol. Yn ein cymdeithas heddiw, sy'n newidiol a chymhleth, ein her yw nodi a diogelu'r plant a phobl ifanc hyn. Rydym wedi derbyn gwybodaeth gan Gymorth i Fenywod ar y ddadl hon, ac mae ystyriaethau difrifol yn y wybodaeth honno. Mae plant sydd wedi dioddef oherwydd y fasnach mewn pobl neu sydd wedi cael eu hecsbloetio yn rhywiol yn ddiodeffwyr diniwed o'r ffurfiau mwyaf difrifol a dychrynlyd o gam-drin. Mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn i ddiogelu plant. Mae plant mor ifanc â 13 yn cael eu camddefnyddio a'u paratoi gan oedolion diegwyddor sy'n esgus cynnig cyfeillgarwch a chariad iddynt. Unwaith y maent o dan reolaeth oedolyn, mae rhai plant yn cael eu symud o dref i dref neu rhwng dinasoedd, yn aml, ond nid bob amser, at y diben o gam-fanteisio rhywiol, a dyma le mae pryderon ynghylch masnachu mewn pobl yn dod i'r amlwg. Mae'n ddarlun cymhleth, ac mae angen codi ymwybyddiaeth o'r broblem gudd hon. Codwyd pryderon yng Nghymru o ganlyniad i adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru a Joyce Watson. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pendant i helpu asiantaethau statudol ddileu cam-fanteisio rhywiol ar blant a masnachu mewn pobl. Gydag ECPAT UK, elusen flaenllaw yn y maes hwn, rydym wedi datblygu adnodd hyfforddi ar-lein pwrpasol. Mae 'Yn eich dwylo' yn helpu ymarferwyr i nodi a diogelu plant sydd neu a allai fod wedi cael eu masnachu. Bydd cynhyrchiad protocol diogelu Cymru gyfan, a fydd yn ffurfio rhan o'r gweithdrefnau amddiffyn plant aml-asiantaeth Cymru gyfan, hefyd yn helpu i sicrhau ymatebion cyson a chydgyssylltiedig i fasnachu plant. Dylai'r protocol gael ei gyhoeddi yn fuan iawn.

Rydym hefyd wedi penodi'r cydgysylltydd atal masnachu mewn pobl gyntaf i Gymru, Mr Bob Tooby. Dros y blynyddoedd, rydym wedi dysgu mai'r peth allweddol o ran adnabod yn gynnar faterion diogelu plant yw sicrhau bod ein hasiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd a darparu gwybodaeth dda i'n gweithwyr proffesiynol. Ym mis Ionawr, lansiais ganllawiau ar helpu i ddiogelu plant a

sexual exploitation for teachers, health professionals, social workers, the police and other key practitioners in Wales.

To support its implementation, I commissioned Barnardo's Cymru to undertake a training programme for practitioners and managers in key agencies. I remain committed to ensuring the protection of vulnerable children and young people from harm and neglect in an ever-changing and complex society. Again, I must mention the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which was recently approved and which will further strengthen safeguarding and support for children and young people in relation to the areas and recommendations raised in the Bailey report.

The issue of safeguarding and protecting children and young people in this day and age from the pressures on them to grow up has been highlighted in the report, and Jocelyn has told us a great deal about that report today. The Welsh Government also recognises that wider societal factors affect children's experience of childhood, not only in relation to concerns about the sexualisation of children, but also in relation to the negative perceptions of young people by the media. There has been a great deal of attention recently given to the sexualisation of children through fashion, music videos and other forms of the media. Therefore, it is extremely important that these issues are discussed. Once again, I thank Jocelyn for this opportunity to do so.

In order to progress this work, the Welsh Assembly Government is working closely with non-governmental organisations, including Save the Children, Funky Dragon and the office of the Children's Commissioner for Wales, to form a joined-up approach to tackle the public's often negative perception of children and young people and to give them the tools and skills that they need to promote themselves positively through the media. We can learn from every Government and we will want to learn any lessons that we can from Westminster, which was the point that Angela made.

phobl ifanc rhag dioddef cam-fanteisio rhywiol ar gyfer athrawon, gweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu ac ymarferwyr allweddol eraill yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi ei weithrediad, comisiynais Barnardos Cymru i ymgymryd â rhaglen hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr mewn asiantaethau allweddol. Yr wyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod mewn cymdeithas newidiol a chymhleth. Unwaith eto, mae'n rhaid i mi sôn am Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a gymeradwywyd yn ddiweddar a fydd yn cryfhau diogelu a chymorth i blant a phobl ifanc mewn perthynas â'r meysydd a'r argymhellion a godwyd yn adroddiad Bailey.

Mae'r mater o ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn yr oes hon rhag y pwysau sydd arnynt i dyfu i fyny wedi cael ei amlygu yn yr adroddiad, ac mae Jocelyn wedi dweud llawer wrthym am yr adroddiad hwnnw heddiw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod ffactorau cymdeithasol ehangach yn effeithio ar brofiad plant o blentynod, nid yn unig mewn perthynas â phryderon ynglŷn â rhywioli plant, ond hefyd mewn perthynas â chanfyddiadau negyddol o bobl ifanc gan y cyfryngau. Rhoddwyd llawer iawn o sylw yn ddiweddar i rywioli plant drwy ffasiwn, fideos cerddoriaeth a ffurfiau eraill o'r cyfryngau. Felly, mae'n hynod o bwysig bod y materion hyn yn cael eu trafod. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Jocelyn am y cyfle hwn i wneud hynny.

Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda sefydliadau anllywodraethol, gan gynnwys Achub y Plant, y Ddraig Ffyni a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, i ffurfio dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â chanfyddiad y cyhoedd o blant a phobl ifanc, sy'n aml yn negyddol, a rhoi iddynt yr offer a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i hyrwyddo eu hunain yn gadarnhaol drwy'r cyfryngau. Gallwn ddysgu o bob Llywodraeth a byddwn yn awyddus i ddysgu unrhyw wersi y gallwn o San Steffan, sef y pwynt a wnaethpwyd gan Angela.

Angela Burns: I have listened to what you have to say with great interest, and I welcome everything that you, as a Deputy Minister, and the Government, are doing in relation to the issues on which Joyce Watson works so hard with regard to trafficked children, children in poverty and so forth. My concern about our approach to the topic that Jocelyn has brought forward is that it is a bit like our approach to pornography: everyone is so busy looking at hard-core porn and how to stamp it out that we forget about soft-core porn, and it becomes a little bit acceptable. It is invidious; it creeps into society and into attitudes in how men and women behave towards each other and towards children. The things that you discussed this afternoon are absolutely worth while, but, again, I am concerned that if we spend all of our time and have the strategies on all of the big issues we might forget about the creeping sexualisation and about the stuff to which we become so inured that we do not notice it. Then, suddenly, wham, it is right in our faces, causing us these huge problems. That is why I would like to hear what you might be able to do, or what steps we as an Assembly could take to take this forward.

Gwenda Thomas: I will come to my responses to the specific points that Jocelyn has made, but I agree with you. I think that the best way forward is to look at childhood across the spectrum. We need to ensure that we support vulnerable children. Not all vulnerable children are in poor families. In many ways, children are vulnerable simply because they are children, and we must not lose sight of that point.

A 'Tell it like it is' media guide has been developed to support adults and professionals who work with children and young people. The guide gives practitioners and young people the techniques and contacts that will enable them to get their positive stories into the Welsh media and will help them to present a fuller, fairer picture of their news, views, activities and issues through the media. That is an important step in trying to

Angela Burns: Rwyf wedi gwranddo ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud gyda diddordeb mawr, ac rwy'n croesawu popeth yr ydych chi, fel Dirprwy Weinidog, a'r Llywodraeth, yn ei wneud o ran y materion y mae Joyce Watson yn gweithio mor galed arnynt o ran masnachu plant, plant mewn tloedi, ac yn y blaen. Fy mhryder i am ein hymagwedd at y pwnc y mae Jocelyn wedi'i gyflwyno yw ei fod yn weddol debyg i'n hymagwedd tuag at bornograffi: mae pawb mor brysur yn edrych ar bornograffi caled a sut i gael gwared ohono ein bod yn anghofio am bornograffi meddal, ac mae'n dod yn weddol dderbyniol. Mae'n ffiadd; mae'n cripiant i mewn i gymdeithas ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae dynion a menywod yn ymddwyn tuag at ei gilydd a thuag at blant. Mae'r pethau yr ydych wedi eu trafod y prynhawn yma yn hollol werth chweil, ond, unwaith eto, rwy'n pryderu, os ydym yn treulio ein holl amser ac yn dylunio strategaethau ar yr holl faterion mawr, efallai y byddwn yn anghofio am y rhywioli graddol ac am y pethau yr ydym yn cyfarwyddo â nhw a ddim yn sylwi arnynt. Yna, yn sydyn, bydd yn rhaid wynebu'r sefyllfa a bydd yn achosi problemau enfawr i ni. Felly, hoffwn glywed beth y gallwch ei wneud, neu ba gamau y gall y Cynulliad eu cymryd i symud hyn ymlaen.

Gwenda Thomas: Byddaf yn dod at fy ymatebion i'r pwyntiau penodol a wnaethpwyd gan Jocelyn, ond rwy'n cytuno â chi. Credaf mai'r ffordd orau ymlaen yw edrych ar blentyndod ar draws y sbectrwm. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynorthwyo plant sy'n agored i niwed. Nid yw pob plentyn sy'n agored i niwed yn dod o deuluoedd tlawd. Mewn sawl ffordd, mae plant yn agored i niwed oherwydd eu bod yn blant, a rhaid inni beidio ag anghofio'r pwynt hwnnw.

Mae canllaw cyfryngau 'Tell it like it is' wedi cael ei ddatblygu i gefnogi oedolion a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r canllaw yn rhoi i ymarferwyr a phobl ifanc y technegau a'r cysylltiadau fydd yn eu galluogi i gael eu storïau cadarnhaol yn y cyfryngau Cymraeg ac yn eu cynorthwyo i gyflwyno darlun llawnach a thecach o'u newyddion, eu safbwyntiau, gweithgareddau a materion

stop this creeping sexualisation. These activities and initiatives, and our commitment to children and young people in Wales, will assist us in tackling specific issues in relation to clothing and products that are suitable for children, advertising, marketing and the media.

Jocelyn asked some specific questions in her speech, and I would like to take the opportunity to respond to those. As I stated earlier, I feel strongly about this topic, and I will be looking closely at the recommendations of the Bailey report before considering the commissioning of a response on behalf of the Welsh Government. We will also look closely at the findings of the report undertaken for the Equal Opportunities Committee of the Scottish Parliament in 2010, and at the actions that the Scottish Government intends to take, to help inform any decisions that we take in Wales.

Finally, in response to the points that Angela made, the Children's Commissioner for Wales has an important role to play in representing the views of children and young people. I will ask him to highlight in his annual report whether these issues have been raised during the course of his work with children, young people and organisations across Wales. That will be a good starting point for us to consider how we proceed to deal with this matter in future.

Peter Black: That brings today's proceedings to a close.

drwy'r cyfryngau. Mae hynny'n gam pwysig wrth geisio atal y rhywioli cynyddol. Bydd y gweithgareddau a'r mentrau hyn, a'n hymrwymiad i blant a phobl ifanc yng Nghymru, yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â materion penodol mewn perthynas â dillad a chynhyrchion sy'n addas ar gyfer plant, hysbysebu, marchnata a'r cyfryngau.

Bu i Jocelyn ofyn rhai cwestiynau penodol yn ei haraith, a hoffwn fanteisio ar y cyfle i ymateb i'r rheini. Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n teimlo'n gryf am y pwnc hwn, a byddaf yn edrych yn ofalus ar argymhellion adroddiad Bailey cyn ystyried comisiynu ymateb ar ran Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn edrych yn fanwl ar ganfyddiadau'r adroddiad a wnaethpwyd ar gyfer Pwyllgor Cyfle Cyfartal Senedd yr Alban yn 2010, ac ar y camau y mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu eu cymryd, er mwyn helpu i lywio unrhyw benderfyniadau a wnawn yng Nghymru.

Yn olaf, mewn ymateb i'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Angela, mae gan Gomisiynydd Plant Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran cynrychioli barn plant a phobl ifanc. Gofynnaf iddo, yn ei adroddiad blynyddol, i drafod a yw'r materion hyn wedi cael eu codi yn ystod ei waith gyda phlant, pobl ifanc a sefydliadau ar draws Cymru. Bydd hynny'n fan cychwyn da i ni ystyried sut yr ydym yn symud ymlaen i ddelio â'r mater hwn yn y dyfodol.

Peter Black: Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.26 p.m.
The meeting ended at 5.26 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Keith (Llafur – Labour)

Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
 Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Julie (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Julie (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
 Rees, David (Llafur – Labour)
 Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank